



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BIL ADDYSG (CYMRU)

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Gorffennaf 2013

Memorandwm Esboniadol i'r Bil Addysg (Cymru)

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Datganiad yr Aelod

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Bil Addysg (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar 1 Gorffennaf 2013 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

HUW LEWIS AC

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Yr Aelod Cynulliad sy'n gyfrifol am y Bil

01 Gorffennaf 2013

Cynnwys

RHAN 1

1. Disgrifiad
2. Y cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth
6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

RHAN 2 - ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

7. Yr opsiynau
8. Costau a manteision
9. Asesiad o'r gystadleuaeth
10. Adolygu ar ôl gweithredu

ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol

ATODIAD 2 – Cyngor y Gweithlu Addysg – Model Ffioedd Economaidd

1. Disgrifiad

1. Mae Llywodraeth Cymru drwy'r Bil Addysg (Cymru) ('y Bil') yn ceisio deddfu yn y meysydd a ganlyn:

Cyngor y Gweithlu Addysg – Cofrestru a rheoleiddio athrawon a'r gweithlu ehangach;

Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig;

Asesu anghenion addysgol ac anghenion hyfforddi ôl-16 ac Addysg Bellach arbenigol;

Dyddiadau tymhorau ysgolion;

Penodi Prif Arolygydd EM ac Arolygwyr EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2005.

2. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi gwneud y datganiad a ganlyn:

"Yn fy marn i, cafodd sylw dyledus ei roi, yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu darpariaethau'r Bil Addysg (Cymru)".

2. Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth mewn perthynas ag addysg yng Nghymru drwy rinwedd adran 108, a Rhan 1 (Pwnc 5: Addysg a hyfforddiant) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
4. Caiff Pwnc 5 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ei atgynhyrchu isod:

Education and training

5. Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge.

Exception—

Research Council.

5. Caiff Adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ei hatgynhyrchu isod:

Legislative Competence

- (1) Subject to the provisions of this Part, an Act of the Assembly may make any provision that could be made by an Act of Parliament.*
- (2) An Act of the Assembly is not law so far as any provision of the Act is outside of the Assembly's legislative competence.*
- (3) A provision of an Act of the Assembly is within the Assembly's legislative competence only if it falls within subsection (4) or (5).*
- (4) A provision of an Act of the Assembly falls within this subsection if -*
 - (a) it relates to one or more of the subjects listed under any of the headings in Part 1 of Schedule 7 and does not fall within any of the exceptions specified in that Part of that Schedule (whether or not under that heading or any of those headings), and*
 - (b) it neither applies otherwise than in relation Wales.*
- (5) A provision of an Act of the Assembly falls within this subsection if-*
 - (a) it provides for the enforcement of a provision (of that or any other Act of the Assembly) which falls within subsection (4) or a provision*

of an Assembly Measure or it is otherwise appropriate for making such a provision effective, or

(b) is otherwise incidental to, or consequential on, such a provision.

(6) But a provision which falls within subsection (4) or (5) is outside the Assembly's legislative competence if—

(a) it breaches any of the restrictions in Part 2 of Schedule 7, having regard to any exception in Part 3 of that Schedule from those restrictions,

(b) it extends otherwise than in only to England and Wales, or

(c) it is incompatible with the Convention rights of Community law.

(7) For the purposes of this section the question whether a provision of an Act of the Assembly relates to one or more of the subjects listed in Part 1 of Schedule 7 (or falls within any of the exceptions specified in that Part of that Schedule) is to be determined by reference to the purpose of the provision, having regard (amongst other things) to its effect in all the circumstances.

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

6. Mae'r Bil yn amlinellu nifer o gynigion a fydd yn gwella'r modd y caiff y gweithlu ei gynllunio, ei hyfforddi a'i ddatblygu. Bydd y Bil yn cyflwyno system gofrestru newydd, fwy cadarn, a fydd yn sicrhau mwy o gysondeb ac yn cydnabod cyfraniad y gweithlu addysg cyfan i addysg pob dysgwr yng Nghymru.
7. Bydd y Bil yn sicrhau mwy o gysondeb drwy newid y ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu pennu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cysoni ar draws pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
8. Bydd y Bil hefyd yn cefnogi darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA) drwy ddiwygio'r ffordd y mae ysgolion annibynnol yn cael eu cofrestru a'u cymeradwyo i ddarparu addysg i ddysgwyr ag AAA. Bydd hefyd yn darparu ar gyfer pontio gwell i ddysgwyr ag AAA o'r ysgol i addysg bellach drwy osod cyfrifoldeb am asesu anghenion dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu, ac am sicrhau eu bod yn derbyn addysg ôl-16 arbenigol, ar yr awdurdod lleol.

Y Gweithlu Addysg

9. Ym mis Chwefror 2011, amlinellodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei agenda ar gyfer codi safonau addysg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wella safonau a chyrhaeddiad addysgol ar ran pobl Cymru ac i sicrhau bod ymarferwyr y gweithlu addysg ehangach yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol.
10. Mae cofrestru gyda chorff proffesiynol sy'n gosod ac yn cynnal safonau proffesiynol, a thrwy hynny yn ennyn hyder y cyhoedd a dangos ymrwymiad cyffredin i broffesiynoldeb, yn nodwedd amlwg mewn amryw o broffesiynau. Ar hyn o bryd, o'r holl weithlu addysg yng Nghymru, dim ond athrawon sy'n gorfod cofrestru gyda'r Cyngor Addysgu Cyffredinol, hynny yw rhaid i athrawon gofrestru er mwyn cael addysgu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Bydd y Bil yn gosod fframwaith fel ei bod yn ofynnol i sectorau eraill o'r gweithlu addysg ehangach hefyd gofrestru. Mae'r Bil hefyd yn amlinellu'r fframwaith ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg, y corff cofrestru diwygiedig ag iddo enw newydd, ac yn pennu cylch gwaith y corff hwnnw.

Y trefniadau deddfwriaethol presennol

11. Mae Pennod 1 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (Deddf 1998), ac Atodlenni 1 a 2 i'r ddeddf honno, yn gwneud darpariaethau ar gyfer system gofrestru athrawon a weinyddir gan y Cyngor Addysgu Cyffredinol. Yn benodol:

Mae Adran 1(2) o Ddeddf 1998 yn amlinellu prif amcanion y Cyngor Addysgu Cyffredinol, sef cyfrannu at wella safonau'r addysgu ac ansawdd y dysgu a chynnal a chodi safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon, er budd y cyhoedd;

Mae Adran 1(5) i (7) o Ddeddf 1998, ac Atodlen 1 i'r ddeddf honno, yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad, aelodaeth, cyllid, yn ogystal â materion staffio a llywodraethu, y Cyngor Addysgu Cyffredinol;

Mae Adran 4 o Ddeddf 1998 yn darparu fel y gall unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chofrestru wneud darpariaeth ynghylch rhoi awdurdod i'r Cyngor Addysgu Cyffredinol godi ffioedd;

Mae Adran 12 o Ddeddf 1998 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr athrawon cofrestredig ddidynnu o gyflog yr athro unrhyw ffi sy'n daladwy ar gyfer cofrestru, neu i drefnu y didynnir unrhyw ffi o'r fath, a'i drosglwyddo i'r Cyngor Addysgu Cyffredinol. Gall rheoliadau o'r fath hefyd ddarparu ar gyfer eithriadau a threfniadau i'w gwneud gan gyflogwyr yr athrawon i ddidynnu a throsglwyddo ffioedd o'r fath, y costau gweinyddol y gellir eu didynnu ohonynt, ac i hysbysu'r Cyngor Addysgu Cyffredinol am y manylion penodedig mewn perthynas ag athrawon;

Mae Adrannau 14-15A o Ddeddf 1998 yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu gwybodaeth am athrawon.

Y cefndir

12. Mae'r gweithlu addysg yng Nghymru wedi newid yn sylweddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Mae'r opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru diolch i gydweithredu rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 wedi arwain at gydweithio llawer agosach rhwng ymarferwyr o sectorau gwahanol. Yng ngoleuni diwygiadau fel y Cyfnod Sylfaen a Llwybrau Dysgu 14-19, mae'n ofynnol i staff cymorth dysgu, athrawon ac athrawon ôl-16, hyfforddwyr a darlithwyr gydweithredu i gefnogi dysgwyr yn fwy effeithiol.

13. Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y gofynion sydd ar y gweithlu addysg ehangach o ran:

Safonau proffesiynol;

Cymwysterau;

Hyfforddiant cychwynnol;

Rheoli perfformiad;

Datblygiad proffesiynol parhaus.

14. Er bod rhai o'r gwahaniaethau hyn yn gwbl briodol ac yn adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol yng ngofynion y sector, mae yna wahaniaethau eraill, mwy artiffisial, sy'n rhwystro i gydweithio a symudedd ymhlith y gweithlu. Nid yw ychwaith yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod pob gweithiwr proffesiynol yn y maes addysg yn arddel safonau uchel cyffelyb o ran ymddygiad a chymhwysedd proffesiynol.
15. Mae nifer mawr o weithwyr proffesiynol yn y gweithlu addysg. Yn 2010/11, roedd dros 21,300 o staff cymorth mewn ysgolion ac ychydig dros 8,810 o staff addysgu uniongyrchol (cyfwerth ag amser llawn) yn y sector addysg bellach nad oedd yn ofynnol iddynt gofrestru. Ar hyn o bryd, dim ond y 38,000 o athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru sy'n gorfod cofrestru. Mewn sectorau eraill, ychydig o ddata a gasglwyd, ac o ganlyniad mae'n anodd cynllunio'r gweithlu ar draws y sector addysg ehangach.
16. Mae proffesiynoldeb, addasrwydd, safonau ymddygiad, hyfforddiant a datblygiad y gweithlu addysg yn allweddol i'w lwyddiant. Er mwyn gwireddu uchelgais Llywodraeth Cymru o system addysg sy'n perfformio'n dda, rhaid i'r rheini sy'n gweithio ym mhob sector allu manteisio ar gymwysterau, cefnogaeth a datblygiad sydd wedi'u cynllunio'n dda. Rhaid cydnabod rôl pob un sy'n gweithio i gefnogi addysgu a dysgu fel rhan o un gweithlu addysg cydlynus yng Nghymru.
17. Mae cofrestru gyda chorff proffesiynol sy'n gosod ac yn cynnal safonau proffesiynol yn nodwedd amlwg mewn amryw o broffesiynau. Ar hyn o bryd, rhaid i bob athro cymwysedig sy'n cyflawni gwaith penodedig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru gofrestru gyda'r Cyngor Addysgu Cyffredinol. Manteision hyn yw ei fod yn cynnig atebolrwydd a thryloywder ac yn rhoi sicrwydd o ran safonau. Fel y'i darperir mewn deddfwriaeth ar hyn o bryd, nid yw cwmpas a swyddogaethau'r Cyngor Addysgu Cyffredinol ond yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Ymddengys hyn yn anghyson ac mae'n tanseilio'r rhan hanfodol y mae pob ymarferwr addysg yn ei chwarae i ddarparu addysg i ddysgwyr a chodi safonau ymhlith y gweithlu addysg ehangach.
18. Gyda threfniadau a phartneriaethau sy'n gynyddol amrywiol ar draws y gweithlu addysg yn dod at ei gilydd i ddiwallu anghenion dysgwyr yn fwy effeithiol, nid yw'n ddigonol mwyach mai dim ond athrawon, ac nid ymarferwyr addysg eraill sy'n darparu addysg i ddysgwyr yng Nghymru, y mae'n ofynnol iddynt gofrestru.

Amcanion

19. Bydd y Bil yn rhoi enw newydd i'r Cyngor Addysgu Cyffredinol, y corff cofrestru presennol, ac yn ei ddiwygio, gyda'r bwriad y bydd yn cyfrannu at godi safonau ymarfer addysgol.

20. Bydd y gofrestr, a gaiff ei chadw gan y Cyngor, yn parhau i gynnwys athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru (sy'n ofyniad gorfodol eisoes) a bydd hefyd yn ofynnol i grŵp ehangach o ymarferwyr gofrestru. Y nod, i ddechrau, yw ymestyn y rhwymedigaeth i gofrestru i gynnwys y grwpiau canlynol:

gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion;

athrawon a staff cymorth dysgu addysg bellach.

21. Y bwriad yw ymestyn y rhwymedigaeth i gofrestru ymhellach eto i gynnwys y grwpiau canlynol:

tiwtoriaid dysgu seiliedig ar waith a staff cymorth dysgu;

gweithwyr ieuenctid.

22. Byddai hynny'n cael ei wneud drwy ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau.

23. Un o amcanion y Bil yw mai dim ond gan berson sydd wedi cofrestru i gyflawni gwaith penodedig o'r fath y caiff gwaith penodedig penodol ei gyflawni yng Nghymru. Caiff y math o waith y bydd yn ofynnol cofrestru i'w gyflawni ei bennu mewn rheoliadau a wneir o dan y Bil.

24. Mae Llywodraeth Cymru am i'r corff cofrestru diwygiedig a elwir yn Gyngor y Gweithlu Addysg, fel rhan o'i waith i gofrestru'r gweithlu addysg ehangach, fod yn bartner allweddol o ran sicrhau mwy o gysondeb, gan gefnogi'r agenda gwella i helpu i godi safonau, a chynnal a chodi hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

25. Mewn perthynas â'r Gweithlu Addysg, mae'r newidiadau a wneir gan y Bil yn darparu fel a ganlyn:

Cyngor y Gweithlu Addysg

26. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i newid enw'r corff cofrestru presennol i Gyngor y Gweithlu Addysg (Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gynt) ac i ymestyn y gofynion cofrestru, cymhwyso a hyfforddi i'r gweithlu addysg ehangach.

27. Bydd gan Gyngor y Gweithlu Addysg (y Cyngor) ddau amcan:

Cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu yng Nghymru;

Cynnal a chodi safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon ac eraill yn y gweithlu addysg sy'n cefnogi addysgu a dysgu.

28. Prif swyddogaethau'r Cyngor wrth fodloni ei amcanion fydd:

Rhoi cyngor i'r rheini sydd wedi cofrestru;

Hyrwyddo gyrfaedd y gweithlu addysg sy'n gallu cofrestru;

Sefydlu a chadw cofrestr;

Adolygu a diwygio'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer sy'n manylu ar safonau ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gan aelodau'r gweithlu addysg y mae'n ofynnol iddynt gofrestru;

Cadw gwybodaeth a'i darparu;

Sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r diweddaraf mewn perthynas â sefydlu ac arfarnu'r gweithlu addysg;

Ymchwilio i achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac anghymhwysedd.

29. Mae'r Bil yn ceisio sicrhau hyblygrwydd i ddiwallu anghenion cyfnewidiol y gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol, ac mae'n cynnwys darpariaethau i ymestyn swyddogaethau'r Cyngor, ar ôl ymgynghori, ac i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Cyngor.

Rhoi cyngor a hyrwyddo gyrfaedd

30. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gofyn / rhoi caniatâd i'r Cyngor gynghori ar faterion yn ymwneud ag aelodau'r gweithlu addysg ehangach (y mae'n ofynnol iddynt gofrestru), gan gynnwys ynghylch materion megis hyfforddiant, datblygiad proffesiynol parhaus a recriwtio, cadw a chyflenwi staff. At hynny, gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru, gall y Cyngor ddarparu a chyhoeddi cyngor ar faterion sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu.

31. Mae gan Weinidogion Cymru'r pŵer eisoes i hyrwyddo gyrfaedd yng ngweithlu'r ysgol ac i drefnu bod corff neu berson arall yn arfer y pŵer hwnnw. Yn y gorffennol, bu Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar gcontract â sefydliadau perthnasol yn Lloegr er mwyn hyrwyddo addysgu. Fodd bynnag, y bwriad yn awr yw ymgymryd â'r gwaith hwn ar sail Cymru yn unig a chynnwys y gweithlu addysg ehangach. Caiff gweithgareddau eu cynllunio i hyrwyddo'r broses recriwtio i'r proffesiynau y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys rhoi cyngor; trefnu cynadleddau a darlithoedd; a threfnu i ddeunyddiau gael eu cyhoeddi.

Cofrestru'r gweithlu addysg

32. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor lunio a chynnal cofrestr i gynnwys pob un sydd wedi cofrestru mewn categorïau penodol o'r gweithlu addysg. Bydd y manylion personol a gedwir ar y gofrestr yn cynnwys enw, cyfeiriad

cyswllt, cyflogaeth, cymwysterau a datblygiad proffesiynol. Bydd yr wybodaeth a gaiff ei chadw ar y gofrestr ar gael i: unigolion sydd wedi cofrestru a fydd yn cael gweld eu cofnodion yn llawn; cyflogwyr a all gynnal gwiriadau cyflogaeth neu cyn-cyflogaeth; a'r cyhoedd yn gyffredinol a fydd ond yn gallu gweld a ydy unigolyn wedi cofrestru gyda'r Cyngor neu beidio.

33. Rhaid i'r categorïau a ganlyn o'r gweithlu addysg gofrestru:

Athrawon ysgol;

Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion;

Athrawon addysg bellach;

Gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach.

34. Mae'r Bil hefyd yn darparu'r pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu at y categorïau hyn, eu dileu neu eu diwygio, ond mae'r pŵer hwn yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad.

35. Bydd person yn gymwys i gofrestru os yw'n bodloni'r amodau a ganlyn:

- i. mae'n dod o dan un o'r categorïau cofrestru ac mae wedi cwblhau'n foddhaol unrhyw gyfnod o sefydlu sy'n ofynnol ar gyfer y categori hwnnw; neu mae'n bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru dros dro fel y'u hamlinellir gan Weinidogion Cymru;
- ii. nid yw wedi'i wahardd rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch a reoleiddir sy'n berthnasol i blant o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006; nid yw'n destun gorchymyn disgyblu a wnaed gan y Cyngor; ac nid yw wedi'i wahardd o swydd gyfatebol mewn rhan arall o'r DU;
- iii. mae'r Cyngor yn fodlon ynghylch ei addasrwydd i gael ei gofrestru yn y categori y ceisiwyd amdano.

36. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau sy'n caniatáu i unigolyn, y mae ei gais i gofrestru gyda'r Cyngor wedi cael ei wrthod, apelio i'r Uchel Lys yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

37. Roedd dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru *Cynigion ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg yng Nghymru*¹ yn cynnwys rhai syniadau cynnar am lefel y ffi ac yn gwahodd sylwadau. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r rheini sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Addysgu Cyffredinol dalu ffi gofrestru flynyddol, sy'n £45 ar hyn o bryd, i gadw eu statws cofrestredig. Roedd rhai o'r sylwadau yn codi materion pwysig ac yn tynnu sylw at yr angen i ymgynghori ymhellach ac yn fanylach. Mae'r Bil

¹ <http://wales.gov.uk/consultations/education/workforceregistration/?status=closed&lang=cy>

yn mabwysiadu model tebyg i hwnnw a ddarparwyd gan Ddeddf 1998 sy'n rhoi i Weinidogion Cymru bŵer gwneud rheoliadau i wneud darpariaeth mewn perthynas â ffioedd.

38. Mae'r Bil yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ar gyfer gwneud darpariaethau pellach mewn perthynas â'r gofrestr, yn ôl y gofyn neu fel sy'n briodol, er mwyn sicrhau digon o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion cyfnewidiol y gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol. Gall rheoliadau wneud darpariaeth yn benodol ynglŷn â'r ddogfennaeth a thystiolaeth arall sydd i'w cyflwyno gyda cheisiadau, y materion sydd i'w cofnodi ar y gofrestr yn erbyn enwau'r rheini sydd wedi cofrestru, yr wybodaeth yn y gofrestr y gellid ei rhyddhau i aelodau o'r cyhoedd ei gweld a'r amgylchiadau ac amodau lle y gellid rhyddhau'r wybodaeth honno.

Gofynion i'w bodloni er mwyn cyflenwi gwasanaethau

39. Mae'r Bil yn mabwysiadu model tebyg i hwnnw a ddarperir gan Ddeddf 1998 a Deddf Addysg 2002 sy'n rhoi i Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau ar gyfer gwneud darpariaeth mewn perthynas â chofrestru athrawon.
40. Ar hyn o bryd, rhaid i bob athro cymwysedig gofrestru gyda'r Cyngor Addysgu Cyffredinol er mwyn gallu addysgu mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru. Amlinellir y trefniadau ar gyfer cofrestru athrawon yn Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012². Mae Rheoliadau 2012 yn pennu'r llwybrau sydd ar gael i ddod yn "athro cymwysedig". Er enghraifft, llwyddo yn yr Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol; neu Gynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth. Mae Adran 133 o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru sy'n darparu mai dim ond mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, a chan athro cymwysedig neu berson sy'n bodloni'r gofynion penodedig, y gellir cyflawni gwaith penodedig. Mae Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010³ yn cynnwys rheoliadau sy'n manylu ar yr hyn sy'n waith penodedig i athrawon.
41. Mae'r Bil yn darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i bennu na all person gyflawni gwaith penodedig onid yw'r person hwnnw wedi bodloni gofynion penodol. Bydd y gofynion i'w bodloni yn wahanol ar gyfer pob categori cofrestru ond gallai'r gofynion hynny ymwneud â chymwysterau, hyfforddiant, profiad neu amod benodedig arall.

Sefydlu ac arfarnu personau cofrestredig

42. Mae gan athrawon brosesau a gofynion sydd wedi hen ennill eu plwyf sy'n berthnasol i'w cyfnodau sefydlu ac arfarnu.

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/724/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/2710/made/welsh>

43. Mae sefydlu yn ofyniad statudol i bob athro newydd gymhwyso yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae hyn wedi'i osod mewn rheoliadau⁴. I athrawon newydd gymhwyso, mae'r cyfnod sefydlu statudol yn pontio rhwng addysg a hyfforddiant cychwynnol i athrawon ac ymarfer proffesiynol effeithiol.
44. Mae'r cyfnod sefydlu fel arfer yn cael ei gynnal dros dri thymor llawn (hynny yw, un flwyddyn ysgol) neu gyfnod cyfatebol, er bod hyblygrwydd i athrawon sy'n gweithio'n rhan-amser, sy'n cymryd bylchau yn eu cyflogaeth, neu sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi tymor byr. Mae sefydlu i athrawon yng Nghymru yn cynnwys yr agweddau a ganlyn:

Rhaglen o ddatblygiad proffesiynol, monitro a chefnogaeth yn seiliedig ar y blaenoriaethau craidd yn y meysydd yr ydym yn gwybod sy'n allweddol i godi safonau addysgu a gwella deilliannau'r dysgwyr. Llythrennedd, rhifedd, lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, anghenion dysgu ychwanegol, rheoli ymddygiad ac ymarfer myfyriol yw'r blaenoriaethau hynny;

Cefnogaeth mentor gydol y cyfnod sefydlu;

Cwtogi amserlen yr athro newydd gymhwyso 10% (caiff hyn ei bennu yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol);

Asesu yn erbyn y Safonau Athrawon Wrth Eu Gwaith.

45. Mae rheoli perfformiad yn broses barhaus fel cylch sy'n cynnwys cynllunio, monitro perfformiad ac adolygu perfformiad. Yn achos athrawon ac arweinwyr mewn ysgolion, mae hon yn broses sydd wedi hen sefydlu sy'n helpu ysgolion i wella drwy osod fframwaith ar gyfer athrawon ac arweinwyr i gytuno ar flaenoriaethau ac amcanion a'u hadolygu yng nghyd-destun cynllun gwella'r ysgol. Mae'n rhoi ffocws ar wneud addysgu ac arwain yn fwy effeithiol er budd disgyblion, athrawon a'r ysgol. Mae manylion y gofynion statudol presennol ar gyfer athrawon a phenaethiaid i'w cael mewn canllawiau a rheoliadau⁵. Mae'r arfarniad rheoli perfformiad yn broses ar wahân i weithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo.
46. Mae systemau sefydlu ac arfarnu sydd wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer y gweithlu addysg yn hanfodol i godi safonau. Fodd bynnag, mae'r trefniadau sefydlu ac arfarnu sydd eisoes yn bodoli ar gyfer pob categori wedi datblygu i wahanol raddau. Er enghraifft, mae trefniadau sefydlu ac arfarnu athrawon wedi hen sefydlu erbyn hyn ond mae'r sefyllfa'n wahanol yn achos y categorïau eraill. Mae'r Bil, felly, yn ystyried y gwirionedd ymarferol hwn drwy roi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch sefydlu ac arfarnu. O ganlyniad, bydd modd sefydlu trefniadau gwahanol ar gyfer categorïau gwahanol. Mae hyn yn sicrhau bod digon o hyblygrwydd i ddiwallu

⁴<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/1675/contents/made/welsh>

⁵<http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/performance-management/?lang=cy>

anghenion cyfnewidiol y gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol a bydd yn sicrhau bod y trefniadau yn bodloni gofynion gwahanol y gweithlu ehangach.

Cod ymddygiad ac ymarfer ar gyfer personau cofrestredig

47. Mae hawl gan rieni, disgyblion a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, yn ogystal â'r proffesiwn addysg ei hun, ddisgwyl i'r gweithlu addysg yng Nghymru gynnal y safonau uchaf oll o ran proffesiynoldeb.

48. Mae'r *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Athrawon Cofrestredig*⁶ cyfredol yn amlinellu'r egwyddorion allweddol o ran ymddygiad ac ymarfer da ar gyfer athrawon cofrestredig yng Nghymru. Y bwriad yw rhoi arweiniad i athrawon wrth iddynt lunio barn a gwneud penderfyniadau a hysbysu rhieni, disgyblion a'r cyhoedd yn gyffredinol o'r safonau y gallant eu disgwyl gan athrawon cofrestredig. Mae'r Cod yn:

helpu athrawon, fel aelodau o broffesiwn medrus yr ymddiriedir ynddo i wybod pa fath o ymddygiad a ddisgwylir ganddynt;

rhoi lles plant yn gyntaf drwy osod ffiniau clir ar gyfer yr hyn sy'n ymddygiad ac ymarfer proffesiynol priodol / amhriodol ar gyfer athrawon cofrestredig;

rhoi eglurder i rieni, disgyblion a'r cyhoedd yn gyffredinol ynghylch yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan athrawon cofrestredig;

cefnogi ymarfer da gan athrawon.

49. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer cyntaf yn pennu'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n ddisgwyliedig gan y rheini y mae'n ofynnol iddynt gofrestru. Mae hyn yn sicrhau cysondeb â llawer o broffesiynau eraill y mae'r cyhoedd yn dibynnu arnynt, megis Meddygaeth, y Gyfraith, Nyrsio, Pensaernïaeth neu Beirianeg, sydd ag iddynt Godau. Mae hefyd yn dangos ymrwymiad cyffredin i broffesiynoldeb ar draws y gweithlu addysg ehangach.

50. Bwriad y Cod yw amlinellu egwyddorion a safonau allweddol ymddygiad ac ymarfer da ar gyfer y gweithlu addysg cofrestredig yng Nghymru. Gall y Cod hefyd ddarparu ar gyfer safonau gwahanol ar gyfer y categorïau gwahanol. Wedi i'r Cod cyntaf gael ei gyhoeddi, bydd yn ofynnol i'r Cyngor adolygu a diwygio'r Cod, ac ymgynghori â phob person a chorff sydd â diddordeb yn y Cod wrth wneud hynny.

Swyddogaethau disgyblu'r Cyngor

⁶ <http://www.gtcw.org.uk/gtcw/cy/professional-conduct-a-competence/code-of-professional-conduct-and-practice>

51. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn cyflawni swyddogaethau disgyblu fel y'u hamlinellir yn Neddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Mae'n ofynnol iddo wrando achosion o'r canlynol ac ymchwilio iddynt:

Ymddygiad proffesiynol annerbyniol;

Anghymhwysedd proffesiynol difrifol; a/neu

Os yw athro ar unrhyw adeg wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol, neu os yw'n ymddangos bod athro cofrestredig yn euog o drosedd o'r fath neu wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd o'r fath.

52. Yn ein barn ni, mae'r swyddogaeth ddisgyblu yn agwedd bwysig ar unrhyw weithdrefn gofrestru. Mae hefyd yn meithrin hyder y cyhoedd yn y proffesiwn cofrestredig, drwy sicrhau bod unigolion yn bodloni'r safonau gofynnol o ran ymddygiad proffesiynol.
53. Bydd gan y Cyngor swyddogaethau disgyblu. Mae hyn yn golygu y bydd yn parhau i gyflawni swyddogaethau disgyblu yng nghyswllt athrawon ond mae'n ymestyn y cwmpas hefyd i gynnwys aelodau'r gweithlu addysg ehangach y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru. Mae'r Bil yn darparu fel y gall y Cyngor gynnal ymchwiliadau mewn perthynas ag unigolion yn y gweithlu addysg y mae'n ofynnol iddynt gofrestru a, lle yr ystyrir bod hynny'n briodol, gwrando achosion disgyblu lle honnir bod person cofrestredig yn euog o gamymddwyn; anghymhwysedd proffesiynol; neu os yw wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd benodol a phenderfynu ar yr achosion hynny. Mae'r Bil hefyd yn darparu fel y gall y Cyngor ddod i benderfyniad heb wrandawriad os ceir cydsyniad y person cofrestredig.
54. Mae'r Bil yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am ffurf a chynnwys unrhyw wrandawriadau o'r fath a gaiff eu cynnal (gan gynnwys gofynion o ran y rhybudd, gorfodi presenoldeb a derbynoldeb tystiolaeth); am y gorchmynion disgyblu (pryd y mae gorchmynion yn dod i effaith ac ynglŷn ag adolygu gorchmynion); ac am y camau y gallai fod yn ofynnol eu cymryd gan gyflogwr person sydd wedi cael gorchmynion disgyblu.
55. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu bod person yn euog, gall wneud gorchmynion disgyblu. Mae'r Bil yn darparu fel y gall y Cyngor wneud y gorchmynion disgyblu a ganlyn:

Cerydd – os yw'r person yn dal yn gymwys i gofrestru;

Gorchmynion cofrestru amodol – os yw'r person yn dal yn gymwys i gofrestru ond bod rhaid iddo gydymffurfio â'r amodau a bennir yn y gorchmyn;

Gorchymyn diarddel – os yw'r person yn dod yn anghymwys i gofrestru am gyfnod o amser (heb fod yn hwy na dwy flynedd) ac yn amodol ar yr amodau a bennir yn y gorchymyn;

Gorchymyn gwahardd – os yw'r person yn dod yn anghymwys i gofrestru.

56. Mae'r Bil yn darparu y caiff person apelio i'r Uchel Lys yn erbyn ei orchymyn disgyblu (cyn pen 28 diwrnod). Bydd penderfyniad yr Uchel Lys yn derfynol.

Dyletswyddau o ran gwybodaeth

57. Ar hyn o bryd, y Cyngor Addysgu Cyffredinol sy'n cadw Cofrestr a chofnodion yr athrawon cymwysedig yng Nghymru, gan gynnwys cofnodion athrawon sy'n destun gorchymyn disgyblu a/neu nad ydynt yn gymwys i gofrestru. Yn unol â Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2007⁷, mae'n ofynnol i bersonau sy'n darparu addysg mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru gydymffurfio ag amodau penodol. Mae'r amodau hynny yn ymwneud â gwiriadau y mae'n rhaid eu cynnal a chofrestr y mae'n rhaid ei chadw ar gyfer personau o'r fath.
58. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor gadw cofnodion am bobl y mae'n ofynnol iddynt gofrestru.
59. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am y cofnodion sydd i'w cadw gan y Cyngor a phryd y mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofnodion am unigolion nad ydynt yn gymwys i gofrestru.
60. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor yn ôl yr angen at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Bydd angen i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn amdani at ddibenion cynnal dadansoddiadau ystadegol a/neu swyddogaethau o'r fath y gallai fod gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r categorïau cofrestru newydd. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth i bersonau a chyrrff eraill ac i bennu'r dibenion a'r amodau lle gellid darparu gwybodaeth o'r fath.
61. Mae'r Bil yn ymestyn y darpariaethau presennol ynghylch yr wybodaeth sydd i'w darparu gan gyflogwyr personau cofrestredig. Bydd yn ofynnol i gyflogwyr roi i'r Cyngor enw unrhyw berson cofrestredig a gyflogir ganddynt, yn ogystal â gwybodaeth arall o'r fath y gofynnir yn rhesymol amdani gan y Cyngor ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau. Bydd yn

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2007/2220/contents/made/welsh>

ofynnol i gyflogwyr roi gwybodaeth i'r Cyngor pan fyddant wedi stopio defnyddio gwasanaeth person cofrestredig ar sail:

Ymddygiad proffesiynol annerbyniol;

Anghymhwysedd proffesiynol;

Os yw person wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd berthnasol.

62. Bydd hefyd yn ofynnol i'r cyflogwr ddarparu gwybodaeth o'r fath i'r Cyngor os byddai cyflogwr wedi stopio defnyddio gwasanaeth person cofrestredig ar yr un sail, pe na fyddai'r gweithiwr ei hun wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Bydd hefyd yn ofynnol i asiantaethau ddarparu gwybodaeth o'r fath os ydynt wedi terfynu neu os byddent wedi terfynu trefniadau gyda'r gweithiwr am yr un rhesymau.
63. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo cyflogwr neu asiantau i ddarparu'r wybodaeth hon pan nad ydynt yn cydymffurfio â'r ddyletswydd (neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'n debygol y byddant yn cydymffurfio â'r ddyletswydd).

Atodlen 1 - Cyngor y Gweithlu Addysg

64. Mae Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfansoddiad a phwerau'r Cyngor.
65. Mae'r Bil yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn yn pennu nifer yr aelodau y bydd y Cyngor yn ei gael, a/neu bennu mwyafswm neu isafswm ar gyfer nifer yr aelodau. Bydd gan Weinidogion Cymru swyddogaeth i benodi aelodau ac wrth wneud hynny, rhaid iddynt roi sylw dyledus i ddymunoldeb yr aelodaeth, a chynnwys y rheini sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor mewn modd effeithiol ac effeithlon. At hynny, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y mwyafrif o aelodau yn bersonau cofrestredig, neu wedi bod yn ddiweddar. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch aelodau a'u penodi, a allai gynnwys cymhwystra a'r weithdrefn ar gyfer penodi. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch cadw aelodau ac ynghylch dod â'u haelodaeth i ben.
66. Mae'r Bil yn darparu y gall y Cyngor wneud trefniadau i roi i'w aelodau dâl cydnabyddiaeth, lwfansau a chostau fel a bennir ganddo. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun yn amlinellu'r trefniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn ac i wneud trefniadau o'r fath yn unol â'i gynllun cyhoeddedig (y mae'n ofynnol iddo ei adolygu'n rheolaidd).
67. Mae'r Bil yn rhoi swyddogaeth i'r Cyngor enwebu Cadeirydd o blith ei aelodau.

68. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau ynghylch penodi Prif Swyddog. Mae'r darpariaethau yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau pwy sydd i benodi'r Prif Swyddog, y weithdrefn ar gyfer penodiad o'r fath a'r modd y pennir y telerau ac amodau. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r Cyngor allu penodi cyflogeion eraill ag yr ystyria sy'n briodol.
69. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi cynllun yn amlinellu ei drefniadau a'i weithdrefnau ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth, lwfansau a chostau ei gyflogeion (ar wahân i'r Prif Swyddog) ac i wneud trefniadau o'r fath yn unol â'i gynllun cyhoeddedig (y mae'n ofynnol iddo ei adolygu'n rheolaidd).
70. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau i'r Cyngor sefydlu Pwyllgorau i hwyluso'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau ac mae'n cadw darpariaethau ar gyfer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu Pwyllgor a phennu dibenion, aelodaeth a gweithdrefnau'r Pwyllgor hwnnw.
71. Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Archwilio i graffu ar fusnes y Cyngor a chraffu arno. Bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio gyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas ag unrhyw adolygiadau a gynhaliwyd a rhaid iddo anfon copïau o'i holl adroddiadau ac argymhellion at Weinidogion Cymru. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio gynnwys o leiaf dau aelod o'r Cyngor ac o leiaf un person lleyg.
72. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw adroddiadau a chofnodion priodol mewn perthynas â'u cyfrifon ac i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer Gweinidogion Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 31 Awst fan hwyraf wedi diwedd pob blwyddyn ariannol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio'r datganiad o gyfrifon, ei wirio ac adrodd arno.

Atodlen 2 - Cyngor y Gweithlu Addysg

73. Mae Atodlen 2 yn pennu'r pedwar categori o bersonau y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor ac yn rhoi disgrifiad o bob categori:
- Athrawon ysgol;
- Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion;
- Athrawon addysg bellach;
- Gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach.
74. Mae'r Bil yn rhoi pŵer gwneud gorchymyn i Weinidogion Cymru i ychwanegu at gategorïau cofrestru, eu diwygio neu eu dileu, ond mae'r pŵer hwnnw yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad. Bydd hyn yn

sicrhau hyblygrwydd i ddiwallu anghenion cyfnewidiol y gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol. Yn unol â'r atodlen hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau perthnasol cyn gwneud gorchymyn.

Y risgiau/perygion os na chaiff y ddeddfwriaeth ei gwneud

75. Os na chaiff y ddeddfwriaeth ei gwneud, ceir effaith negyddol ar y gweithlu addysg ehangach, a fyddai'n parhau i wynebu gwahaniaethau sylweddol yn y meysydd a ganlyn:

Safonau proffesiynol;

Cymwysterau;

Hyfforddiant cychwynnol;

Rheoli perfformiad;

Datblygiad proffesiynol parhaus.

76. Er mwyn cyflenwi system addysg sy'n perfformio'n dda, rhaid i'r rheini sy'n gweithio ym mhob sector allu manteisio ar gymwysterau, cefnogaeth a datblygiad sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae cofrestru yn darparu ar gyfer seilwaith priodol i gyflenwi gweithlu addysg sy'n perfformio'n dda ac sy'n codi safonau addysgu a dysgu ar draws Cymru.

Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig

77. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau addysg o safon uchel ac i alluogi pob plentyn i gyrraedd eu potensial. Mae bodloni anghenion pob dysgwr a rhoi cymorth effeithiol i'r rhai hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd allweddol o system addysg effeithiol.

78. Mae'r Bil yn ceisio diwygio'r ffordd y mae ysgolion annibynnol yn cofrestru i dderbyn dysgwyr sydd ag AAA i leihau dyblygu a chynyddu'r wybodaeth sydd ar gael am y ddarpariaeth AAA mewn ysgolion annibynnol.

Y trefniadau deddfwriaethol presennol

79. Rhaid i unrhyw sefydliad sydd am weithredu fel ysgol annibynnol wneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 160 o Ddeddf Addysg 2002.
80. Rhaid i ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion â datganiadau AAA gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn gyntaf o dan adran 347 Deddf Addysg 1996.

81. Os yw disgybl sydd â datganiad AAA i gael eu lleoli mewn ysgol annibynnol sydd heb dderbyn cymeradwyaeth o dan a347 gall yr Awdurdod Lleol wneud cais i Weinidogion Cymru am eu cydsyniad i leoli'r disgybl yn yr ysgol a bennwyd.

Cefndir - Cymeradwyaeth Adran 347

82. Cyn i ysgolion annibynnol dderbyn disgyblion â datganiadau AAA mae'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 347 (a347) Deddf Addysg 1996. Er mwyn i blentyn gael ei leoli mewn ysgol annibynnol o dan a347, byddai angen i Weinidogion Cymru fod wedi cymeradwyo un o ddau faen prawf.

Mae'r ysgol wedi ei chymeradwyo i dderbyn disgyblion sydd â datganiadau AAA

Mae dysgwr unigol wedi derbyn cymeradwyaeth benodol i'w leoli yn yr ysgol.

83. Mae'r Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymeradwyo Ysgolion Annibynnol) 1994 yn pennu'r meini prawf y bydd angen i Weinidogion Cymru eu hystyried cyn cymeradwyo ysgol annibynnol. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn 12 cais ar gyfartaledd (o dan a347) am gydsyniadau o'r fath bob blwyddyn.

84. Er mwyn cael cydsyniad i dderbyn disgybl unigol mae'n rhaid i awdurdod lleol ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gan gynnwys copi o ddatganiad plentyn o AAA, ac argymhelliad i'r plentyn gael ei leoli mewn ysgol annibynnol. Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn cyngor gan Estyn bod y lleoliad yn addas. Mae hyn yn sail i benderfyniad Gweinidogion Cymru i gydsynio i'r penderfyniad neu beidio. Bydd y broses hon yn cymryd 6 i 8 wythnos ar gyfartaledd.

85. Os yw ysgol wedi'i chymeradwyo o dan a347 i dderbyn disgyblion sydd â datganiadau AAA, yna mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb gydag Arolygiaeth EM Estyn y byddant yn cynnal ymweliadau monitro blynyddol. Lle y mae cydsyniad unigol o dan a347 wedi'i roi i ganiatáu i ddisgybl gael ei leoli, nid yw'r pwerau presennol yn caniatáu gwneud cais am ymweliad monitro blynyddol.

Cais Adran 160

86. Er mwyn i sefydliad gael statws a gweithredu fel ysgol annibynnol, mae'n rhaid iddo yn gyntaf wneud cais i Weinidogion Cymru o dan a160 Deddf Addysg 2002. Wrth wneud y cais hwn am statws annibynnol mae'n rhaid i ysgol gynnwys gwybodaeth benodol gan gynnwys:

ystod oedran y disgyblion;

uchafswm nifer y disgyblion;

ai ysgol ydyw i ddisgyblion gwryw neu fenyw neu'r ddau;

a yw'r ysgol yn cynnig llety i ddisgyblion.

87. Yn ogystal â'r wybodaeth hon mae'n rhaid i'r ysgol hefyd gynnwys manylion sy'n datgan a yw'n derbyn disgyblion ag AAA, p'un a oes ganddynt ddatganiad neu beidio.
88. Y gofyniad hwn y mae Llywodraeth Cymru yn teimlo sy'n arbennig o bwysig at ddibenion y ddeddfwriaeth hon.

Amcanion

89. Nod polisiau Llywodraeth Cymru yw sicrhau cysondeb o ran dull a monitro, gan gynyddu tryloywder a lleihau biwrocratiaeth.
90. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen gofynion a347 Deddf Addysg 1996 ac a160 Deddf Addysg 2002 mewn perthynas â lleoli disgyblion sydd ag AAA a'i fod yn arwain at anghysondeb mewn perthynas â monitro safonau; mae system cofrestru sengl yn llawer mwy effeithiol.
91. Nod y Bil yw symleiddio'r broses gofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol fel bod un categori o ysgolion o dan un darn o ddeddfwriaeth. At ddibenion y system gofrestru sengl hon mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mai'r system o dan a160 yw'r dewis mwyaf priodol.
92. Felly bydd y Bil yn diddymu a347 o Ddeddf Addysg 1996 ac yn diwygio a160 o Ddeddf Addysg 2002 i newid y ffordd y mae ysgolion annibynnol yn cofrestru i dderbyn dysgwyr sydd ag AAA gan gynnwys y rhai hynny sydd â datganiadau.
93. Mae Llywodraeth Cymru yn ffafrio a160 am y rhesymau canlynol:

Ar hyn o bryd, o dan adran 347 mae'n rhaid i ysgolion annibynnol gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru i dderbyn dysgwyr sydd â datganiadau AAA. Lle nad oes cymeradwyaeth gyffredinol ar gyfer yr ysgol mae'n rhaid cael cymeradwyaeth o'r fath fesul achos. Mae ceisio cydsyniad ar gyfer plentyn arbennig mewn ysgol benodol yn cymryd gormod o amser ac yn fiwrocrataidd. Byddai dileu'r gofyniad hwn yn cyflymu'r broses leoli gan leihau oedi a lleihau y rhwystredigaeth y mae rhieni a dysgwyr yn aml yn ei deimlo wrth geisio dod o hyd i leoliadau.

Mae'r broses gofrestru o dan a160 yn caniatáu i ysgolion annibynnol gofrestru ac i'r broses o gymeradwyo AAA gael ei chyflawni o dan un darn o ddeddfwriaeth.

Bydd pob ysgol sydd wedi cofrestru o dan y broses a160 ddiwygiedig yn dod o fewn cylch gwaith trefniadau monitro Estyn ac yn cael ymweliad monitro blynyddol gan Estyn. Bydd copïau o'r adroddiadau cryno o'r ymweliadau monitro hyn ar gael ar wefan Arolygiaeth EM Estyn er mwyn sicrhau rhagor o dryloywder.

Bydd hefyd yn ofynnol yn y dyfodol i bob ysgol annibynnol sy'n dymuno derbyn dysgwyr sydd â datganiadau AAA nodi'r prif fath o addysg AAA a ddarperir ganddynt.

Bydd gan awdurdodau lleol, dysgwyr a rhieni fynediad i fwy o wybodaeth ar y dewis a'r math o ddarpariaeth i lywio eu penderfyniadau am leoliad y disgyblion sydd ag AAA.

Bydd yn bosibl i awdurdodau lleol benderfynu drostynt eu hunain ar ysgolion unigol heb gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru na gofyn am eu cymeradwyaeth; bydd hyn yn fwy effeithiol ac amserol ar gyfer rhieni ac awdurdodau lleol.

Cyfrifoldeb am asesu yr angen am addysg ôl-16 arbenigol ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, a threfnu'r ddarpariaeth honno

94. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau addysg o safon uchel ac i alluogi pob plentyn i gyrraedd eu potensial. I blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yr hyn sy'n hollbwysig yw dileu'r rhwystrau i gyfranogiad. Mae bodloni anghenion pob dysgwr a rhoi cymorth effeithiol i'r rhai hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd allweddol o system addysg effeithiol.
95. Mae'r Bil yn ceisio gwella'r dull o asesu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr ôl-16. Mae'n ceisio cynorthwyo gyda chynllunio gwell ar gyfer pontio pan fydd dysgwyr yn symud o'r ysgol i addysg bellach, a hwyluso cyswllt gwell rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach a darparwyr arbenigol. Ei brif nod yw creu system lai cymhleth a biwrocrataidd sy'n bodloni ac yn diogelu anghenion dysgwyr yn well a hefyd yn cynnig gwerth am arian.

Y trefniadau deddfwriaethol presennol

96. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyffredinol o dan adrannau 31 a 32 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 i sicrhau darpariaeth iawn (ar gyfer y rhai hynny rhwng 16 ac 19) a chyfleusterau rhesymol (ar gyfer y rhai dros 19) o ran addysg a hyfforddiant i ddysgwyr.
97. Mae Adran 140 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau i asesu pobl ifanc, o dan 19, sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig, ble y maent yn credu eu bod yn debygol o adael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn olaf addysg orfodol i dderbyn addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu addysg uwch. Mae'n

rhaid cynnal yr asesiad yn ystod blwyddyn olaf addysg orfodol a bydd yn pennu anghenion addysgol person a'u hanghenion hyfforddiant a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i fodloni'r anghenion hynny.

98. Mae Adran 140 yn rhoi pŵer hefyd i Weinidogion Cymru drefnu i gynnal asesiad o unrhyw berson o dan 25 oed ble yr ymddengys bod ganddynt anawsterau dysgu o bosib a ble y maent yn derbyn, neu'n debygol o dderbyn, addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu addysg uwch. Bwriad hyn yw gallu gwneud asesiadau ble y mae pobl ifanc sy'n parhau mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 ac sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu ond heb ddatganiad, neu yn datblygu anawsterau dysgu yn fuan cyn neu ar ôl gadael yr ysgol ac felly heb ddatganiad AAA. Mae'r pŵer yn berthnasol i bobl hyd at 25 mlwydd oed fel bod asesiadau yn berthnasol am y cwrs cyfan.
99. Mae Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau o dan Adran 140 drwy drefnu i gwmnïau Gyrfa Cymru gynnal asesiadau drwy gcontract blynyddol.
100. Ar hyn o bryd, mae gan rieni a dysgwyr o dan 16 mlwydd oed sydd â datganiad AAA yr hawl i gymryd rhan mewn proses i ddatrys anghydfod os ydynt yn teimlo nad yw'r datganiad yn adlewyrchu anghenion y dysgwr yn gywir neu nad yw'r union ddarpariaeth yn cael ei chynnig. Nid yw cymryd rhan mewn proses datrys anghydfod yn effeithio ar eu hawl i gyflwyno apêl wedi hynny i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) os nad yw'r broses gychwynnol hon yn arwain at ddatrys y gŵyn.

Y cefndir

101. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried y materion a'r pryderon sy'n gysylltiedig â darparu ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r trefniadau cynllunio ar eu cyfer ar nifer o achlysuron, bob amser yn cyflwyno achos am newid sylweddol. Er enghraifft:

Roedd Rhan 3 Adolygiad Polisi y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o AAA yn ystyried mater pontio, gan lunio adroddiad ym mis Mawrth 2007. Roedd yn tynnu sylw at y pryderon sy'n gysylltiedig â chynllunio pontio, cyfleoedd cyfyngedig a diffyg gwybodaeth am opsiynau a'r angen am well cysylltiad rhwng ysgolion a sefydliadau addysg bellach. Dywedwyd hefyd bod y system yn rhy gymhleth a biwrocraidd ac nad oedd yn canolbwyntio digon ar y dysgwr⁸.

102. Yn 2009 bu'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn ystyried dwy ddeiseb mewn perthynas â myfyrwyr ôl-19 ag anghenion dysgu ychwanegol. Ymysg eu canfyddiadau, roedd datganiad bod corff o dystiolaeth argyhoeddiadol

⁸ Cewch weld yr adroddiad yn: www.assemblywales.org/a418a2221ff4ec27fb94740522d38822.pdf

bod angen i gynllunio pontio ddigwydd yn gynt na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y rhan fwyaf o achosion, ac argymhelliad yn gysylltiedig â'r angen i lunio a chyfathrebu ynghylch penderfyniadau sy'n gysylltiedig â chyllid yn llawer cynt na'r hyn sy'n digwydd yn aml⁹.

103. Ac, yn 2010, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol i ystyried yr opsiynau sy'n gysylltiedig â'r meysydd canlynol:

sefydlu system bontio well ac unedig i ddarpariaeth addysgol mewn ysgol neu addysg bellach ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol dros 16 oed;

sicrhau gwerth am arian gwell wrth wario ar addysg ôl-16 ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn benodol yn erbyn cyd-destun her ariannol y 3 mlynedd nesaf;

rhannu'n ehangach yr arbenigedd sydd eisoes ar gael mewn ysgolion arbennig a cholegau addysg bellach o ran darparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol ôl-16;

defnyddio lleoliadau y tu allan i'r sir a'r wlad;

buddsoddi yn y ddarpariaeth ysgol ac addysg bellach ôl-16 ar gyfer pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

104. Cyrhaeddodd y grŵp gonsensws cyffredinol yn fuan iawn mewn trafodaethau na allai'r system bresennol barhau, ac nad oedd gwahanu'r penderfyniadau cyllido a rheoli yn gynaliadwy. Rhai o'r prif faterion a nodwyd oedd yr angen am gysondeb ledled Cymru o ran y dull o weithio; bod yn glir ar y diffiniadau o angen; sicrhau bod ysgolion a cholegau addysg bellach yn cydweithio ar faterion ôl-16; a sicrhau bod y broses gomisiynu yn sicrhau gwerth am arian. Yn y pen draw roedd neges glir gan y grŵp y gallai'r dysgwr fod ar ei ennill pe byddai'r ddarpariaeth yn cael ei chynllunio'n well, gan gynnwys mwy o opsiynau ar lefel leol. Fodd bynnag, roedd hefyd yn glir mai lleoliadau preswyl arbenigol fyddai yr opsiwn iawn i ychydig o ddysgwyr bob tro¹⁰.

105. Bwriad y Bil hwn yw newid y dull o weithio er mwyn mynd i'r afael â nifer o argymhellion sydd wedi eu pennu gan y grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r adroddiadau Pwyllgor amrywiol o'i flaen.

Yr arfer presennol

106. Ym mlwyddyn academiaidd 2011/12 cynhaliodd Gyrfa Cymru 1398 asesiad o dan y trefniadau deddfwriaethol presennol.

⁹ Cewch weld yr adroddiad yn: www.assemblywales.org/bus-home/bus-third-assembly/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=126916&ds=5/2009

¹⁰ Cewch weld yr adroddiad yn: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/reports/additionallearningreport/?lang=en>

107. O'r rhain daeth 85 o geisiadau unigol i Lywodraeth Cymru am gyllid mewn colegau arbenigol. Nid oedd 70 (82%) o'r ceisiadau hyn yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi penderfyniad o ran cyllid ac roedd yn rhaid gwneud cais am ragor o wybodaeth. Arweiniodd 77% o'r ceisiadau at ddarpariaeth oedd yn cael ei hariannu ar y cyd, gyda Llywodraeth Cymru yn talu elfen addysgol y costau, ac awdurdodau lleol yn talu y costau gofal cymdeithasol a/neu fyrddau iechyd lleol (BILlau) yn talu'r costau'n gysylltiedig â iechyd.
108. Dim ond 59% o geisiadau gafodd eu prosesu mewn da bryd i roi gwybod i'r dysgwr a rhieni am benderfyniad cyn diwedd Gorffennaf ar gyfer dechrau cwrs ym mis Medi. Y rheswm pennaf am hyn oedd yr oedi cyn derbyn yr wybodaeth lawn i seilio penderfyniad arni a/neu yr amser a gymerwyd i drafod gydag awdurdod lleol a/neu BILl.
109. Cafodd 166 arall o'r asesiadau eu defnyddio gan golegau addysg bellach fel tystiolaeth ar gyfer y ceisiadau am gyllid eithriadol i sicrhau darpariaeth addas i fodloni anghenion dysgwr.
110. O'r 1147 sy'n weddill mae'n bosib bod nifer fechan yn gysylltiedig â dysgwyr nad aeth ymlaen â'u haddysg am ryw reswm. Dylai'r mwyafrif o'r asesiadau fodd bynnag fod wedi dilyn dysgwyr i'w darparwr dysgu perthnasol i'w cynorthwyo gyda'r dysgwr. Nid oes angen gwneud cais unigol am gyllid ar gyfer y cymorth i'r dysgwyr hyn ond caiff ei ariannu o brif grant cyllido rheolaidd colegau addysg bellach neu eu cyllid grant atodol. Fodd bynnag, mae'r arfer yn amrywio ac nid yw nifer o golegau addysg bellach yn derbyn nac yn cymryd sylw dyledus o'r asesiadau. Bydd mwyafrif y colegau addysg bellach yn cynnal eu hasesiadau eu hunain ac yn cynnig cymorth yn seiliedig ar dystiolaeth o'r asesiadau hynny.
111. Mae'r arfer presennol a swyddogaeth Gyrfa Cymru fel prif gydlynnydd proses asesu Adran 140 yn broblem mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft:

Nid yw Gyrfa Cymru mewn sefyllfa i feddu ar wybodaeth flaenorol sylweddol o anghenion dysgwyr na'r ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud o dan God Ymarfer AAA i fodloni'r anghenion hynny. Nid yw bob amser yn bosib i gynghorwyr gyrfaedd fynychu adolygiadau AAA ym mlwyddyn 9 i sicrhau bod cynllunio pontio yn dechrau'n gynnar, ac nid yw'n hawdd iddynt gydweithio â cholegau addysg bellach i gynllunio i fodloni anghenion y dyfodol.

Prif swyddogaeth cynghorwyr Gyrfa Cymru yw rhoi cyngor ac arweiniad ar yrfaedd. Mae eu swyddogaeth hwy wrth gynhyrchu asesiadau o dan Adran 140 felly wedi golygu bod yn rhaid iddynt gydlyn cyngor a barn broffesiynol o ffynonellau eraill. Nid ydynt mewn sefyllfa i gymharu yr opsiynau sydd ar gael yn wrthrychol i fodloni anghenion dysgwr. Nid yw ychwaith o fewn eu cylch gwaith i ddechrau trafod gyda cholegau addysg bellach pa ddarpariaeth allai

fod yn bosibl pe byddai'r cymorth ar gael i ddysgwyr neu grŵp o ddysgwyr.

Wrth gyflawni asesiad, ac yn benodol ble y gallai'r asesiad hwnnw arwain at gais unigol am gyllid mewn coleg arbenigol, mae Gyrfa Cymru yn dibynnu llawer ar wybodaeth gan yr awdurdod lleol, addysg a gofal cymdeithasol, BILI neu wasanaethau eraill am anghenion dysgu ychwanegol a'r hyn sydd ei angen i fodloni'r anghenion hynny.

Mae'r ddarpariaeth addas i fodloni anghenion dysgwyr wedi'i phennu yn yr asesiad ac mae'r cais am gyllid yn aml yn adlewyrchu dewis y dysgwyr neu'r rhiant; mae hyn o bosib yn seiliedig ar wybodaeth am bob opsiwn sydd ar gael, ac ystyriaeth lawn ohonynt, neu efallai nad ydyw.

Gan mai'r gofyniad yw asesiad yn y flwyddyn derfynol o addysg orfodol, efallai na fydd dysgwyr sy'n aros ymlaen yn yr ysgol yn derbyn asesiad neu efallai y bydd angen iddynt ddibynnu ar asesiad sy'n cael ei wneud rhywbryd cyn iddynt adael yr ysgol i fynd ymlaen i addysg bellach neu uwch.

112. Nid yw bellach yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i asesu a bodloni anghenion dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol unwaith y maent yn cyrraedd 19, neu'n gadael yr ysgol i fynd i addysg bellach neu uwch. Mae hyn hefyd yn broblem, er enghraifft:

Ychydig o gymhelliad sydd i'r awdurdod lleol gymryd rhan yn y broses o asesu anghenion neu nodi y ddarpariaeth sy'n addas i'w bodloni.

Nid yw'n fanteisiol i'r awdurdod lleol gydweithio â'r colegau addysg bellach i gynllunio ymlaen ac i ystyried ffyrdd o ehangu gallu addysg bellach i fodloni anghenion mwy o ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn bennaf gan mai Llywodraeth Cymru sy'n talu am y ddarpariaeth sy'n addas i fodloni'r anghenion hynny.

113. Mae gwahanu y penderfyniadau am gyllido a rheoli yn golygu bod perygl i benderfyniadau am y ddarpariaeth ac am gyllido fod yn seiliedig ar dystiolaeth anghyflawn neu anaddas. Gallai hyn arwain at oedi sylweddol, ac at benderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth wael ac nid yw'n rhoi sicrwydd o werth am arian. Hefyd, mae'r broses bresennol yn tanseilio ymdrechion i gynllunio yn effeithiol ac yn gynnar ac i ehangu'r ddarpariaeth leol sy'n addas i fodloni anghenion y dysgwyr.

Pan aiff pethau o chwith

114. Mae gan ddisgyblion sy'n aros yn yr ysgol neu eu rhieni yr hawl i apelio i TAAAC pan fyddant yn ystyried y dylid bod wedi cynnal asesiad o dan God Ymarfer AAA, ac nad yw hynny wedi digwydd, neu pan nad yw datganiad yn adlewyrchu anghenion y dysgwyr yn ddigonol a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i fodloni'r anghenion hynny.

115. Nid oes hawl apelio gymharol ar gyfer yr asesiadau hynny sy'n cael eu gwneud o dan Adran 140. Dim ond drwy wneud cais am Adolygiad Barnwrol y mae modd trafod unrhyw gwynion, sydd yn golygu bod y broses yn un gyfyngedig, gan mai dim ond cyfreithlondeb penderfyniad fyddai'n cael ei drafod. Mae hefyd yn ddud ac nid yw'n hawdd i ddysgwyr ddefnyddio'r broses.
116. Felly, ar hyn o bryd, mae gan ddysgwr dros oedran addysg orfodol fwy o hawliau os ydynt yn aros yn yr ysgol yn hytrach na gadael a pharhau eu haddysg mewn coleg addysg bellach. Gallai hyn gymhell dysgwr i beidio â gadael yr ysgol, pan fo'n bosibl y byddai ei anghenion yn cael eu bodloni'n well y tu allan i'r ysgol.
117. Yn 2012, o'r 85 o geisiadau unigol am gyllid, bu i ddau ymgeisydd gysylltu â chyfreithwyr a nododd eu bod yn paratoi ar gyfer Adolygiad Barnwrol. Fodd bynnag, cafodd y ddau fater eu datrys ac unrhyw gamau gweithredu eu hosgoi. Bu i un ymgeisydd arall gyflwyno cais ffurfiol am adolygiad barnwrol. Roedd Gyrfa Cymru hefyd dan fygythiad o fod yn destun Adolygiad Barnwrol.

Amcanion

118. Nod polisïau Llywodraeth Cymru yw cael system lai cymhleth sy'n bodloni ac yn diogelu anghenion dysgwyr ôl-16 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn well, tra hefyd yn cynnig gwerth am arian gwell.
119. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i'r cynllunio ar gyfer pontio o'r ysgol ddechrau yn gynt a chael ei wneud gan y rhai hynny sydd eisoes yn gwybod am yr heriau y mae'r dysgwr yn eu hwynebu, ac yn eu deall. Mae felly'n well i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am asesu anghenion dysgwyr a nodi'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w bodloni weithio gyda darparwyr lleol, colegau addysg bellach a darparwyr arbenigol, i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer anghenion y dyfodol a datblygu'r ddarpariaeth leol yn unol â'r angen yn y dyfodol. Bydd y cydweithio lleol hwn, gan ystyried yn ofalus bob opsiwn sydd ar gael i fodloni anghenion dysgwyr, a datrys problem cyllido a rheoli ar wahân, gyda'i gilydd, yn sicrhau gwerth am arian heb gael effaith negyddol ar ddysgwyr.
120. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng yr ymgais i reoli'n lleol, gwerth am arian, buddiannau'r cyhoedd a'r angen i ddiogelu dysgwyr. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer yr hawl i apelio fydd yn diogelu dysgwyr ac yn cynorthwyo i sicrhau cysondeb y gwasanaethau.
121. Mae'r newidiadau o ganlyniad i'r Bil yn cynnwys:

Bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion dysgwyr sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig, yn eu blwyddyn olaf o addysg orfodol neu dros oedran addysg orfodol, ac yna mae

disgwyl iddynt adael yr ysgol i dderbyn addysg a hyfforddiant ôl-16 yn ystod neu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd gyfredol.

Bydd gan awdurdodau lleol y pŵer i asesu anghenion dysgwyr sy'n byw yn eu hardal sydd ag anabledd dysgu (ond nid o angenrheidrwydd ddatganiad anghenion addysgol arbennig), sydd o dan 25 oed, yr ymddengys bod ganddynt anawsterau dysgu ac sy'n dymuno derbyn addysg a hyfforddiant ôl-16.

Bydd yr asesiad yn arwain at adroddiad sy'n rhoi amlinelliad o anghenion addysg a hyfforddiant y dysgwr, yr addysg neu'r hyfforddiant ôl-16 sydd ei angen i fodloni'r anghenion hynny a'r ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â'r addysg a'r hyfforddiant hwnnw, sydd ei angen i fodloni anghenion addysg a hyfforddiant y dysgwr.

Pan fydd yr adroddiad yn nodi bod anghenion dysgwr i gael eu bodloni drwy ddarparwr addysg bellach arbenigol, neu ble y mae angen llety preswyl ar ddysgwr i gael yr addysg dan sylw, yna yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am sicrhau'r ddarpariaeth honno.

Bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau bod gwasanaethau datrys anghydfod ar gael.

Ble na fydd achos o geisio datrys anghydfod wedi arwain at ganlyniad boddhaol neu pan na fydd dysgwr am ddefnyddio'r gwasanaeth datrys anghydfod, yna bydd hawl newydd i apelio i TAAAC. Yn dilyn gwrandawriad bydd yn bosibl i TAAAC orchymyn i awdurdod lleol wneud asesiad; diwygio adroddiad yr asesiad; neu wneud trefniadau i gynnal asesiad arall.

Bydd yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cod ymarfer fydd yn rhaid i awdurdodau lleol ei ystyried yn eu hasesiad o anghenion dysgwyr ac wrth sicrhau addysg a hyfforddiant ôl-16 ar gyfer y rhai hynny sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau.

122. Ni fydd awdurdod lleol yn gyfrifol am sicrhau darpariaeth ble y mae'r adroddiad sy'n dilyn yr asesiad yn penderfynu y gallai anghenion addysg a hyfforddiant dysgwr gael eu bodloni mewn coleg addysg bellach, gan gynnwys achosion ble y mae angen cymorth ychwanegol neu arbenigol i fodloni eu hanghenion addysg a hyfforddiant. Bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd o hyd i sicrhau cyfleusterau cywir a rhesymol ar gyfer addysg a hyfforddiant i ddysgwyr, gan ystyried anghenion dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu.
123. Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i ariannu colegau addysg bellach i'w cynorthwyo i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â sicrhau mynediad i ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau.

Y risgiau/peryglon os na chaiff y ddeddfwriaeth ei gwneud

124. Os na chaiff y ddeddfwriaeth ei gwneud, yna byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru chwilio am ffyrdd eraill o wella'r broses a'r trefniadau presennol, ond ni fyddai'n bosib iddi ddatrys y mater sylfaenol o wahanu'r broses o reoli a sicrhau'r ddarpariaeth addysgol a hyfforddiant.
125. Byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru chwilio am ffyrdd eraill o sicrhau bod y pontio yn cael ei reoli'n dda ar gyfer dysgwyr a bod y ddarpariaeth leol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei hehangu a'i chynllunio'n dda.
126. Byddai'r broses yn parhau i fod yn gymhleth ac yn fiwrocrataidd a byddai'r penderfyniadau ar geisiadau cyllido yn parhau i gael eu gwneud yn hwyr iawn. Byddai risg barhaus hefyd o oedi gyda phenderfyniadau oherwydd nad oedd digon o dystiolaeth ar gael. Ni fyddai hyn yn sicrhau gwerth am arian.
127. Heb ddeddfwriaeth, byddai dysgwyr sy'n gadael yr ysgol cyn eu bod yn 19 yn parhau i fod â llai o hawliau na'u cymheiriaid fyddai'n aros yn yr ysgol. Hefyd, mae'n bosibl y byddai awdurdodau lleol yn cael eu hunain yn wynebu ceisiadau am Adolygiad Barnwrol yn absenoldeb gwasanaethau datrys anghydfodau, a hawl i apelio. Byddai'r hawl i apelio ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol hefyd o gymorth i sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau lleol.

Sut y bydd y ddeddfwriaeth yn gwella'r broses

128. Ni fydd rheoli'r broses asesu a sicrhau'r ddarpariaeth bellach yn cael eu gwahanu ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd â'r anghenion mwyaf difrifol a chymhleth. Mae'r awdurdod lleol ar hyn o bryd yn rheoli'r broses o asesu ac o ddarparu cymorth i ddisgyblion o dan God Ymarfer AAA yng Nghymru. O dan y trefniadau newydd, bydd gan awdurdodau lleol swyddogaethau i asesu anghenion dysgwyr fydd yn parhau ar ôl diwedd oedran addysg orfodol neu 19 oed. Bydd y parhad hwn yn golygu cynllunio pontio gwell gan y gallai'r rhai sydd eisoes yn gyfarwydd â'r dysgwyr a'u hanghenion gynorthwyo gydag asesu'r anghenion a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i'w bodloni.
129. Mae'r awdurdod lleol mewn sefyllfa well i sicrhau gweithio ar y cyd rhwng timau addysg a thimau gofal cymdeithasol a bydd ganddynt gysylltiadau mwy clos â byrddau iechyd lleol a darparwyr gofal a chymorth lleol eraill.
130. Gan y bydd yr awdurdod lleol ar y cyfan yn gwybod am fodolaeth dysgwyr o oedran ifanc, byddant mewn sefyllfa dda i gydweithio gyda darparwyr lleol i fapio anghenion y dyfodol ac i sicrhau y gall y gwasanaethau newid i fodloni'r galw yn y dyfodol.
131. Bydd yr hawl newydd i apelio i TAAAC yn llawer mwy effeithiol i ddiogelu hawliau dysgwyr na'r Adolygiad Barnwrol. Golyga hyn y bydd hawliau dysgwyr rhwng 16 a 25 oed yn debycach i hawliau dysgwyr ifanc ac yn

dileu'r anghydraddoldeb presennol i rai dysgwyr, gan ddibynnu ble y maent yn derbyn eu haddysg.

132. Bydd y ffaith fod y broses ar gyfer dysgwyr ôl-16 a disgyblion mewn ysgolion yn debycach yn paratōi'r ffordd ar gyfer newidiadau ehangach i ddeddfwriaeth anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, ac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar y person i fodloni anghenion y dysgwyr hynny.

Dyddiadau tymhorau ysgolion

133. Mae dyddiadau tymhorau ysgolion, ac felly gwyliau ysgolion, yn amrywio ledled Cymru. Mae'r gwahaniaethau hyn mewn dyddiadau'n golygu'n aml fod yn rhaid i rai teuluoedd dalu costau gofal plant ychwanegol os bydd plant o'r un teulu yn mynd i ysgolion gwahanol sydd â gwyliau gwahanol (ee plentyn iau yn mynd i ysgol fabanod wirfoddol a reolir, a phlentyn hŷn yn mynd i ysgol ffydd wirfoddol a gynorthwyir). Yn yr un modd, weithiau bydd teuluoedd, lle mae'r rhieni'n gweithio mewn ysgolion sydd â gwyliau gwahanol i wyliau'r ysgolion a fynychir gan eu plant, hefyd yn wynebu costau ychwanegol ar gyfer gofal plant. Bydd y newidiadau i'r broses o bennu dyddiadau tymhorau yn sicrhau bod cysondeb o ran dyddiadau tymhorau'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru, gan sicrhau arbedion i deuluoedd a fyddai fel arall yn gorfod talu costau ychwanegol ar gyfer gofal plant.

Y trefniadau deddfwriaethol presennol

- 134 Ar hyn o bryd, yr awdurdod lleol sy'n pennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ac ysgolion meithrin; a'r cyrff llywodraethu sy'n gwneud hynny ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Mae hyn o ganlyniad i ddarpariaethau adran 32 o Ddeddf Addysg 2002.

135. Nid yw'r gyfraith bresennol:

yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol, ar gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydweithio i gysoni dyddiadau tymhorau ledled Cymru; nac

yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd a chadw trefn ar y broses o bennu dyddiadau tymhorau.

136. Yn ddiweddar gwelwyd cryn gynnydd yn yr ohebiaeth sy'n cyrraedd Llywodraeth Cymru ynghylch y ffaith bod awdurdodau lleol yn pennu gwahanol ddyddiadau tymhorau, a'r problemau y mae'r gwahaniaethau hynny wastad yn eu hachosi i deuluoedd, gan gynnwys bod teuluoedd yn gorfod talu costau gofal plant ychwanegol. Hefyd, mae'r ohebiaeth sydd wedi dod i law Llywodraeth Cymru yn dangos nad yw anghysondebau o ran dyddiadau tymhorau yn gyfyngedig i'r gwahaniaethau sy'n digwydd ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Ambell waith, mae problem hefyd

gyda dyddiadau tymhorau sy'n cael eu pennu gan gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig, a all fod yn wahanol o gwmpas adegau gwyliau crefyddol megis y Pasg. Er enghraifft, bydd ysgolion ffydd fel arfer ar agor yn ystod Wythnos y Pasg a byddant yn cymryd Dydd Gwener y Groglith a'r bythefnos ganlynol i ffwrdd fel gwyliau.

137. Bydd rhai awdurdodau lleol yn pennu'r un dyddiadau tymhorau â'r ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyr ar gyfer eu hysgolion cymunedol a'u hysgolion gwirfoddol a reolir, fel na fydd rhieni'n wynebu anawsterau o ran gofal plant. Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol eraill yn dewis cael Wythnos y Pasg yn ei chyfanrwydd a'r wythnos ganlynol fel gwyliau'r Pasg. Os bydd rhieni'n gweithio mewn ysgolion cymunedol neu ysgolion gwirfoddol a reolir yn ardaloedd yr awdurdodau lleol hyn, ond bod eu plant yn mynd i ysgol wirfoddol a gynorthwyr neu i ysgol sefydledig (neu fel arall), yna gallai dyddiadau gwyliau'r Pasg achosi anawsterau gofal plant i deuluoedd.
138. Yn y gorffennol, bu nifer o ymdrechion i berswadio awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd i sicrhau cysondeb o ran dyddiadau tymhorau ysgolion. Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eu herio, mae awdurdodau lleol wedi methu â chytuno ar ddyddiadau tymhorau.
139. Rhagwelir y bydd newid y drefn fel bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn pedwar 'consortïwm' rhanbarthol yn helpu i leddfu rhywfaint ar broblem yr amrywiadau mewn dyddiadau tymhorau. Ond serch hynny, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd hynny'n digwydd, a chan fod dyddiadau tymhorau a gwyliau'n cael eu pennu hyd at bum mlynedd ymlaen llaw, mae'n bosibl na fydd cytundeb am beth amser ynghylch cysoni dyddiadau. Ar ben hynny, er y gallai gweithio mewn consortia helpu i gysoni dyddiadau tymhorau yn ardal y consortïwm ei hunan, nid oes sicrwydd y byddai dyddiadau tymhorau'n cael eu cysoni rhwng ardaloedd y gwahanol gonsortia.
140. Hyd yn oed pe bai awdurdodau lleol yn digwydd cytuno ar ddyddiadau tymhorau, gallai cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig barhau i ddewis pennu dyddiadau gwahanol i rai'r awdurdod lleol. Byddai hynny'n golygu na fyddai dyddiadau tymhorau yng Nghymru yn cael eu cysoni'n llwyr, a gallai rhai teuluoedd, sydd â phlant mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr neu ysgolion sefydledig, barhau i wynebu anawsterau gofal plant.
141. Felly, ar hyn o bryd, nid oes modd gwneud yn siŵr bod dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu cysoni ledled Cymru. Nod y Bil yw sicrhau ei bod yn bosibl cysoni dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, fel nad yw amrywiadau ond yn digwydd yn achlysurol iawn a dim ond lle gellir eu llwyr gyfiawnhau. Os na chyflwynir y math hwn o ddeddfwriaeth, rydym o'r farn na fydd yn bosibl sicrhau cysondeb o ran dyddiadau tymhorau, ac y bydd llawer o deuluoedd yn parhau i ddioddef

o ganlyniad i'r ffaith y bydd angen dod o hyd i ofal plant ychwanegol a thalu amdano.

142. Y ffordd orau o gysoni dyddiadau tymhorau yw bod y cyrff sy'n gyfrifol am bennu'r dyddiadau hynny yn cydweithio er mwyn dod i gytundeb ymhlith ei gilydd. Felly, bydd y Bil yn cadw pethau fel y maent, sef mai'r awdurdod lleol sy'n pennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion meithrin, ac mai'r cyrff llywodraethu sy'n gwneud hynny ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig.

143. Fodd bynnag, mae'r Bil yn mynd ymhellach drwy roi cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol, ac ar gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yng Nghymru, i gydweithio ac i gydgyssylltu â'i gilydd er mwyn sicrhau cysondeb o ran dyddiadau tymhorau. Bydd yn ofynnol i'r cyrff hyn gymryd pob cam rhesymol i gytuno ar ddyddiadau, er mwyn sicrhau cysondeb o ran dyddiadau tymhorau ym mhob blwyddyn ysgol.

144. Bydd hyn yn gweithio:

trwy roi cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol i gydweithio ac i gydgyssylltu er mwyn cytuno ar ddyddiadau tymhorau â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru; a

thrwy roi cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol, ac ar gyrff llywodraethu pob ysgol sefydledig ac ysgol wirfoddol a gynorthwyir o fewn ardal yr awdurdod lleol, i gydweithio a chydgyssylltu er mwyn dod i gytundeb ar ddyddiadau tymhorau.

145. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd achosion pan na all awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu ysgolion perthnasol gyrraedd consensws ynghylch dyddiadau tymhorau er gwaethaf pob ymdrech ar eu rhan nhw i wneud hynny. O'r herwydd, bydd y Bil yn rhoi pŵer disgresiwn i Weinidogion Cymru i ganiatáu iddynt gyfarwyddo awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol o ran pennu dyddiadau tymhorau ysgol. Bydd y pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau trwy ganiatáu iddynt ddweud wrth awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig pa ddyddiadau y dylid eu pennu, os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen gwneud hynny.

146. Ni fydd y pŵer a roddir i Weinidogion Cymru i allu cyfarwyddo awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol yn bŵer sydd wedi ei gyfyngu i achosion lle nad yw'r awdurdodau a'r cyrff llywodraethu wedi dod i gytundeb ynghylch cysoni dyddiadau. Caiff y Gweinidogion ddefnyddio'u pŵer hyd yn oed mewn achosion lle bydd yr ymdrechion i gysoni dyddiadau tymhorau wedi llwyddo. Gallai Gweinidogion Cymru gael rheswm i gredu bod angen newid y dyddiadau y mae'r awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu wedi cytuno arnynt, er enghraifft er mwyn

gwneud yn siŵr bod tymhorau ysgol mor gyfartal â phosibl o ran eu hyd. Weithiau, er enghraifft, bydd y Pasg yn eithriadol o gynnar, ac efallai y bydd yn well gan Weinidogion Cymru wedyn i wyliau'r Pasg fod yn ystod y pythefnos ar ôl Dydd Gwener y Groglith, er mwyn osgoi tymor hir iawn yn yr haf.

147. Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau i gyfarwyddo bod dyddiadau tymhorau gwahanol yn cael eu pennu ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion neu wahanol ardaloedd awdurdodau lleol (neu rannau o ardal awdurdod lleol). Gallai fod rheswm da ambell waith dros amrywio dyddiadau tymhorau mewn blwyddyn benodol. Er enghraifft, gallai digwyddiad fel Cwpan Ryder olygu y byddai'n gwneud mwy o synnwyr pennu gwyliau gwahanol ar gyfer ysgolion yr ardal.
148. Felly, bydd pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol ynghylch pennu dyddiadau tymhorau, fel a ganlyn:

ni fydd wedi ei gyfyngu i achosion lle nad yw awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu'n gallu cytuno ar ddyddiadau tymhorau; a

bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau i gyfarwyddo bod dyddiadau tymhorau gwahanol yn cael eu pennu ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion neu wahanol ardaloedd awdurdodau lleol (neu rannau o ardal awdurdod lleol).

149. Er mwyn i Weinidogion Cymru fod mewn sefyllfa i ddechrau ystyried a ddylent ddefnyddio eu pwerau disgresiwn i roi cyfarwyddyd ynghylch dyddiadau tymhorau, rhaid i awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol roi gwybod iddynt mewn da bryd am y dyddiadau y mae'r cyrff hyn wedi cytuno arnynt ymysg ei gilydd. Mae'n dilyn wedyn y byddai'n ddefnyddiol hefyd pe bai Gweinidogion Cymru yn cael eu hysbysu am y dyddiadau tymhorau sydd wedi eu pennu gan awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol, hyd yn oed os bydd y cyrff hynny wedi methu â chytuno ar ddyddiadau â holl awdurdodau lleol eraill Cymru a'r holl gyrff llywodraethu perthnasol o fewn ardal yr awdurdod lleol.
150. Credir mai effaith y ddeddfwriaeth hon fydd cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion ledled Cymru, ac mai prin fydd unrhyw amrywiadau, ac na fydd y rheini ond yn digwydd lle mae'n bosibl eu llwyr gyfiawnhau. Dylai hyn ddod ag arbedion i deuluoedd sydd wedi gorfod talu costau gofal plant ychwanegol mewn achosion lle mae plant o'r un teulu'n mynd i ysgolion gwahanol sydd â gwyliau gwahanol (ee plentyn iau mewn ysgol fabanod wirfoddol a reolir, a phlentyn hŷn mewn ysgol uwchradd ffydd wirfoddol a gynorthwyr).
151. Yn yr un modd, dylai ddod ag arbedion hefyd i deuluoedd lle mae'r rhieni'n gweithio mewn ysgolion sydd â gwyliau gwahanol i wyliau'r ysgolion a fynychir gan eu plant. Os na chyflwynir y ddeddfwriaeth hon, bydd awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu ysgol perthnasol yn parhau i

bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer eu hysgolion heb fod unrhyw fecanwaith cyfreithiol yn ei le i gysoni'r dyddiadau hynny.

152. Oni bai bod cyfrifoldeb ar y cyrff hyn i gydweithio i sicrhau cysondeb o ran dyddiadau tymhorau ysgolion, a bod hynny ochr yn ochr â'r ffaith bod gan Weinidogion Cymru bŵer disgresiwn i ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau, ni fydd yn bosibl sicrhau cysondeb.
153. Yn ei dro, parhau wedyn fyddai'r anawsterau sy'n wynebu llawer o deuluoedd sy'n gweithio, wrth iddynt geisio cael hyd i ofal plant ychwanegol priodol a thalu amdano. Yn ogystal â'r uchod, manteisiwyd ar y cyfle hwn i gydgrynhoi'r darpariaethau presennol ar gyfer amseroedd sesiynau ysgol, fel y'u ceir yn adran 32 o Ddeddf Addysg 2002.

Penodi a chael gwared ar Brif Arolygydd EM ac Arolygwyr EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2005

154. Caiff Prif Arolygydd Ei Mawrhydi ac Arolygwyr Ei Mawrhydi dros addysg a hyfforddiant eu penodi ar hyn o bryd gan Ei Mawrhydi drwy Orchymyn y Cyfrin Gyngor ar argymhelliad yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi derbyn cyngor gan Weinidogion Cymru. Yn ymarferol, y Prif Weinidog sy'n arfer swyddogaeth gynghorol Gweinidogion Cymru.
155. Ym mis Gorffennaf 2012 cytunodd Arglwydd Lywydd y Cyfrin Gyngor (hefyd y Dirprwy Brif Weinidog) ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru y dylai'r cyfrifoldeb am gynghori Ei Mawrhydi ar swyddogaethau y Cyfrin Gyngor a oedd yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol gael ei roi i'r Prif Weinidog.
156. Mewn Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig ar 15 Hydref 2012, cadarnhaodd Arglwydd Lywydd y Cyfrin Gyngor y cytundeb y byddai'r Prif Weinidog yn cynghori Ei Mawrhydi ar ei swyddogaethau sydd o fewn meysydd o gymhwysedd datganoledig. Mae'r cytundeb yn cynnwys penodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi; penodi Arolygydd Ei Mawrhydi; a chael gwared ar Brif Arolygydd Ei Mawrhydi o'i swydd oherwydd analluogrwydd neu gamymddwyn o dan adran 19(6) Deddf Addysg 2005 ("Deddf 2005").
157. Ar 16 Hydref 2012, ysgrifennodd Arglwydd Lywydd y Cyfrin Gyngor at y Prif Weinidog yn cadarnhau y byddai'r Prif Weinidog yn cynghori Ei Mawrhydi ar faterion sy'n ymwneud â'r Cyfrin Gyngor sydd wedi'u datganoli i Gymru, cyn belled â bod deiliad y swydd honno yn aelod o'r Cyfrin Gyngor.
158. Bydd gweithredu'r cytundeb, cyn belled ag y bo'n berthnasol i Brif Arolygydd Ei Mawrhydi ac Arolygydd Ei Mawrhydi, yn galw am ddiddymu adran 19(6) Deddf 2005 i gael gwared ar yr Ysgrifennydd Gwladol o'r broses yng Nghymru. Mae Bil Addysg (Cymru) yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r diddymu hwn.

Rhychwant tiriogaethol

159. Mae'r Bil hwn yn berthnasol i Gymru.

4. Ymgynghori

160. Yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011, ymrwymodd y Prif Weinidog i ymgynghori'n briodol â phartneriaid wrth ddatblygu deddfwriaeth a chael trafodaethau ystyrlon â'r partneriaid hynny. Yn unol â'r datganiad hwnnw mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi ymgynghori ar y cynigion sydd yn y Bil a hynny fesul un.

Cyngor y Gweithlu Addysg

161. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi cyhoeddi dau ymgynghoriad i helpu i lunio manylion y cynigion hyn. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cyntaf ym mis Rhagfyr 2011 am gyfnod o ddeuddeng wythnos. Roedd yr ymgynghoriad yn nodi cynigion mewn perthynas â dyfodol y Cyngor Addysgu Cyffredinol ac yn gwahodd sylwadau ar y cynnig i ehangu'r gofyniad presennol i athrawon gofrestru â chorff proffesiynol, i ymdrin â sector ehangach a fydd yn cynnwys athrawon Addysg Bellach a staff cymorth dysgu; staff dysgu seiliedig ar waith; athrawon heb gymhwyso, gweithwyr ieuenctid a staff cymorth dysgu mewn ysgolion.
162. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar draws nifer o sectorau allweddol gan ddefnyddio ystod o rwydweithiau a chafodd ei gyhoeddi yng nghylchlythyrau Dysg. Hefyd, cynhaliodd rhai o'r rhanddeiliaid allweddol ddigwyddiadau i drafod eu hymatebion ar y cyd i'r ymgynghoriad. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Mawrth 2012. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2012.
163. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori a'r ymateb yn:
<http://wales.gov.uk/consultations/education/regededucationworkforce/?status=closed&lang=cy>
164. Cafwyd 94 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Yn eu plith cafwyd ymateb gan Estyn, y Cyngor Addysgu Cyffredinol, Llywodraethwyr Cymru, CCAUC a Chymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod pawb yn gyffredinol gytûn ar y cynigion i gofrestru'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru ac ar swyddogaethau Cyngor y Gweithlu Addysg.
165. Roedd yr ymgynghoriad gwreiddiol yn gofyn am farn ar egwyddorion cyffredinol y corff arfaethedig. Roedd llawer o faterion oedd yn ymwneud ag agweddau manylach ar y cynigion ac y gofynnwyd amdanynt gan y rhai a ymatebodd yn parhau heb gael eu hateb. Felly cyhoeddwyd ymgynghoriad pellach i fynd i'r afael â'r materion hyn. Bu'r ail ymgynghoriad yn ymgynghoriad manylach oedd yn ymwneud â swyddogaethau'r corff cofrestru a'r ffordd yr oedd i weithredu. Roedd yr ymgynghoriad hwn wedi para am gyfnod o chwe wythnos o 10 Medi 2012 i 19 Hydref 2012.

166. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2012. Gellir gweld yr ymateb yn:

<http://wales.gov.uk/consultations/education/workforceregistration/?status=closed&lang=cy>

167. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar y meysydd canlynol mewn perthynas â'r cynigion:

y proffesiynau y bydd gofyn iddynt gofrestru;
datblygu cod ymddygiad cyffredin ar gyfer y proffesiynau a nodir;
sut y bydd y corff cofrestru'n gweithredu gan gynnwys ei reolaeth, ei weithgorau a'i brosesau disgyblu;
sut y bydd data yn cael ei gasglu; y bwriad i rannu data'n ddienw gyda chyflogwyr er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o gynllunio'r gweithlu;
swyddogaeth y corff o ran sicrhau bod hyfforddiant cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus o'r ansawdd gorau; ac
ystod awgrymedig o ffioedd blynyddol y bydd angen i unigolion eu talu.

168. Eto, cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn ar draws nifer o sectorau allweddol gan ddefnyddio ystod o rwydweithiau a chafodd ei gyhoeddi yng nghylchlythyrau Dysg. Hefyd, cynhaliodd rhai o'r rhanddeiliaid allweddol ddigwyddiadau i drafod eu hymatebion ar y cyd i'r ymgynghoriad. Cafwyd 47 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad.

169. Drwyddi draw, roedd yr ymatebion yn gefnogol i'r cynigion. Ers hynny, er mwyn sicrhau bod yr hyn a gynigir yn eglur ac yn ddealladwy, mae swyddogion wedi bod yn dal i drafod â'r rhanddeiliaid mewnol priodol a'r rhanddeiliaid allanol priodol gan gynnwys undebau; y Cyngor Addysgu Cyffredinol; Colegau Cymru a CLILC i enwi ond ychydig.

170. Yn unol â'r gofynion a roddwyd ar Weinidogion Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, dosbarthwyd fersiwn o'r ymgynghoriad sy'n benodol i blant/pobl ifanc mewn grwpiau ffocws ledled Cymru gydol mis Mawrth 2013. Roedd y digwyddiad cyntaf yn rhan o agenda preswyl Fforwm Ieuenctid Powys yn y Canolbarth. Yn y Fforwm roedd aelodau oedd yn cynrychioli grwpiau gwahanol o bobl ifanc. Cynhaliwyd y digwyddiadau eraill mewn ysgolion uwchradd yn Nhrefynwy, Aberhonddu, Conwy a Wrecsam.

171. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion amrywiol mewn perthynas â ffioedd cofrestru. Rhoddir ystyriaeth i'r sylwadau hyn am y

yn llunio rhan o'r ystyriaeth am ffioedd sy'n daladwy yn y rheoliadau Bydd ymgynghoriad pellach ar y rheoliadau hyn yn cael ei gynnal ddechrau 2014.

172. Roedd y rhestr o bobl yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y ddau ymgynghoriad yn cynnwys yr holl gyrff sy'n ymwneud â'r byd addysg, gan gynnwys asiantaethau cyflogi, awdurdodau lleol, gweithwyr ieuenctid a gweithwyr chwarae, darparwyr hyfforddiant addysg a chyrrff dyfarnu.

Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig

173. Cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau ei ymgynghoriad o'r enw '*Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo Ysgolion Annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig*' ar 20 Medi 2012. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o chwe wythnos. Daeth i ben ar 1 Tachwedd 2012, a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Mehefin 2013.

174. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori a'r ymateb yn:

<http://wales.gov.uk/consultations/education/senframeworkconsultation/;jsessionid=6543F8E57153111112D294B449226E6C?status=closed&lang=CY>

175. Yn unol â'r gofynion a roddwyd ar Weinidogion Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn i bobl ifanc.

176. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar y cynnig i ddiddymu adran 347, gyda golwg ar y darpariaethau presennol o dan adran 160, ac ar y mesurau arfaethedig sydd i'w creu i ategu'r newid deddfwriaethol hwn.

177. Roedd y mwyafrif o'r rhai a atebodd y chwe chwestiwn yn cytuno â'r cynigion.

Rhoi'r cyfrifoldeb am asesu'r angen am addysg ôl-16 i ddysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anabledau dysgu, a threfnu'r ddarpariaeth honno, i awdurdodau lleol

178. Cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau ei ymgynghoriad o'r enw '*Ymlaen mewn partneriaeth dros blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol: Cynigion ar gyfer diwygio'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghenion addysgol arbennig*' ar 26 Mehefin 2012.

179. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori a'r ymateb yn:

180. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig ystod eang o ddiwygiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd Pennod 10 yn amlinellu cynigion mewn perthynas ag addysg ôl-16 ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.
181. Yn ystod y cyfnod ymgynghori trefnodd Llywodraeth Cymru dri digwyddiad ymgynghori ledled Cymru, dau yng Nghaerdydd, ac un yn Llandudno. Daeth dros 300 o bobl i'r cyfarfodydd hyn. Yn ychwanegol at hyn, cynhaliodd SNAP Cymru a Plant yng Nghymru ddigwyddiadau oedd yn canolbwyntio ar y teulu ledled Cymru gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd ehangach i gael eu barn ar y cynigion.
182. Yn unol â'r gofynion a roddwyd ar Weinidogion Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn o'r ymgynghoriad ehangach i bobl ifanc hefyd.
183. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol ar sbectwm eang ond hefyd, roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am ymatebion oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r newidiadau a gynigir mewn perthynas â lleoliadau arbenigol ôl-16. Cafwyd 206 o ymatebion i'r ymgynghoriad.
184. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynodedb o'r ymatebion ym mis Mehefin 2013. Cafwyd ymatebion gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd, athrawon a darlithwyr, gweithwyr meddygol proffesiynol, colegau Addysg Bellach, Gyrfa Cymru, cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol ac aelodau o'r cyhoedd.
185. Roedd hanner y rhai ymatebodd o'r farn y dylai'r cyfrifoldeb o asesu'r angen am addysg ôl-16 i ddysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, a threfnu'r ddarpariaeth honno, gael ei drosglwyddo i'r awdurdodau lleol. Roedd cyfran fach yn anghytuno a thros draean o'r ymatebion heb farn ar hyn.
186. Roedd mwyafrif y pryderon yn ymwneud â faint o gyllid fydd yn cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol i gefnogi eu swyddogaethau newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar ddull i drafod trosglwyddiadau i'r Grant Cynnal Refeniw drwy'r Is-grŵp Dosbarthu. Gofynnir i'r grŵp hwn ystyried trosglwyddo cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw mewn perthynas â'r trefniadau newydd hyn cyn eu rhoi ar waith.

Dyddiadau tymhorau ysgolion

187. Ar 3 Medi 2012, cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu

pennu ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o ddeuddeng wythnos oedd yn dod i ben ar 26 Tachwedd 2012. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar 16 Ebrill 2013.

188. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori a'r ymateb yn:
<http://wales.gov.uk/consultations/education/schooltermdates/?status=closed&lang=cy>
189. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar draws nifer o sectorau allweddol gan ddefnyddio ystod o rwydweithiau a chafodd ei gyhoeddi yng nghylchlythyrau Dysg. Yn unol â'r gofynion a roddwyd ar Weinidogion Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn o'r ymgynghoriad i blant a phobl ifanc hefyd.
190. Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau ar y newidiadau a gynigwyd i'r ffordd y mae dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu pennu yng Nghymru a ph'un a yw cynigion o'r fath yn mynd i gael effaith yn nhermau cydraddoldeb ac amrywiaeth. Cafwyd 55 o ymatebion.
191. Cafwyd ymatebion gan CLILC/CCAC, awdurdodau lleol a chonsortia, undebau athrawon, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, Llywodraethwyr Cymru, cynrychiolwyr o ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac aelodau o'r cyhoedd ymysg eraill. Cafwyd dau ymateb i'r holiadur i blant a phobl ifanc.
192. Roedd pawb yn gyffredinol gytûn ar y cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Mynegwyd yr anawsterau oedd yn wynebu teuluoedd mewn perthynas â chanfod y gofal plant ychwanegol sy'n ofynnol a thalu amdano pan nad yw dyddiadau tymhorau ysgolion yn gyson â'i gilydd.
193. Roedd pryderon mewn perthynas â ph'un a ddylai dyddiau penodol yn Wythnos y Pasg hyd at Ddydd Iau Cablyd (gan gynnwys y diwrnod hwnnw) fod wastad yn ystod y tymor. Codwyd pryderon ynghylch yr egwyddor o roi'r gallu i Weinidogion Cymru bennu dyddiadau tymhorau ysgolion. Er hynny, roedd mwyafrif y rhai a roddodd ymateb wedi ateb â 'cytuno neu 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'.
194. Yng ngoleuni rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, bu Llywodraeth Cymru yn ystyried unwaith eto'r cynigion i gael dyddiadau tymhorau ysgolion yn gyson â'i gilydd. Er gwaethaf y pryderon a'r safbwyntiau gwahanol a gafwyd, daethpwyd i'r casgliad bod manteision y cynigion yn drech na'r anfanteision.

Penodi a chael gwared ar Brif Arolygydd EM a phenodi Arolygwyr EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o dan adran 19 Deddf Addysg 2005

195. Mae diddymu adran 19(6) o Ddeddf Addysg 2005 yn newid technegol ac nid oes ymgynghoriad cyffredinol wedi'i gynnal fel y cyfryw. Er hynny, ymgynghorwyd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Dirprwy Brif Weinidog yn rhinwedd ei swydd fel Arglwydd Lywydd y Cyfrin Gyngor ac maent yn fodlon â'r cynigion. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â Phrif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ac mae yntau hefyd yn fodlon â'r cynigion.

5. Pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth

196. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth. Ar gyfer pob darpariaeth, mae'r tabl a ganlyn yn amlinellu:

y person, neu'r corff, y rhoddir y pŵer iddo;

ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;

priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

y weithdrefn a gymhwyswyd (*cadarnhaol, negyddol, dim gweithdrefn*), os o gwbl, ynghyd â'r rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
5(1) Pŵer i ychwanegu swyddogaethau	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae prif swyddogaethau'r Cyngor wedi'u hamlinellu ar wyneb y Bil. Yn sgil datblygu polisïau megis Llwybrau Dysgu 14-19 a'r cwricwlwm galwedigaethol sydd wedi gweddnewid, bydd angen hyblygrwydd i ddiwallu anghenion cyfnewidiol y gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol.	Negyddol	Amlinellir y prif ddyletswyddau ar wyneb y Bil a bydd defnyddio'r weithdrefn negyddol yn caniatáu hyblygrwydd. Bydd unrhyw newidiadau a wneir drwy reoliadau yn ystyried safbwyntiau'r cyrff priodol yn dilyn yr ymgynghoriad.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
10(2)(b) Cymhwyster i gofrestru	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Mae manylion pwy sy'n gymwys i gofrestru wedi'u hamlinellu ar wyneb y Bil. Materion yn ymwneud â chofrestru dros dro yn unig a gaiff eu hamlinellu mewn rheoliadau o dan y pŵer hwn.	Negyddol	Bydd angen hyblygrwydd i ganiatáu i system gofrestru dros dro fodloni dyheadau polisi y dyfodol a diwallu anghenion cyfnewidiol y gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r manylion yn dechnegol eu natur.
10(6) Cymhwyster i gofrestru	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'r amodau pan nad yw person yn gymwys i gofrestru gyda'r Cyngor wedi'u hamlinellu ar wyneb y Bil. Ymhen amser, mae'n bosibl y gallai fod angen caniatáu i newidiadau gael eu gwneud i'r ail o blith yr amodau hynny, er mwyn manylu ar seiliau eraill a fyddai'n golygu na fyddai aelodau o'r gweithlu addysg ehangach yn gymwys i gofrestru. Mae angen hyblygrwydd i sicrhau bod modd ychwanegu gofynion ychwanegol at yr ail amod yn ôl yr angen.	Cadarnhaol	Credir ei bod hi'n briodol bod newidiadau a wneir i ddeddfwriaeth sylfaenol yn cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod llawn.
12(1) Ffioedd cofrestru	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd rheoliadau yn cynnwys manylion y ffi a allai fod yn	Negyddol	Mae'r manylion yn dechnegol a gweinyddol eu natur, ac mae angen

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			daladwy ar gyfer cofrestru a'r mecanwaith ar gyfer codi'r ffi honno a'i chasglu. Mae a.12 o Ddeddf 1998 eisoes yn darparu pŵer gwneud rheoliadau mewn perthynas â ffioedd.		hyblygrwydd i allu newid y ffioedd yn hawdd.
13(1) Cofrestru: darpariaeth bellach	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn rhoi hyblygrwydd i ganiatáu i newidiadau pellach gael eu gwneud mewn perthynas â'r gofrestr a chofrestru fel ymateb i dystiolaeth bod angen gwneud hynny. Mae a.4 o Ddeddf 1998 eisoes yn darparu pŵer gwneud rheoliadau cyffelyb mewn perthynas â chofrestru athrawon.	Negyddol	O ran cyfansoddiad y gofrestr a'r modd y mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais, mae'r manylion yn dechnegol a gweinyddol eu natur.
14(1) <i>Gofynion i'w bodloni er mwyn cyflenwi gwasanaethau – athrawon ysgol a gweithwyr</i>	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer sy'n amlinellu pa ymarferwyr addysg y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru wedi'i amlinellu ar wyneb y Bil. Bydd rheoliadau yn darparu rhywfaint o fanylion yr amodau hynny, a'r gwasanaethau na ellir eu	Negyddol	O ran y cymwysterau, yr amodau a'r hyfforddiant sy'n ofynnol, mae'r manylion yn dechnegol eu natur.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
<i>cymorth dysgu mewn ysgolion</i>			cyflenwi oni chaiff yr amodau hynny eu bodloni, ac yn caniatáu i'r amodau a'r gwasanaethau gael eu haddasu fel ymateb i dystiolaeth bod angen gwneud hynny. Yng nghyswllt athrawon, ceir egwyddor sy'n cyfateb yn deillio o'r gofyniad i gofrestru yn a.3 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ynghyd â'r rheoliadau a wnaed o dan a.132 o Ddeddf Addysg 2002.		
15(1) <i>Gofynion i'w bodloni er mwyn cyflenwi gwasanaethau - Athrawon addysg bellach</i>	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer sy'n amlinellu pa ymarferwyr addysg y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru wedi'i gynnwys yn y Bil. Bydd rheoliadau yn darparu rhywfaint o fanylion yr amodau sydd i'w bodloni, a'r gwasanaethau na ellir eu cyflenwi oni chaiff yr amodau hynny eu bodloni, ac yn caniatáu i'r amodau a'r gwasanaethau gael eu haddasu fel ymateb i dystiolaeth bod	Negyddol	Mae'r manylion yn dechnegol eu natur ac yn benodol i'r gweithiwr addysg dan sylw.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			angen gwneud hynny. Mae hwn yn bwnc newydd gan nad oedd yn ofynnol i athrawon addysg bellach gofrestru o dan Ddeddf 1998.		
16(1) <i>Gofynion i'w bodloni er mwyn cyflenwi gwasanaethau - Gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach</i>	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd rheoliadau yn darparu rhywfaint o fanylion yr amodau hynny, a'r gwasanaethau na ellir eu cyflenwi oni chaiff yr amodau hynny eu bodloni, ac yn caniatáu i'r amodau a'r gwasanaethau gael eu haddasu fel ymateb i dystiolaeth bod angen gwneud hynny. Nid oedd yn ofynnol i weithwyr cymorth dysgu addysg bellach gofrestru o dan Ddeddf 1998.	Negyddol	Mae'r manylion yn dechnegol eu natur ac yn benodol i'r gweithiwr addysg dan sylw.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
17(1) Gofyniad i ymgymryd â chyfnod sefydlu	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer system sefydlu i'r gweithlu addysg ehangach. Mae a.19 o Ddeddf 1998 yn darparu pŵer gwneud rheoliadau mewn perthynas â sefydlu athrawon.	Negyddol	Mae'r manylion yn dechnegol eu natur.
19(3) Apelio yn erbyn dyfarniadau sefydlu	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniadau sefydlu wedi'i amlinellu ar wyneb y Bil. Bydd rheoliadau o dan y pŵer hwn yn caniatáu i ddarpariaethau pellach gael eu gwneud mewn perthynas ag apeliadau ar gyfer y gweithlu addysg ehangach, os bydd angen gwneud hynny. Mae a.19(4) o Ddeddf 1998 eisoes yn darparu bod rhaid i rheoliadau ddarparu fel bod gan athrawon yr hawl i apelio.	Negyddol	Bydd y rheoliadau yn dechnegol a gweithrediadol eu natur.
23(1) Arfarnu personau cofrestredig	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer system arfarnu perfformiad personau	Negyddol	Mae'r manylion yn dechnegol eu natur ac mae angen iddynt gynnwys grwpiau newydd posibl o weithwyr yn

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			cofrestredig. Gellid gorfodi dyletswyddau ar bersonau a restrir yn y Bil. Mae angen hyblygrwydd er mwyn inni allu gwneud newidiadau i'r system arfarnu i ddiwallu anghenion cyfnewidiol y gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol, fel ymateb i dystiolaeth bod angen gwneud hynny. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r cyrff perthnasol cyn gwneud rheoliadau. Mae pŵer gwneud rheoliadau mewn perthynas ag athrawon ysgol i'w gael eisoes yn a.131 o Ddeddf Addysg 2002.		y dyfodol.
25(1) Cod ymddygiad ac ymarfer: darpariaeth bellach	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi cod ac, wedi hynny, ddyletswydd ar y Cyngor i'w adolygu ac, os yn briodol, i baratoi a chyhoeddi codau dilynol. Mae'n briodol bod manylion ffurf a chynnwys y cod wedi'u hamlinellu mewn is-	Negyddol	Mae'r manylion yn dechnegol eu natur, a cheir gofyniad i'r cod gael ei adolygu bob tair blynedd.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			ddeddfwriaeth. Mae rheoliadau yn cynnig yr hyblygrwydd angenrheidiol i weithredu polisïau Llywodraeth Cymru i safoni trefniadau ar gyfer y gweithlu addysg ehangach. Mae a.4 o Ddeddf 1998 eisoes yn darparu pŵer gwneud rheoliadau ar gyfer cod ymarfer i athrawon cofrestredig.		
26(6)	Un o Weinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer gwneud rheoliadau hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfyngu ar unrhyw un o swyddogaethau disgyblu'r Cyngor yn adran 26, neu i wahardd unrhyw swyddogaeth o'r fath. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i deilwra pwerau disgyblu'r Cyngor os oes angen, gan gynnwys er mwyn rhoi ystyriaeth i bwerau sy'n cael eu harfer gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006.	Negyddol	Bydd hyn yn caniatáu i swyddogaethau disgyblu'r Cyngor roi ystyriaeth i bwerau sy'n cael eu harfer o dan Ddeddf 2006, neu adlewyrchu'r pwerau hynny, yn gyflym.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			Mae paragraff 6 o Atodlen 2 i Ddeddf 1998 yn darparu pŵer cyffelyb i wneud rheoliadau mewn perthynas ag athrawon.		
28(1) Swyddogaethau disgyblu: darpariaeth bellach	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil yn rhoi swyddogaethau disgyblu i'r Cyngor. Mae rheoliadau yn darparu fel mai dim ond mewn perthynas â swyddogaethau disgyblu'r Cyngor y gellir gwneud darpariaethau pellach. Mae gwahanol ddarpariaethau yn Atodlen 2 i Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn darparu pwerau gwneud rheoliadau sy'n berthnasol i swyddogaethau disgyblu.	Negyddol	O ran ffurf a chynnwys y weithdrefn ar gyfer ymchwiliadau a gorchmynion disgyblu, mae'r manylion yn dechnegol eu natur.
28(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Bydd y pŵer gwneud rheoliadau hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu fel bod gorchymyn gwahardd yn erbyn athro yn Lloegr yn cael yr un effaith yng Nghymru. O ganlyniad, gallai fod angen addasu'r Bil. Os digwydd hynny,	Cadarnhaol	Os caiff newidiadau eu gwneud i'r Ddeddf, bydd y weithdrefn gadarnhaol wedi'i sefydlu i ddiogelu.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			yna defnyddir y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau. Mae paragraff 7(2) o Atodlen 2 i Ddeddf 1998 eisoes yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau cyffelyb.		
33(1) Y Cyngor i gadw cofnodion am bersonau penodol	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae dyletswydd y Cyngor i ddal gwybodaeth am bersonau cofrestredig wedi'i hamlinellu ar wyneb y Bil. Mae rheoliadau yn amlinellu manylion y cofnodion. Mae Adran 4 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau mewn perthynas â'r wybodaeth sydd i'w dal am athrawon ar y gofrestr.	Negyddol	Mae'r manylion yn dechnegol/ gweithrediadol eu natur ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.
35(4) Darparu gwybodaeth: y Cyngor	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil yn amlinellu'r gofyniad ar y Cyngor i ddarparu gwybodaeth. Bydd rheoliadau yn amlinellu gofynion ychwanegol ar gyfer darparu gwybodaeth gan roi hyblygrwydd i fodloni dyheadau polisi yn y dyfodol a diwallu anghenion cyfnewidiol y	Negyddol	Mae'r manylion yn dechnegol/ gweithrediadol eu natur ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			gweithlu addysg, yn awr ac yn y dyfodol. Mae a.14 o Ddeddf 1998 yn cynnwys darpariaeth gyffelyb mewn perthynas ag athrawon.		
36(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n gosod dyletswydd ar gyflogwr perthnasol i roi gwybodaeth i'r Cyngor am berson cofrestredig nad yw wedi'i gyflogi bellach yn sgil ymddygiad amhroffesiynol, anghymhwysra neu gollfarn am drosedd berthnasol. Bydd y rheoliadau yn nodi'r union wybodaeth sy'n ofynnol. Dros amser, efallai y bydd angen newid y rhain wrth i gategorïau pellach o weithwyr gael eu hychwanegu. Mae a.15 o Ddeddf 1998 yn cynnwys darpariaeth gyffelyb mewn perthynas ag athrawon.		
37(2) Darparu gwybodaeth: asiantiaid a	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n gosod dyletswydd ar asiantiaid a chontractwyr i ddarparu gwybodaeth fel a amlinellir mewn rheoliadau.	Negyddol	Mae'r manylion yn dechnegol/ gweithrediadol eu natur ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
chontractwyr			Mae a.154 o Ddeddf 1998 yn cynnwys darpariaeth gyffelyb.		
Atodlen 1 3(1) Aelodaeth y Cyngor	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Bydd yn gwneud darpariaeth ynghylch nifer aelodau'r Cyngor. Bydd angen i'r aelodaeth adlewyrchu nifer y gweithlu cofrestredig, sy'n cynyddu. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer unrhyw newidiadau o ran aelodau'r gweithlu ehangach y mae'n ofynnol iddynt gofrestru. Ceir darpariaeth gyffelyb ym mharagraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf 1998 mewn perthynas â'r Cyngor Addysgu Cyffredinol presennol.	Cadarnhaol	Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer unrhyw newidiadau pellach o ran aelodau'r gweithlu addysg ehangach y mae'n ofynnol iddynt gofrestru.
Atodlen 1 4(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn amlinellu'r manylion o ran pwy sy'n gymwys i gael ei benodi i'r Cyngor, a'r broses ar gyfer gwneud hynny. Ceir darpariaeth gyffelyb ym	Negyddol	Gan y bydd yn ofynnol i ragor o ymarferwyr addysg gofrestru yn y dyfodol, mae'n rhoi hyblygrwydd i ddiwallu anghenion cyfnewidiol y gweithlu addysg.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			mharagraff 4 o Atodlen 1 i Ddeddf 1998 mewn perthynas â'r Cyngor Addysgu Cyffredinol presennol.		
Atodlen 1 9(2) Y Prif Swyddog a staff eraill	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae Gweinidogion Cymru yn cael pŵer gwneud rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch penodi/telerau ac amodau'r Prif Swyddog. Mae hyn yn briodol er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gael goruchwyllo penodiad/telerau ac amodau o'r fath (yn enwedig mewn cyfnod o gyfyngder ariannol) ond hefyd i'w galluogi i fod yn ddigon hyblyg i addasu unrhyw newidiadau a allai fod eu hangen, a'u rhoi ar waith.	Negyddol	Mae rheoliadau yn darparu manylion y broses benodi a sut y pennir telerau ac amodau'r penodiad.
Atodlen 2, paragraff 2 Newid categorïau gweithwyr cofrestredig			Mae'n rhoi'r pŵer i ychwanegu categorïau cofrestru neu ddisgrifiadau o gategorïau, eu diwygio neu eu dileu. Gall ddelio â'r angen i fod â chymhwyster penodedig neu brofiad o fath penodedig. Caiff ymgynghoriad	Cadarnhaol	Gall gorchymyn a wneir o dan y paragraff hwn addasu'r deddfiad hwn neu ddeddfiad arall, felly mae angen mabwysiadu'r weithdrefn gadarnhaol.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			ei gynnal â'r personau priodol.		
Adran 44: (Adran newydd 40B(5) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Bydd pwerau gwneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion bennu pryd y dylai dysgwyr gael eu trin fel rhai sy'n preswyllo fel arfer mewn ardal awdurdod lleol, a phryd na ddylent gael eu trin felly.	Negyddol	Bydd rheoliadau yn caniatáu ar gyfer cynnwys, pan fo angen, feini prawf cyfnewidiol ar gyfer asesu materion preswyllo.
Adran 44: (Adran newydd 40C(5) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Yn amlinellu sut y dylid cynnal asesiad; sut y dylai'r awdurdod lleol lunio adroddiad ar yr asesiad a pha wybodaeth y dylid ei chynnwys yn yr adroddiad neu a ddylai fod ynghlwm wrth yr adroddiad.	Negyddol	Bydd y Rheoliadau yn caniatáu ar gyfer sicrhau cysondeb rhwng ardaloedd wrth baratoi'r adroddiad hwn.
Adran 44: (Adran newydd 40D(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Yn amlinellu'r ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i gynnal asesiad gorfodol a'r pŵer i gynnal asesiad sydd wedi'i amlinellu ar wyneb y Bil.	Negyddol	Mae'r Rheoliadau yn rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer i bennu sut y byddai dysgwr yn gofyn am asesiad gorfodol neu asesiad disgresiynol.
Adran 44: (Adran newydd 40I(2) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Mae'r ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i gydymffurfio â gorchmynion Tribiwnlys y Gymraeg wedi'u hamlinellu ar	Negyddol	Mae rheoliadau yn pennu cyfnod amser y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag ef.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
2000)			wyneb y Bil.		
Adran 44: (Adran newydd 40J(5) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Yn pennu'r cyfnod amser y mae'r awdurdod lleol yn rhwym wrtho i sicrhau bod dysgwr yn cael ei asesu os yw'n dewis peidio â gwrthwynebu apêl i TAAAC.	Negyddol	Mae rheoliadau yn pennu cyfnod amser y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag ef.
Adran 44: (Adran newydd 40K(2) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Mae gallu dysgwr i apelio i TAAAC wedi'i amlinellu ar wyneb y Bil.	Negyddol	Bydd y pŵer gwneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion bennu'r weithdrefn fanwl ar gyfer apelio.
Adran 44: (Adran newydd 40N(1) a (5) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Mae gallu dysgwr i gael cyfaill achos yn ystod apêl wedi'i amlinellu ar wyneb y Bil.	Negyddol	Bydd y pŵer gwneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion bennu'r weithdrefn fanwl ar gyfer penodi cyfeillion achos.
Adran 44: (Adran newydd 40 O (4) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol i bersonau sy'n apelio i TAAAC, neu sy'n bwriadu neu'n ystyried apelio i TAAAC, neu bersonau sy'n cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghydfodau neu sy'n ystyried cymryd rhan mewn trefniadau o'r	Negyddol	Mae rheoliadau yn pennu'r gofynion y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â hwy.

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			fath.		
Adran 44: (Adran newydd 41A(4)(a) a (b) (5) a (6) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Mae'r ddyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu addysg/hyfforddiant fel a amlinellir mewn adroddiad asesu wedi'i hamlinellu ar wyneb y Bil.	Negyddol	Bydd rheoliadau yn pennu terfynau dyletswydd awdurdod lleol mewn perthynas â dysgwyr sy'n gadael ardal awdurdod lleol; methu cydymffurfio ag asesiad etc.
Adran 49 (Adran newydd 32A(6) o Ddeddf Addysg 2002)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn pennu ac yn diwygio manylion sut y caiff prif ddyletswydd awdurdodau lleol i roi gwybod i Weinidogion Cymru am ddyddiadau tymhorau yn eu hardaloedd ei chyflawni.	Gweithdrefn negyddol	Bydd y Rheoliadau hyn yn pennu manylion y rhybudd, y cyfnod amser, y ffurf, y cynnwys a'r weithdrefn, ac yn caniatáu iddynt gael eu diwygio. O ran y broses hysbysu, manylion technegol yw'r rhain, ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.
Adran 49 (Adran newydd 32B(4) o Ddeddf Addysg 2002)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Yn pennu ac yn diwygio manylion yr ymgynghoriad sydd i'w rhagnodi a'u haddasu dros amser, yn ôl yr angen.	Gweithdrefn negyddol	Bydd y Rheoliadau hyn yn pennu gofynion y broses ymgynghori, ac yn caniatáu iddynt gael eu diwygio. Mae'r manylion yn dechnegol eu natur ac nid ydynt yn debygol o fod yn ddadleuol.
Adran 49 (Adran newydd)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Yn cadarnhau'r pwerau gwneud rheoliadau presennol yn adran	Negyddol	Mae hyn yn cadarnhau'r pwerau presennol. Mae Rheoliadau Newid

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
32C(5) o Ddeddf Addysg 2002)			32(3) a (9) o Ddeddf Addysg 2002. Yn cynnwys manylion y weithdrefn sydd i'w dilyn gan naill ai awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir/ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin wrth newid amserau sesiynau ysgol.		Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009, fel y'i diwygiwyd, wedi cael eu gwneud o dan y pwerau presennol a byddant yn parhau mewn grym.
Adran 49 (Adran newydd 32C(5) o Ddeddf Addysg 2002)	Gweinidogion Cymru	Rheoleiddio	Yn cadarnhau'r pwerau gwneud rheoliadau presennol yn adran 32(3) a (9) o Ddeddf Addysg 2002. Yn cynnwys manylion y weithdrefn sydd i'w dilyn gan naill ai awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir/ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin wrth newid amserau sesiynau ysgol.	Negyddol	Mae hyn yn cadarnhau'r pwerau presennol. Mae Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009, fel y'i diwygiwyd, wedi cael eu gwneud o dan y pwerau presennol a byddant yn parhau mewn grym.
Adran 52	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Yn addas ar gyfer gorchymyn gan fod y ddarpariaeth yn gysylltiedig â gwneud diwygiadau canlyniadol posibl i'r ddeddfwriaeth sylfaenol hon a	Cadarnhaol	Bydd y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn gymwys gan y bydd y Gorchymyn yn diwygio'r Ddeddf hon a gallai gynnwys diwygiadau ychwanegol i ddeddfwriaeth sylfaenol

Adran:	Pŵer yn cael ei roi i	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			deddfwriaeth arall o'r fath. Er bod yr egwyddorion wedi'u hamlinellu ar wyneb y Ddeddf, a bydd rhaid diwygio amryw o Ddeddfau eraill, nid yw'n ymarferol nodi pob diwygiad canlyniadol ar hyn o bryd.		arall.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

197. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil arfaethedig yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(vi), a gellir ei weld yn Adran 7.
198. Caiff asesiad o'r costau a'r manteision ei gynnwys yn Adran 8.

7. Yr opsiynau

Cyngor y Gweithlu Addysg

Effaith a chostau'r Bil Addysg (Cymru)

199. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyflwyno'r opsiynau ar gyfer pob darpariaeth yn y Bil. Caiff pob opsiwn ei ddadansoddi gan ystyried i ba raddau y byddai pob un yn bodloni amcanion Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r risgiau, costau a manteision sy'n gysylltiedig â hwy.

Opsiwn 1: Gwneud dim - Parhau i gofrestru gan ddilyn yr un fformat ag a ddefnyddir ar hyn o bryd

200. Cafodd ystyriaeth ei rhoi i gynnal y status quo. Sefydlwyd y Cyngor Addysgu Cyffredinol gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Daeth i fodolaeth ar 1 Medi 2000. Yn dilyn hynny, diwygiwyd Deddf 1998 gan Ddeddf Addysg 2002 ac o ganlyniad rhoddwyd cyfrifoldebau ychwanegol iddo.

201. Prif nodau'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yw:

Cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu;

Cynnal a chodi safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon.

202. Swyddogaethau'r Cyngor Addysgu Cyffredinol pan y'i sefydlwyd ym mis Medi 2000 oedd:

sefydlu a chadw Cofrestr o Athrawon Cymwysedig yng Nghymru;

darparu Cod Proffesiynol ar gyfer athrawon cofrestredig;

cyflawni swyddogaethau disgyblu yng nghyswllt athrawon a gyhuddwyd o anghymhwysedd a chamymddwyn proffesiynol difrifol;

cynghori Llywodraeth Cymru a chyrrff dynodedig eraill ar:

- safonau addysgu;
- safonau ymddygiad ar gyfer athrawon;
- rôl y proffesiwn addysgu;
- hyfforddiant, datblygiad gyrfa a rheoli perfformiad athrawon;
- recriwtio i'r proffesiwn addysgu;
- y cyflenwad o athrawon;
- cadw athrawon yn y proffesiwn;
- statws y proffesiwn addysgu;
- ffitrwydd meddygol ar gyfer addysgu;

- ac, ar gais Llywodraeth Cymru, cyngori ar unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig ag addysgu.

203. Ar gais Llywodraeth Cymru, gall y Cyngor Addysgu Cyffredinol hefyd ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo recriwtio i'r proffesiwn addysgu a datblygiad proffesiynol parhaus athrawon.

204. Mae'r gweithlu addysg yng Nghymru wedi newid yn sylweddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Mae'r opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru diolch i gydweithredu rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 wedi arwain at gydweithio llawer agosach rhwng ymarferwyr mewn sectorau gwahanol. Yng ngoleuni diwygiadau fel y Cyfnod Sylfaen a Llwybrau Dysgu 14-19, mae'n ofynnol i staff cymorth dysgu, athrawon ac athrawon ôl-16, hyfforddwyr a darlithwyr gydweithredu i gefnogi dysgwyr yn fwy effeithiol. Mae'n glir bod angen gwneud mwy na dim ond cynnal y status quo.

205. Manteision:

Dim amharu ar y system gofrestru bresennol;

Dim costau ychwanegol;

Mae gan y Cyngor Addysgu Cyffredinol hanes da o reoleiddio a chynnal safonau ar gyfer athrawon.

206. Anfanteision:

Ni fyddai darlithwyr a staff cymorth addysg bellach, tiwtoriaid dysgu seiliedig ar waith, gweithwyr ieuenctid a staff cymorth mewn ysgolion yn cael eu cofrestru o hyd. Byddai hyn yn ymddangos yn anghyson â pholisïau megis y cydweithredu rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 o dan y rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, a gweithio mewn partneriaeth rhwng cynorthwywyr cymorth dysgu ac athrawon i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Nid yw'n bodloni gofynion y Rhaglen Lywodraethu.

Ni fyddai hyn yn sicrhau cysondeb a chydabyddiaeth ar draws y gweithlu addysg ehangach.

Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion o godi statws a phroffil y rheini sy'n gweithio yn y sector addysg.

Byddai'r gweithlu addysg ehangach yn parhau i weithio heb gyfres o safonau proffesiynol a heb fframwaith ar gyfer sefydlu ac arfarnu.

Ni fyddai hyn yn helpu i godi safonau ar draws y gweithlu addysg.

Opsiwn 2: (Gwneud cyn lleied â phosibl) - Cofrestru ymarferwyr addysg mewn ysgolion

207. Rhoddwyd ystyriaeth i gofrestru'r ymarferwyr hynny sy'n gweithio yn y sector ysgolion yn unig, hynny yw athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion, gan gadw prif nodau a swyddogaethau'r Cyngor Addysgu Cyffredinol fel ag y maent ar hyn o bryd am y rhesymau isod.

208. Mae gwahaniaethau sylweddol ar hyn o bryd rhwng y gofynion sydd ar y gweithlu addysg ehangach o ran:

safonau proffesiynol;

cymwysterau;

hyfforddiant cychwynnol;

rheoli perfformiad;

datblygiad proffesiynol parhaus.

209. Er bod rhai o'r gwahaniaethau hyn yn gwbl briodol ac yn adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol yng ngofynion y sector, mae yna wahaniaethau eraill, mwy artiffisial, sy'n rhwystro i gydweithio a symudedd ymhlith y gweithlu. Ni fyddai gosod gofyniad ar athrawon a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion i gofrestru ond yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn rhannol. Ni fyddai system gofrestru dim ond ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion yn addas ar gyfer diwygiadau megis Llwybrau Dysgu 14-19, lle'r ydym yn gweld mwy o gydweithredu rhwng gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion, athrawon ac athrawon ôl-16, hyfforddwyr a darlithwyr i gefnogi dysgwyr yn fwy effeithiol.

210. Roedd yn glir o'r ymgynghoriad cyntaf na fyddai'r opsiwn hwn yn mynd yn ddigon pell i wella safonau ar draws y gweithlu addysg.

211. Manteision:

Byddai hyn yn golygu cofrestru pob un sy'n gweithio mewn ysgol gydag un corff proffesiynol, ac yn sefydlu dull cyson o reoleiddio pob un sy'n gweithio mewn ysgol.

Byddai hyn yn dangos cysondeb yn y ffordd y caiff ymarferwyr addysgol eu trin o ran cymhwysedd ac ymddygiad.

Byddai cynnwys pob gweithiwr cymorth mewn ysgolion yn cael ei ystyried fel cam cadarnhaol ymlaen ar gyfer undebau os byddai'r gost i aelodau yn cael ei chadw'n isel a'r manteision o gofrestru yn cael eu hegluro.

212. Anfanteision:

Ni fyddai darlithwyr a staff cymorth addysg bellach, tiwtoriaid dysgu seiliedig ar waith, a gweithwyr ieuenctid yn cael eu cofrestru o hyd. Byddai hyn yn ymddangos yn anghyson â pholisïau megis y cydweithredu rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 o dan y rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, a gweithio mewn partneriaeth rhwng cynorthwywyr cymorth dysgu ac athrawon i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Ni fyddai hyn yn sicrhau cysondeb a chydabyddiaeth ar draws y gweithlu addysg ehangach.

Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion o godi statws a phroffil y rheini sy'n gweithio yn y gweithlu addysg ehangach.

Byddai dim ond yn gwneud rhywfaint i godi safonau'r gweithlu addysg.

Opsiwn 3: Cofrestru'r rheini sy'n gweithio yn y gweithlu addysg yng Nghymru (yr opsiwn a ffefrir)

213. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gofrestru'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru. Byddai hyn yn cynnwys cofrestru:

Athrawon

Gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion

Athrawon a staff cymorth dysgu addysg bellach

Tiwtoriaid dysgu seiliedig ar waith

Gweithwyr ieuenctid

214. Wrth ystyried yr opsiwn hwn, roedd Llywodraeth Cymru hefyd am ystyried ymestyn cwmpas y corff fel ei fod yn gwneud mwy na chadw cofrestr yn unig. Yr un fyddai'r egwyddorion craidd ond byddai'r swyddogaethau craidd yn cael eu hymestyn er mwyn cwmpasu gofynion y gweithlu addysg ehangach.

215. Mae'r opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru drwy bolisïau megis Llwybrau Dysgu 14-19 a chydweithio rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 wedi arwain at weithio agosach rhwng ymarferwyr

mewn sectorau gwahanol. Bu cynnydd sydyn hefyd yn nifer y bobl sy'n cefnogi addysgu a dysgu yn y Cyfnod Sylfaen, gyda chynorthwyr cymorth dysgu yn gweithio mewn partneriaeth ag athrawon i gyflwyno'r cwricwlwm. Golyga hyn fod strwythur a chyfansoddiad y gweithlu addysg wedi newid yn sydyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

216. Mae'n hanfodol bod yr amrywiol ymarferwyr hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol a'u bod yn gallu manteisio ar gymwysterau, cymorth a datblygiad sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae proffesiynoldeb, addasrwydd, safonau ymddygiad, hyfforddiant a datblygiad aelodau'r gweithlu addysg yn allweddol i'w lwyddiant. Mae Llywodraeth Cymru am gydnabod rôl pob un sy'n gweithio i gefnogi addysgu a dysgu fel rhan o un gweithlu addysg cydlynus yng Nghymru.

217. Mae nifer mawr o bobl broffesiynol yn y gweithlu addysg nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru ar hyn o bryd. Mae'r ffigurau hynny ar gyfer 2010/11 fel a ganlyn:

- dros 21,300 o staff cymorth mewn ysgolion;
- ychydig dros 8,800 o staff addysgu uniongyrchol yn y sector addysg bellach.

218. Er mwyn codi safonau a lleihau'r bwlch sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran cyrhaeddiad, mae'r Gweinidog wedi bod yn gwbl eglur bod angen sicrhau bod y gweithlu addysg, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at 14-19 oed, yn gweithio gyda'i gilydd fel un grŵp cydlynus o bobl broffesiynol sy'n cydweithio i wella safonau a chyrhaeddiad addysgol ar ran pobl Cymru.

219. Mae gan gorff sy'n cofrestru'r gweithlu addysg potensial i fod yn bartner allweddol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb. Gallai gefnogi'r agenda gwella a helpu i godi safonau, gan gynnal a meithrin hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Roedd yr ymatebion i'r ail ymgynghoriad yn cefnogi'r dull hwn a chytunwyd mai hwn oedd yr opsiwn a ffefrir.

220. Manteision:

Byddai'n sefydlu system gofrestru gadarn a fyddai'n gwella'r modd y caiff y gweithlu addysg ei gynllunio, ei hyfforddi a'i ddatblygu ac a fydd yn rhoi mwy o gysondeb ac yn cydnabod cyfraniad y gweithlu addysg cyfan at addysg dysgwyr.

Byddai'n sefydlu dull cyson o reoleiddio pob un sy'n gweithio yn y gweithlu addysg ehangach yng Nghymru.

Byddai'n dangos mwy o synnwyr o gysondeb ac o fod yn unedig o safbwynt y ffordd y caiff y gweithlu addysg ehangach ei drin o ran cymhwysedd ac ymddygiad.

Byddai cynnwys darlithwyr addysg bellach a staff addysgu a staff cymorth dysgu mewn ysgolion ac mewn addysg bellach yn dangos pwysigrwydd eu rôl i godi safonau a byddai'n codi eu statws.

Byddai'n golygu cofrestru gyda chorff proffesiynol sy'n gosod safonau proffesiynol ac yn eu cynnal, ac felly'n cadw hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

Byddai hefyd yn fuddiol o ran cynnig atebolrwydd a thryloywder ac yn rhoi sicrwydd o ran safonau.

Byddai'r opsiwn hwn yn gyson â pholisïau megis y cydweithredu rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 o dan y rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, a'r gweithio mewn partneriaeth rhwng cynorthwyyr cymorth dysgu ac athrawon i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Byddai trefn gofrestru ar gyfer y gweithlu addysg ehangach sydd wedi'i chynllunio'n dda, ac a fyddai'n cael ei chyflwyno'n raddol, yn ôl y rhan fwyaf a ymatebodd i'r ymgynghoriad, yn sicrhau bod y gweithlu'n cydymffurfio â safonau proffesiynol, gan godi statws a phroffil pob un sy'n gweithio mewn addysg. Dylai hyn arwain at fwy o gysondeb a mwy o synnwyr o fod yn unedig rhwng grwpiau gwahanol o ymarferwyr addysg ledled Cymru.

Byddai modd cynllunio gwariant ariannol yn fwy effeithiol i gefnogi mentrau allweddol oherwydd byddai manylion niferoedd a chymwysterau'r gweithlu cofrestredig yn cael eu cadw'n ganolog.

221. Anfanteision:

Gallai fod gofyn i'r gweithlu addysg ehangach dalu ffi i gofrestru.

Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig

Opsiwn 1: Gwneud dim

222. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn derbyn 12 o ymholiadau ar gyfartaledd gan awdurdodau lleol bob blwyddyn yn gofyn cydsyniad i leoli dysgwyr sydd â datganiad AAA mewn ysgol annibynnol sydd heb ei chofrestru na'i chymeradwyo i dderbyn dysgwyr sydd ag AAA.

223. Er mwyn cael cydsyniad i dderbyn disgybl unigol mae'n rhaid i awdurdod lleol ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gan gynnwys copi o ddatganiad plentyn o AAA, argymhelliad i'r plentyn gael ei leoli mewn ysgol annibynnol a chadarnhad fod yr ysgol annibynnol yn fodlon derbyn y disgybl. Bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn cyngor gan Estyn bod y lleoliad yn addas. Yn seiliedig ar hyn, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu i gydsynio i'r lleoliad neu beidio ac yn hysbysu'r awdurdod lleol o'r penderfyniad hwn. Bydd y broses hon yn cymryd 6 i 8 wythnos ar gyfartaledd.
224. Nid yw'r broses gyfredol yn arwain at unrhyw gostau sylweddol ond mae yn golygu cyfnod o ansicrwydd i'r dysgwyr a'r rhieni. Mae swyddogion awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn treulio amser yn cyfnewid gwaith papur am gyfnod llai na 30 awr, yn ôl amcangyfrif, am lai na £500 y flwyddyn.
225. Nid yw'n hawdd i awdurdodau lleol sy'n ceisio lleoli disgybl sydd â datganiad AAA gael mynediad at wybodaeth ynghylch pa ysgolion annibynnol sy'n gallu darparu ar gyfer gwahanol fathau o AAA. Felly, byddai lleoli plant sydd ag AAA mewn ysgolion annibynnol yng Nghymru yn parhau i gymryd mwy o amser nag a ddylai.

Opsiwn 2: Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig - yr opsiwn a ffefrir

226. Bydd y cynigion yn y Bil yn symleiddio y broses o leoli plant sydd â datganiadau AAA gan awdurdodau lleol drwy gael gwared ar ddyblygu gofynion cofrestru ar gyfer lleoliadau datganiad AAA, sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng adran 347 (a347) Deddf Addysg 1996 ac adran 160 (a160) Deddf Addysg 2002. Mae'r Bil yn cynnig diddymu a347 Deddf Addysg 1996 a newid y ffordd y bydd ysgolion annibynnol yn cofrestru i dderbyn dysgwyr sydd â datganiadau AAA. Bydd y newidiadau hyn yn dod â'r holl ysgolion annibynnol sydd am ddarparu ar gyfer plant sydd â datganiadau AAA o fewn cwrdd cytundeb presennol Llywodraeth Cymru gydag Arolygiaeth EM Estyn i gynnal ymweliadau monitro rheolaidd.
227. Bydd y Bil yn diwygio adran 160 fel y bydd yn ofynnol yn y dyfodol i ysgolion annibynnol sy'n dymuno derbyn disgyblion sydd â datganiadau AAA gofrestru gyda Llywodraeth Cymru o dan a160. Bydd angen iddynt hefyd nodi'r math o ddarpariaeth AAA fydd yr ysgol yn ei darparu.
228. Bydd yn bosib i awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n ceisio lleoli plentyn sydd â datganiad AAA nodi'n gyflymach ac yn haws y rhai hynny all ddarparu ar gyfer mathau penodol o AAA a chytuno ar leoliad addas yn gyflymach.
229. Bydd ysgolion annibynnol sydd wedi cofrestru o dan a160 fel y'i diwygiwyd hefyd yn dod o fewn cwrdd cytundeb cyfredol Llywodraeth Cymru gydag Arolygiaeth EM Estyn i gynnal ymweliadau monitro ag ysgolion sydd wedi'u 'cymeradwyo'. Bydd yn bosibl i awdurdodau lleol,

rhieni ac aelodau'r cyhoedd hefyd weld adroddiadau monitro blynyddol Estyn mewn perthynas â'r ysgolion hynny sydd wedi'u cofrestru i dderbyn disgyblion sydd â datganiadau AAA. Bydd hyn yn golygu mwy o dryloywder ac atebolrwydd.

230. Nid oes opsiwn i 'Wneud cyn lleied â phosib'. Er mwyn cyflawni'r amcanion, yr opsiwn deddfwriaeth yw'r ymyrraeth leiaf sydd wedi'i nodi.

Rhoi'r cyfrifoldeb am asesu yr angen am addysg ôl-16 i ddysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, a threfnu'r ddarpariaeth honno, i awdurdodau lleol

Opsiwn 1: Gwneud dim

231. Ar hyn o bryd mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer asesu pobl ifanc, o dan 19 oed, sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig, ble y maent yn credu eu bod yn debygol o adael yr ysgol ar ddiwedd y flwyddyn olaf o addysg orfodol i dderbyn addysg neu hyfforddiant ôl-16. Mae'n rhaid i'r asesiad gael ei wneud yn ystod blwyddyn olaf addysg orfodol ac mae'n pennu anghenion addysgol a hyfforddiant person a'r ddarpariaeth sydd ei hangen i fodloni'r anghenion hynny. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer hefyd i drefnu i gynnal asesiad o unrhyw berson sydd o dan 25 oed ble yr ymddengys bod ganddynt anawsterau dysgu a ble y maent yn derbyn, neu'n debygol o dderbyn, addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu addysg uwch.
232. Mae Llywodraeth Cymru yn trefnu i'r asesiadau hyn gael eu cynnal gan Gyrfa Cymru sy'n cynhyrchu Cynlluniau Dysgu a Sgiliau ar gyfer pob dysgwr perthnasol.
233. Mae angen darpariaeth arbenigol ar rai dysgwyr, a allai gynnwys llety preswyl, y gellid ei ddarparu mewn coleg arbenigol. Mae Gyrfa Cymru yn paratoi ac yn cyflwyno cais unigol am gyllid mewn perthynas â'r dysgwyr hyn a'u lleoliad mewn coleg arbenigol.
234. Mae'r rhan fwyaf o golegau addysg bellach yn cynnig rhaglenni astudio all fodloni anghenion dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig. Er mwyn eu galluogi i sicrhau darpariaeth briodol i ddysgwyr ar y cyrsiau hyn, gall colegau addysg bellach gyflwyno ceisiadau am gyllid eithriadol, neu, pan fo'r anghenion yn llai cymhleth mae'n bosibl y byddant yn ariannu y ddarpariaeth angenrheidiol o'u prif grant cyllido rheolaidd neu eu cyllid grant atodol.
235. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried pob cais unigol a'r dystiolaeth sy'n ei gefnogi er mwyn cyrraedd penderfyniad am gyllid a, ble y bo angen, yn chwilio am dystiolaeth ychwanegol ac yn trafod cyllido ar y cyd gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a/neu fyrdau iechyd.

236. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn prosesu ceisiadau am gyllid eithriadol o golegau addysg bellach ac yn gwneud cyfraniadau cyllido atodol i'w galluogi i'w gwneud yn haws i bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig ddefnyddio'r ddarpariaeth brif ffrwd.
237. Gall prosesu ceisiadau am leoliadau arbenigol unigol gymryd llawer o amser. Bob blwyddyn, nid yw dros 40% o geisiadau wedi derbyn penderfyniad cyllido erbyn mis Gorffennaf ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau ym mis Medi. Gallai hyn fod o ganlyniad i orfod chwilio am dystiolaeth ychwanegol a/neu yr amser a gymerir i drafod trefniadau cyllido ar y cyd. Gallai hyn achosi rhwystredigaeth a phoendod i ddysgwyr a'u rhieni.
238. Ar hyn o bryd, nid yw'r hawl i ddadlau ynghylch achos ac i fynd ag apêl i TAAAC yn bodoli ar gyfer y rhai hynny sydd dros 16 mlwydd oed.
239. O dan y trefniadau presennol nid yw cynllunio pontio ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion mwy cymhleth yn effeithiol bob amser. Daw cyfrifoldebau awdurdodau lleol am addysgu pobl ifanc i ben pan fyddant yn gadael yr ysgol, felly nid oes cymhelliad i awdurdodau gynllunio ymlaen na chydweithio gyda'r bwriad o fodloni anghenion parhaus dysgwyr yn fwy effeithiol. Er enghraifft nid ydynt yn cydweithio â cholegau addysg bellach lleol i gynllunio darpariaeth sy'n bodloni anghenion dysgwyr neu gyda gofal cymdeithasol i gytuno ar drefniadau rhannu cymorth yn gynnar. Nid oes gan Gyrfa Cymru na Llywodraeth Cymru wybodaeth o flaen llaw am y dysgwyr y maent yn eu hasesu ac yn gwneud penderfyniadau cyllido yn eu cylch.
240. Hyn a arweiniodd at gael y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol, y cyfeirir ato uchod, i argymhell bod awdurdodau yn cael y cyfrifoldeb o asesu a chyllido addysg bellach arbenigol.
241. I grynhoi, byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y dull presennol sy'n gwneud dim i fynd i'r afael â'r broblem o gynllunio gwael neu anghyson ar gyfer pontio, diffyg cydweithio a chydweithredu, yr angen i gynyddu'r ddarpariaeth leol neu i sicrhau yr ystyrir gwerth am arian yn y broses gomisiynu. Am y rhesymau hyn, nid opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffeirir.

Opsiwn 2 - Rhoi'r cyfrifoldeb am asesu yr angen am yr holl ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu, a threfnu'r ddarpariaeth honno, i awdurdodau lleol

242. O dan yr opsiwn hwn byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu anghenion addysg a hyfforddiant dysgwyr ac am sicrhau addysg a hyfforddiant i fodloni'r anghenion hynny, naill ai drwy ddarpariaeth arbenigol neu o fewn y sector addysg bellach.
243. Gall awdurdodau lleol dynnu ar eu gwybodaeth flaenorol o'r dysgwr i lywio'r broses asesu ac maent mewn sefyllfa dda i gydweithio gyda chydweithwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol.

244. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi'r cyfrifoldeb am asesu yr angen a chyllido holl anghenion addysg a hyfforddi dysgwyr sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu mewn un lle. Byddai hyn yn golygu bod dysgwyr yn cael eu hasesu mewn da bryd, bod cynllunio pontio gyda'r dysgwyr a'r colegau'n dechrau'n gynharach ac y byddai gan awdurdodau lleol gymhelliad i weithio gyda darparwyr ôl-16 i sicrhau bod modd darparu ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth yn lleol.
245. Mae perygl i awdurdodau roi gormod o bwyslais ar gost darpariaeth wrth benderfynu ar eu hasesiadau o anghenion addysg a hyfforddi a'r ddarpariaeth i fodloni'r anghenion hynny. Gallai hyn arwain at gynnig darpariaeth amhriodol i rai dysgwyr. Gellid lliniaru'r perygl hwn drwy gyflwyno hawl i apelio pe byddai dysgwyr yn teimlo bod eu hanghenion wedi'u hasesu yn amhriodol, neu nad oedd y ddarpariaeth yn addas i fodloni eu hanghenion.
246. Byddai'r opsiwn hwn yn gymhleth i'w reoli gan fod colegau addysg bellach yn derbyn cyllid ar hyn o bryd drwy'r grant atodol i'w cynorthwyo i wneud y cyrsiau hyn yn fwy hygyrch yn gyffredinol a thrwy gyllido eithriadol ar gyfer dysgwyr penodol. Pe byddai'r ffrydiau cyllido hyn yn trosglwyddo i awdurdodau lleol, mae'n bosib y byddai'n rhaid i golegau addysg bellach wneud cais am gyllid i nifer o awdurdodau.
247. O dan yr opsiwn hwn, byddai dysgwyr sydd â lefelau anghenion isel yn cael eu cyfeirio at yr awdurdod lleol am asesiad o'u hanghenion, a fyddai'n ymyrraeth anghymesur fyddai'n cymryd gormod o amser. Byddai angen i hyd yn oed gymorth sydd â chostau isel fod yn destun cais am gyllid a fyddai'n feichus ac yn fiwrocrataidd.
248. I grynhoi, er y byddai'r opsiwn hwn yn gwella cynllunio pontio a gweithio ar y cyd, byddai'n cynyddu yn hytrach na lleihau biwrocratiaeth a chymhlethdod. Ar ben hyn, er ar y naill law gallai sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei ystyried yn ystod y broses gomisiynu, ar y llaw arall byddai unrhyw arbedion yn cael eu gwrthbwysu gan gost proses rhy fiwrocrataidd. Am y rhesymau hyn, nid opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 3 - Rhoi'r cyfrifoldeb am asesu'r angen am ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, a threfnu'r ddarpariaeth honno, i awdurdodau lleol, gyda'r cyfrifoldeb am dalu'r costau'n cael ei benderfynu drwy gyfeirio at drothwy penodol (£x)

- 249 O dan yr opsiwn hwn byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu anghenion addysg a hyfforddiant dysgwyr ac am sicrhau addysg a hyfforddiant i fodloni'r anghenion hynny, naill ai drwy ddarpariaeth arbenigol neu o fewn y sector addysg bellach. Pan fo cost y ddarpariaeth (ar wahân i gost cwrs sydd eisoes ar gael o fewn y sector addysg bellach) yn fwy na'r trothwy, yna yr awdurdod lleol fyddai'n gyfrifol am dalu'r gost honno. Pan fo cost y ddarpariaeth yn is na'r trothwy, yna

Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol drwy gyllid craidd neu grant i'r sector addysg bellach.

250. Gall awdurdodau lleol dynnu ar eu gwybodaeth flaenorol o'r dysgwr i lywio'r broses asesu ac maent mewn sefyllfa dda i gydweithio gyda chydweithwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol.
251. Byddai'r opsiwn hwn yn dibynnu ar osod trothwy a fyddai'n penderfynu a fyddai'r awdurdod lleol yn darparu cyllid i'r sefydliadau addysg bellach i'w cynorthwyo i fodloni anghenion dysgwr unigol.
252. Byddai'n ddadleuol ac yn gymhleth iawn i bennu'r trothwy hwnnw gan fod gwahanol sefydliadau addysg bellach yn cynnig lefelau cymorth gwahanol ar hyn o bryd drwy eu cyllid atodol a chraidd. Gallai newidiadau mewn anghenion wthio'r costau dros neu o dan y trothwy gan newid y cyfrifoldeb am gyllido o bosib ar ganol cwrs. Mae'n bosib y bydd anghydfodau rhwng colegau addysg bellach ac awdurdodau lleol ynghylch cost darpariaethau a allai olygu bod oedi cyn i ddysgwyr allu dechrau ar gwrs. Byddai cymhelliad i asesu anghenion o fewn yr hyn y gellid ei brisio yn is na'r trothwy, a gallai anghydfodau am arian niweidio'r berthynas honno rhwng yr awdurdod lleol a'r sefydliadau addysg bellach yr ydym yn ceisio eu hannog. Yn olaf byddai angen diwygio'r trothwy yn rheolaidd.
253. I grynhoi, er y byddai'r opsiwn hwn yn gwella'r broses o gynllunio pontio a gweithio ar y cyd, byddai yn llawer mwy cymhleth. Ar ben hyn byddai'n rhoi gormod o bwyslais ar y gost, o gymharu â gwerth am arian, ac yn golygu y byddai'n fwy tebygol o arwain at anghytundeb ac anghydfod. Am y rhesymau hyn, nid opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefirir.
254. Gan fod yr opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn drwsogl ac yn wrthgynhyrchiol, ni chafodd ei ystyried fel opsiwn ymarferol. Am y rheswm hwn ni chafodd yr asesiad Costau a Manteision ar yr Opsiwn hwn, yn Adran 8 isod, ei gwblhau.

Opsiwn 4: Rhoi'r cyfrifoldeb am asesu anghenion a sicrhau darpariaeth addas ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu i awdurdodau lleol, gyda'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarpariaeth arbenigol neu ddarpariaeth, gan gynnwys llety preswyl.

255. Nid oes unrhyw newid i ddyletswydd gyffredinol Gweinidogion Cymru o dan adrannau 31 a 32 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 i sicrhau darpariaeth briodol i ddysgwyr (ar gyfer y rhai rhwng 16 ac 19) a chyfleusterau rhesymol (ar gyfer y rhai dros 19 oed) ar gyfer addysg a hyfforddiant. Mae'n rhaid i Weinidogion hefyd ystyried anghenion y rhai hynny sydd ag anawsterau dysgu a pharhau felly i ariannu sefydliadau addysg bellach i'w cynorthwyo i dalu'r costau ychwanegol hyn i sicrhau bod y grŵp hwn o ddysgwyr yn cael mynediad i gyrsiau.

256. O dan yr opsiwn hwn byddai awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu anghenion addysg a hyfforddiant dysgwyr ac am sicrhau addysg a hyfforddiant i fodloni'r anghenion hynny pan fo angen darpariaeth arbenigol.

257. Gall awdurdodau lleol dynnu ar eu gwybodaeth flaenorol o'r dysgwr i lywio'r broses asesu ac maent mewn sefyllfa dda i gydweithio gyda chydweithwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol.

258. Byddai awdurdodau lleol yn cael eu hannog i weithio gyda'r sector addysg bellach i gynllunio ymlaen llaw ac i ehangu'r ddarpariaeth fel ei bod yn addas ar gyfer ystod ehangach o anghenion dysgu dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, gan roi mwy o ddewis a darpariaeth fwy lleol. Byddai bodloni mwy o anghenion dysgwyr o fewn y sector addysg bellach hefyd yn cynnig mwy o werth am arian.

259. Mae perygl i awdurdodau roi gormod o bwyslais ar nodi lle mae darpariaeth amhriodol yn cael ei chynnig i rai dysgwyr yn y sector addysg bellach. Gellid lliniaru'r perygl hwn drwy gyflwyno hawl i apelio pe byddai dysgwr yn teimlo bod ei anghenion wedi'u hasesu yn amhriodol, neu nad oedd y ddarpariaeth yn addas i fodloni ei anghenion. Byddai angen yr adroddiad o'r asesiad i enwi'r darparwr a nodwyd oedd yn gallu bodloni anghenion y dysgwr. Ni ellid enwi coleg addysg bellach os nad oedd yr awdurdod lleol wedi trafod anghenion y dysgwr ac wedi cytuno bod modd eu bodloni.

260. Byddai'r cynnig hwn yn gwella cynllunio pontio, a gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol, gan gynnwys ar draws adrannau o fewn yr awdurdod lleol, a dylai arwain at benderfyniadau cyllido mwy amserol ar gyfer dysgwyr a bod o gymorth gydag ehangu'r cyfleoedd ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu o fewn y sector addysg bellach.

261. I grynhoi, byddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â phroblemau cynllunio pontio gwael ac anghyson, diffyg cydweithredu, yr angen i gynyddu'r ddarpariaeth leol a sicrhau bod gwerth am arian yn rhan o'r broses gomisiynu, heb iddi fynd yn rhy gymhleth. Am y rhesymau hyn, opsiwn 4 yw'r opsiwn a ffefrir.

Dyddiadau tymhorau ysgolion

Opsiwn 1: Gwneud dim

262. Mae'r gyfraith bresennol yn adran 32 o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu mai'r awdurdodau lleol sy'n pennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ac ysgolion meithrin; ac mai'r cyrff llywodraethu sy'n

gwneud hynny ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Mae hyn o ganlyniad i ddarpariaethau adran 32 o Ddeddf Addysg 2002.

263. Nid yw'r gyfraith bresennol:

yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol ac ar gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydweithio i gysoni dyddiadau tymhorau ledled Cymru; nac

yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd a chadw trefn ar y broses o bennu dyddiadau tymhorau.

264. Mae'n bosibl y gallai newid y drefn fel bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn consortia arwain at gonsensws ar draws Cymru gyfan o ran pennu dyddiadau tymhorau ysgolion. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd dyddiadau'n cael eu cysoni, gan y gallai'r consortia bennu gwahanol ddyddiadau ar gyfer eu hardaloedd. Hefyd, mae ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn pennu eu dyddiadau tymhorau eu hunain; nid oes unrhyw sicrwydd na fyddai'r dyddiadau a bennir gan gyrff llywodraethu'r ysgolion hyn yn wahanol i'r dyddiadau a bennir gan yr awdurdodau lleol.

265. Yn gryno, byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau, ac na fyddai dim yn cael ei wneud i sicrhau bod dyddiadau tymhorau ysgolion ledled Cymru yn cael eu cysoni. Am y rheswm hwn, nid opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 2: Gwneud cyn lleied â phosibl – Y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad nad yw'n rhwymo

266. Gallai'r Gweinidog gyhoeddi datganiad nad yw'n rhwymo i egluro bod disgwyl i ddyddiadau tymhorau gael eu cysoni ar gyfer pob ysgol a gynhelir ledled Cymru. Gallai'r datganiad ei gwneud yn glir y bydd y Gweinidog yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth i ganiatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau, os na fydd yn bosibl sicrhau cysondeb o fewn cyfnod rhesymol.

267. Er y gallai'r math hwn o ddatganiad fod yn ddefnyddiol o ran perswadio awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydweithio i bennu dyddiadau tymhorau, nid oes unrhyw sicrwydd y byddai'n llwyddo. O gofio bod CLILC wedi bod yn ymdrechu ers sawl blwyddyn heb unrhyw lwyddiant i gael y 22 awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau cysondeb o ran pennu dyddiadau, mae'n ddigon posibl na fyddai datganiad gan y Gweinidog yn cael yr effaith a ddymunir.

268. Yn ogystal â'r 22 awdurdod lleol, byddai angen i gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig hefyd gytuno

ar y dyddiadau a bennir. Mae yna bosibilrwydd gwirioneddol na fyddai cynifer o gyrff yn gallu dod i gytundeb er gwaethaf y ffaith bod y Gweinidog wedi cyhoeddi datganiad, a hwnnw'n ddatganiad nad yw'n rhwymo.

269. Am y rhesymau hyn, nid opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir.

Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth - Rhoi rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydweithio, gan roi pŵer disgresiwn i Weinidogion Cymru i ganiatáu iddynt ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau

270. O dan yr opsiwn hwn, byddai rhwymedigaeth yn cael ei rhoi ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydweithio a chydgysylltu i geisio cael consensws ar ddyddiadau tymhorau ysgolion.

271. Byddai'n gweithio:

trwy roi cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol i gydweithio ac i gydgyssylltu er mwyn cytuno ar ddyddiadau tymhorau â phob awdurdod lleol arall yng Nghymru; a

thrwy roi cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol, ac ar gyrff llywodraethu pob ysgol sefydledig ac ysgol wirfoddol a gynorthwyir o fewn ardal yr awdurdod lleol, i gydweithio a chydgyssylltu er mwyn dod i gytundeb ar ddyddiadau tymhorau.

272. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos bod llawer o awdurdodau lleol eisoes yn ystyried bod yr angen i drafod, ac i gydweithio â'i gilydd ac â chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion ffydd o fewn eu hardaloedd, yn rhan annatod o'r broses o bennu dyddiadau tymhorau. Yn sicr, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r math hwn o drafod a chydweithio fod yn digwydd eisoes. Felly, ni ddylai gwneud gofynion fel hyn yn statudol beri unrhyw anghyfleustra mawr i awdurdodau lleol na'r cyrrff llywodraethu perthnasol.

273. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod achosion pan na all awdurdodau lleol a'r cyrrff llywodraethu ysgolion perthnasol gyrraedd consensws ar ddyddiadau tymhorau er gwaethaf pob ymdrech ar eu rhan nhw i wneud hynny. Oherwydd hynny, bydd y Bil yn rhoi pŵer disgresiwn i Weinidogion Cymru i ganiatáu iddynt gyfarwyddo awdurdodau lleol a'r cyrrff llywodraethu perthnasol o ran pennu dyddiadau tymhorau ysgol. Bydd hynny'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau gan y bydd yn caniatáu iddynt ddweud wrth awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig pa

ddyddiadau y dylid eu pennu, os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen gwneud hynny.

274. Bydd cyflwyno'r trefniadau deddfwriaethol newydd hyn yn golygu bod proses ddwy haen ar waith ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau. Bydd hynny'n caniatáu i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig barhau i reoli dyddiadau tymhorau ac amseru gwyliau ysgol, gan sicrhau ar yr un pryd bod y dyddiadau'n cael eu cysoni. Ni fydd Gweinidogion Cymru ond yn ystyried defnyddio eu pwerau os na chytunir ar ddyddiadau ledled Cymru gyfan, neu os bydd y Gweinidogion o'r farn nad yw'r dyddiadau y cytunwyd arnynt yn addas.

275. Cyn penderfynu defnyddio eu pwerau i bennu dyddiadau tymhorau ysgolion, byddai Gweinidogion Cymru bob amser yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y dyddiadau y maent yn bwriadu eu pennu, a'u rhesymau am wneud hynny. Os bydd pob awdurdod lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol i gyd wedi dod i gytundeb ynghylch dyddiadau tymhorau, rhagwelir mai yn anaml iawn y byddai Gweinidogion Cymru yn defnyddio eu pwerau i newid dyddiadau, a hynny dim ond pan fyddai'n bosibl llwyr gyfiawnhau eu hymyrraeth.

276. Mantais yr opsiwn hwn i rieni a gofalmwr yw y byddai dyddiadau tymhorau yn gyson ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru, ac y byddai hynny'n datrys y problemau y mae rhieni a gofalmwr yn eu hwynebu oherwydd y gwahaniaethau mewn dyddiadau tymhorau, wrth geisio cael hyd i ofal plant ychwanegol a thalu amdano. Rhagwelir mai dim ond mewn amgylchiadau anarferol (fel yn achos Cwpan Ryder) y gallai dyddiadau tymhorau ysgolion fod yn wahanol mewn ardal benodol.

277. Mantais yr opsiwn hwn i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion yw y byddant yn parhau i reoli'r broses o bennu dyddiadau tymhorau ysgolion. Dim ond mewn achosion lle na allant ddod i gytundeb, neu lle maent wedi cytuno ar ddyddiadau tymhorau nad ydynt yn addas ym marn Gweinidogion Cymru, y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried defnyddio eu pwerau disgresiwn.

278. Am y rhesymau hyn, opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffeifrir.

8. Costau a manteision

279. Mae'r bennod hon yn cynnwys dadansoddiad o gostau a manteision yr opsiynau y manylir arnynt ym mhennod 7.

Opsiwn 1: Gwneud dim

Costau

280. Mae'r opsiwn hwn yn cynnal y status quo sy'n golygu mai dim ond athrawon sy'n gorfod cofrestru gyda'r Cyngor Addysgu Cyffredinol. Gan hynny, nid oes unrhyw gostau **ychwanegol** yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

281. Corff proffesiynol annibynnol, ymreolaethol, ar gyfer athrawon Cymru yw'r Cyngor Addysgu Cyffredinol. Fe'i sefydlwyd ar 1 Medi 2000 ar gyfer cynnal safonau uchel o addysgu a chodi'r safonau hynny, rhoi llais i'r proffesiwn addysgu a chynghori Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth eang o faterion yn gysylltiedig ag addysgu. O ran ei swyddogaethau craidd, mae'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn gorff hunangyllidol ac yn ariannu ei hun drwy godi ffi gofrestru flynyddol ar athrawon. Ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2012, cynhyrchwyd £1,706,000 o incwm drwy gasglu'r ffi gofrestru.

282. At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ariannu'r Cyngor Addysgu Cyffredinol drwy grant ers mis Ebrill 2002, i wneud gwaith ychwanegol ar ei rhan. Amlinellir manylion ariannu'r gweithgareddau hyn yn y Llythyr Cynnig Grant blynyddol a anfonir i'r Cyngor Addysgu cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'n nodi faint o arian a fydd ar gael iddo yn ogystal â thelerau ac amodau'r grant. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cytuno y gall swyddogion roi cyllid hyd at £6,306,000 ar gyfer 2013-14 i gefnogi'r gwaith y mae'n ei wneud ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â:

- a. Gweinyddu a chadarnhau Statws Athro Cymwysedig;
- b. Cyhoeddi Tystysgrifau Sefydlu i athrawon cofrestredig sydd wedi cwblhau eu cyfnodau Sefydlu yn llwyddiannus a gwranddo Apeliadau Sefydlu;
- c. Gweinyddu'r rhaglenni Sefydlu, Datblygiad Proffesiynol Cynnar a'r Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol;
- d. Cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso sydd am gofrestru gyda'r Cyngor Addysgu Cyffredinol am y tro cyntaf.

Manteision

283. Ni ragwelir bod unrhyw fanteision ychwanegol ynghlwm â chynnal y trefniadau presennol.

Risgiau

284. Mae'n ofynnol cofrestru'r gweithlu addysg ehangach i sicrhau bod mwy o gysondeb rhwng aelodau'r gweithlu addysg, a bod mwy yn gyffredin rhyngddynt, ac i godi statws a phroffil y rheini sy'n gweithio yn y sector. Dylai hyn oll gael effaith ar ein gallu i godi safonau mewn addysg. Mae nifer mawr o weithwyr proffesiynol yn y gweithlu addysg. Yn 2010/11, roedd dros 21,300 o staff cymorth mewn ysgolion ac ychydig dros 8,800 o staff addysgu uniongyrchol yn y sector addysg bellach na fyddai raid iddynt gofrestru o hyd. Mewn sectorau eraill, ychydig o ddata a gasglwyd, ac mae hynny felly'n ei gwneud yn anodd cynllunio'r gweithlu ar draws y sector.

285. Mae cryn wahaniaeth rhwng y gofynion ar gyfer safonau proffesiynol, cymwysterau, hyfforddiant cychwynnol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus ar draws sectorau gwahanol y gweithlu addysg. Er bod rhai o'r gwahaniaethau hyn yn gwbl briodol ac yn adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol yng ngofynion y sector, mae yna wahaniaethau eraill, mwy artifisial, sy'n rhwystro cydweithredu a symudedd ymhlith y gweithlu ac sy'n cyfyngu ar ddatblygiad gyrfa. Ni fyddai cynnal y trefniadau presennol yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

286. Ni fyddai cynnal y trefniadau presennol yn cydnabod rôl pob un sy'n gweithio i gefnogi addysgu a dysgu fel rhan o un gweithlu addysg cydlynus yng Nghymru.

Opsiwn 2: Gwneud cyn lleied â phosibl - Cofrestru ymarferwyr addysg mewn ysgolion

Costau

287. O ran ei swyddogaethau craidd, mae'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn gorff hunangyllidol, ac er ein bod yn bwriadu rhoi enw newydd iddo, ac ymestyn a mireinio ei swyddogaethau a'i gylch gwaith, bydd yn parhau'n gorff hunangyllidol o ran ei swyddogaethau craidd ac yn ariannu ei hun drwy godi ffi gofrestru flynyddol.

288. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn cael unrhyw gyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei weithgarwch cofrestru a rheoleiddio. Er hynny, mae'r Llywodraeth yn talu tua £1 miliwn drwy Grant Cynnal Refeniw fel cymhorthdal ar gyfer ffi yr athrawon. Ynghlwm yn Atodiad 2, ceir model economaidd sy'n seiliedig ar fandiau cyflog a chynyddiadau pensiwn y cytundeb terfynol ar y newidiadau i gyfraniadau aelodau'r cynllun pensiwn athrawon ar gyfer 2012-13, i chi ei ystyried. Dylid nodi ein bod wedi defnyddio'r ffi gofrestru bresennol ar gyfer athrawon, sef £45, fel sail ar gyfer y model hwn. **Amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn ac ni ddylid eu hystyried fel ffigurau terfynol y cytunwyd arnynt ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg ehangach.** Ar y llaw arall mae strwythur a swyddogaethau ehangach y Cyngor, a fydd wrth reswm yn cael effaith ar lefel y ffi. Mae gwaith ar y gweill i edrych ar strwythur y corff presennol a fydd o gymorth fel sail ar gyfer gwaith ar y ffi. Bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal ar y ffioedd cofrestru, a fydd yn edrych ar y cydbwysedd rhwng lefelau'r ffioedd ar gyfer grwpiau

gwahanol, yn ogystal â hyd a lled y swyddogaethau ehangach y gallai'r Cyngor ymgymryd â hwy a'r manteision a fyddai'n dod yn eu sgil.

289. Amlinellir isod y prif feysydd o gostau ychwanegol a ragwelir yn uwch na gwariant presennol y Cyngor Addysgu Cyffredinol. Dylid nodi y gallai'r costau hyn gynyddu dros amser wrth inni gyflwyno'r gofyniad i'r gweithlu addysg ehangach gofrestru ac wrth i achosion o addasrwydd i ymarfer gael eu cyfeirio at y Cyngor i ymchwilio iddynt.

290. Mae data o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn awgrymu bod tua 14,900 o gynorthwyr addysgu yng Nghymru ym mis Ebrill 2012 y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru o dan yr opsiwn hwn. Gan ragdybio y byddai'r ffi gofrestru yn parhau'n £45 y person, mae hyn yn golygu ffioedd ychwanegol o tua £670,500. Os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrannu £33 o'r ffi £45, yna bydd yn ysgwyddo cost ychwanegol o £491,700, a'r sector addysgu yn cyfrannu'r £178,800 sy'n weddill. Caiff y ffi gofrestru ei defnyddio i ariannu gweithgareddau'r Cyngor Addysgu Cyffredinol. Mae'r model economaidd sydd ynghlwm yn Atodiad 2, y cyfeiriwyd ato uchod, yn cynnig enghreifftiau eraill o'r model.

291. Byddai rhywfaint o gostau i'w hysgwyddo er mwyn sefydlu'r Cyngor cyn i unrhyw ffioedd gael eu casglu oddi wrth y grwpiau newydd. Er enghraifft: costau newid y gronfa ddata cofrestru; costau gweinyddol i gofrestru'r grwpiau newydd; a chostau cyfathrebu/marchnata. Byddai'r costau hynny yn gymharol isel - llai na £100,000.

292. Mae tua £400,000 wedi cael ei glustnodi ar gyfer ymgymryd â gwaith disgyblu'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn 2013-14. Seiliwyd y swm ar gost gyfartalog fesul achos o tua £12,000 ar gyfer achos disgyblu, £1,500 ar gyfer achos yn ymwneud â chais i gofrestru a £2,500 ar gyfer pwyllgor ymchwilio. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau yn y Bil ynghylch dod ag aelodaeth i ben drwy gydsyniad a cherydd drwy gydsyniad yn ystod y cam ymchwilio yn cynnig cyfle i dorri rhywfaint ar y costau presennol.

293. Amcangyfrifir y bydd angen tua £2.3 miliwn o incwm craidd ar y Cyngor i weithredu unwaith y bydd athrawon a staff cymorth wedi eu cofrestru a gwaith disgyblu yn cael ei gyflawni

294. Dylid nodi bod y costau hyn yn seiliedig ar gofrestru'r holl weithlu ar yr un pryd. Er hynny, ein bwriad yw mynd ati'n raddol i gofrestru'r gweithlu, ac rydym yn rhagweld y bydd arbedion effeithlonrwydd ac arbedion maint i'w cael yn sgil mabwysiadu'r model hwn.

Manteision

295. O'i gymharu ag opsiwn 1, byddai'r model hwn yn ein galluogi i sicrhau elfen o gysondeb a chydabyddiaeth ar gyfer ymarferwyr addysg mewn ysgolion. Byddai'n rhoi cyfle i staff addysgu a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion godi eu statws a chodi safonau drwy roi iddynt drefniadau rheoli

perfformiad, datblygiad proffesiynol parhaus a safonau proffesiynol sy'n gyson a pherthnasol.

Risgiau

296. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r materion o sicrhau cysondeb rhwng aelodau'r gweithlu addysg ehangach a rhoi cydnabyddiaeth a statws iddynt. Roedd yn glir o'r ymgynghoriad cyntaf na fyddai'r opsiwn hwn yn mynd yn ddigon pell i godi safonau ar draws y gweithlu addysg. Mae nifer mawr o weithwyr proffesiynol yn y gweithlu addysg, ac mae ychydig dros 8,800 o staff addysgu uniongyrchol yn y sector addysg bellach na fyddai'n ofynnol iddynt gofrestru o hyd. Mewn sectorau eraill, ychydig o ddata a gasglwyd, ac mae hynny felly'n ei gwneud yn anodd cynllunio'r gweithlu ar draws y sector.

297. Mae cryn wahaniaeth rhwng y gofynion o ran y safonau proffesiynol, cymwysterau, hyfforddiant cychwynnol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol parhaus ar draws sectorau gwahanol y gweithlu addysg. Er bod rhai o'r gwahaniaethau hyn yn gwbl briodol ac yn adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol yng ngofynion y sector, mae yna wahaniaethau eraill, mwy artiffisial, sy'n rhwystro cydweithredu a symudedd ymhlith y gweithlu ac sy'n cyfyngu ar ddatblygiad gyrfa. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

298. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cydnabod rôl pob un sy'n gweithio i gefnogi addysgu a dysgu fel rhan o un gweithlu addysg cydlynus yng Nghymru.

Opsiwn 3: Yr opsiwn a ffefrir – Cofrestru a rheoleiddio'r gweithlu addysg ehangach drwy ddiwygio'r Cyngor Addysgu Cyffredinol

Costau

299. Byddai sefydlu corff cofrestru newydd sbon yn dipyn o her, yn enwedig yng ngoleuni'r pwysau ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Byddai'r opsiwn hwn, felly, yn caniatáu inni adeiladu ar brofiad y Cyngor Addysgu Cyffredinol, i greu corff newydd sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth i helpu'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru.

300. O ran ei swyddogaethau craidd, mae'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn gorff hunangyllidol, ac er ein bod yn bwriadu rhoi enw newydd iddo, ac ymestyn a mireinio ei swyddogaethau a'i gylch gwaith, bydd yn parhau'n gorff hunangyllidol o ran ei swyddogaethau craidd ac yn ariannu ei hun drwy godi ffi gofrestru flynyddol.

301. Gallai'r rheoliadau a lunnir yn sgîl y Bil effeithio ar gostau'r Cyngor, neu sy'n codi wrth i'r Cyngor weithredu ar ran Gweinidogion Cymru lle gofynnwn iddynt gyflawni swyddogaethau gweinyddol ar ein rhan. Ystyrir effaith unrhyw gostau wrth i'r rheoliadau sy'n dod â'r swyddogaethau i rym gael eu llunio ac wrth ymgynghori arnynt.

302. Mae gan athrawon brosesau a gofynion sefydlu sydd wedi hen ennill eu plwyf, rhywbeth sy'n statudol i bob athro sy'n cymhwyso. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn derbyn tua £70,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer apeliadau ac ardystio mewn perthynas â sefydlu athrawon. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn newid y broses apelio bresennol i athrawon, felly ni fyddai hyn yn creu costau ychwanegol. Ers sefydlu'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn 2000, cafwyd llai na thair apêl. O ran y gweithlu ehangach, nid oes unrhyw drefniadau sefydlu statudol ar hyn o bryd. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau ar gyfer trefniadau sefydlu i'r gweithlu ehangach yn y dyfodol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru wneud gwahanol drefniadau ar gyfer gwahanol gategorïau'r gweithlu, sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion penodol nhw. Byddem yn ymgynghori'n ffurfiol ar y cynigion hyn ac yn llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel rhan o'r broses.

303. Eisoed mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i hyrwyddo gyrfaedd mewn ysgolion, ond yn hanesyddol mae hyn wedi'i wneud mewn partneriaeth â'r sefydliad perthnasol yn Lloegr. Yn y dyfodol, bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn annibynnol yng Nghymru, ond gan ei ehangu i gynnwys y gweithlu addysg cyfan, er mwyn gallu arbed arian. Y gyllideb ar gyfer y gwaith hwn yng Nghymru fyddai £100,000.

304. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn cael unrhyw gyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei weithgarwch cofrestru a rheoleiddio. Er hynny, mae'r Llywodraeth yn talu tua £1 miliwn drwy Grant Cynnal Refeniw fel cymhorthdal ar gyfer ffi yr athrawon. Ynglwm yn Atodiad 2, ceir model economaidd sy'n seiliedig ar fandiau cyflog a chynyddiadau pensiwn yn y cytundeb terfynol ar y newidiadau i gyfraniadau aelodau'r cynllun pensiwn athrawon ar gyfer 2012-13, i chi ei ystyried. Dylech nodi ein bod wedi defnyddio'r ffi gofrestru bresennol ar gyfer athrawon, sef £45, fel sail ar gyfer datblygu'r model hwn. **Amcangyfrifon yw'r ffigurau hyn ac ni ddylid eu hystyried fel ffigurau terfynol y cytunwyd arnynt ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg ehangach.** Ar y llaw arall mae strwythur a swyddogaethau ehangach y Cyngor, a fydd wrth reswm yn cael effaith ar lefel y ffi. Mae gwaith ar y gweill i edrych ar strwythur y corff presennol a fydd o gymorth fel sail ar gyfer gwaith ar y ffi. Bydd ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal ar y ffioedd cofrestru, a fydd yn edrych ar y cydbwysedd rhwng lefelau'r ffioedd ar gyfer grwpiau gwahanol, yn ogystal â hyd a lled y swyddogaethau ehangach y gallai'r Cyngor ymgymryd â hwy a'r manteision a fyddai'n dod yn eu sgil.

305. Amlinellir isod y prif feysydd o gostau ychwanegol a ragwelir yn uwch na gwariant presennol y Cyngor Addysgu Cyffredinol. Dylid nodi y gallai'r costau hyn gynyddu dros amser wrth inni gyflwyno'r gofyniad i'r gweithlu addysg ehangach gofrestru ac wrth i achosion o addasrwydd i ymarfer gael eu cyfeirio at y Cyngor i ymchwilio iddynt.

306. Byddai rhywfaint o gostau i'w hysgwyddo er mwyn sefydlu'r Cyngor cyn i unrhyw ffioedd gael eu casglu oddi wrth y grwpiau newydd. Er enghraifft, costau newid y gronfa ddata cofrestru, costau gweinyddol i gofrestru'r grwpiau

newydd a chostau cyfathrebu/marchnata. Byddai'r costau hynny yn gymharol isel - tua £150,000.

307. Mae tua £400,000 wedi cael ei glustnodi ar gyfer ymgymryd â gwaith disgyblu'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn 2013-14. Seiliwyd y swm ar gost gyfartalog fesul achos o tua £12,000 ar gyfer achos disgyblu, £1,500 ar gyfer achos yn ymwneud â chais i gofrestru a £2,500 ar gyfer pwyllgor ymchwilio. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau yn y Bil ynghylch dod ag aelodaeth i ben drwy gydsyniad a cherydd drwy gydsyniad yn ystod y cam ymchwilio yn cynnig cyfle i dorri rhywfaint ar y costau presennol.

308. Mae data Ebrill 2012 o'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod tua 72,500 o bobl yn y gweithlu addysg y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru o dan yr opsiwn hwn. O ystyried bod tua 38,000 o athrawon yn cofrestru ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu cynnydd o 34,500 ar y gofrestr. Gan ragdybio y byddai'r ffi gofrestru yn parhau'n £45 y person, mae hyn yn golygu tua £1,552,500 o ffioedd ychwanegol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrannu £33 o'r ffi gofrestru £45, yna bydd yn ysgwyddo cost ychwanegol o £1,138,500, a'r gweithlu cofrestredig yn cyfrannu'r £414,000 sy'n weddill. Caiff y ffi gofrestru ei defnyddio i ariannu gweithgareddau'r Cyngor Addysgu Cyffredinol. Mae'r model economaidd sydd ynghlwm yn Atodiad 2, y cyfeiriwyd ato uchod, yn cynnig enghreifftiau eraill o'r model.

309. Rhagwelir mai'r gost ychwanegol fwyaf i'r Cyngor fydd y gost ynghlwm wrth achosion disgyblu. Unwaith y bydd pob grŵp newydd wedi cofrestru, rydym yn amcangyfrif y bydd angen cyllideb o £900,000 bob blwyddyn ar gyfer cyflawni gwaith achosion. Mae hyn yn gost ychwanegol o £500,000 y flwyddyn. Amcangyfrifir y bydd angen tua £2.7 miliwn o incwm craidd ar y corff newydd i weithredu unwaith y bydd pob grŵp yn cael eu cofrestru a gwaith disgyblu yn cael ei gyflawni.

310. Dylid nodi bod y costau hyn yn seiliedig ar gofrestru'r holl weithlu ar yr un pryd. Er hynny, ein bwriad yw mynd ati'n raddol i gofrestru'r gweithlu, ac rydym yn rhagweld y bydd arbedion effeithlonrwydd ac arbedion maint i'w cael yn sgil mabwysiadu'r model o ymestyn y gofyniad i gofrestru'r gweithlu addysg i gynnwys y gweithlu ehangach.

311. Cysylltwyd â sampl o awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach mewn perthynas â'r cynigion. Cafwyd consensws, gan fod cronfa ddata o gyflogeion a systemau cyflogres awtomatig i'w cael eisoes, na fydd unrhyw gostau ychwanegol iddynt eu hysgwyddo i weinyddu taliadau ffioedd cofrestru ac i wneud unrhyw ad-daliadau.

Manteision

312. Byddai'r opsiwn a ffefrir yn cynnig system gofrestru gadarn a fyddai'n gwella'r modd y caiff y gweithlu addysg ei gynllunio, ei hyfforddi a'i ddatblygu ac a fydd yn cynnig mwy o gysondeb a chydabyddiaeth o gyfraniad y gweithlu addysg cyfan at addysg dysgwyr.

313. Bydd yr opsiwn hwn yn cynnig dull cyson o reoleiddio pob un sy'n gweithio yn y gweithlu addysg ehangach yng Nghymru ac yn dangos mwy o gydraddoldeb yn y modd o drin y gweithlu addysg ehangach o ran cymhwysedd ac ymddygiad.

314. Byddai cynnwys darlithwyr addysg bellach a staff addysgu a staff cymorth dysgu mewn ysgolion ac mewn addysg bellach yn dangos pwysigrwydd eu rôl i godi safonau a byddai'n codi eu statws.

315. Byddai'n golygu cofrestru gyda chorff proffesiynol sy'n gosod safonau proffesiynol ac yn eu cynnal, ac felly'n cadw hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

316. Byddai hefyd yn fuddiol o ran cynnig atebolrwydd, tryloywder a sicrwydd safonau a fyddai'n gyson â pholisïau megis cydweithredu rhwng ysgolion a darparwyr ôl-16 o dan y rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19, a gweithio mewn partneriaeth rhwng cynorthwyyr cymorth dysgu ac athrawon i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

317. Byddai trefn gofrestru ar gyfer y gweithlu addysg ehangach sydd wedi'i chynllunio'n dda, ac a fyddai'n cael ei chyflwyno'n raddol, yn ôl y rhan fwyaf a ymatebodd i'r ymgynghoriad, yn sicrhau bod y gweithlu'n cydymffurfio â safonau proffesiynol, gan godi statws a phroffil pob un sy'n gweithio mewn addysg. Byddai hyn yn arwain at fwy o gydraddoldeb rhwng grwpiau gwahanol o staff addysg ledled Cymru.

Risgiau

318. Gallai fod costau i ymarferwyr addysg eu hysgwyddo mewn perthynas â'r gofyniad i gofrestru. Mae eisoes yn ofynnol i athrawon dalu ffi o £45 i gofrestru. Mae Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru yn talu £33 o'r swm hwn.

Yr opsiwn a ffefrir

319. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd uchod, opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir.

320. Dyma'r prif resymau am ddewis yr opsiwn hwn:

- Mae'n darparu mecanwaith ar gyfer cofrestru'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru.
- Mae cofrestru gyda chorff proffesiynol sy'n gosod safonau proffesiynol ac yn eu cynnal, ac felly'n cadw hyder y cyhoedd, yn allweddol.
- Mae rheoliadau yn cynnig manteision o ran atebolrwydd, tryloywder a sicrwydd safonau drwy sicrhau bod y proffesiwn cyfan yn rhannu cyfrifoldeb.

- Mae'r gweithlu addysg ehangach yn chwarae rôl hanfodol i ddarparu addysg i ddysgwyr yng Nghymru. Mae parhau i gofrestru athrawon yn unig yn edrych yn anghyson ac mae fel petai'n tanseilio'r rhan hanfodol y mae pob un yn ei chwarae fel rhan o'r gweithlu addysg ehangach.
- Bydd y gweithlu addysg ehangach yn gallu manteisio ar gymwysterau, cefnogaeth a datblygiad sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae eu proffesiynoldeb, addasrwydd, safonau ymddygiad, hyfforddiant a datblygiad yn allweddol i'w llwyddiant a bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn gyfrwng ar gyfer datblygu'r llwyddiant hwn.
- Mae'n darparu dull cyson o gofrestru, disgyblu ac o ddarparu datblygiad proffesiynol ar draws y gweithlu addysg yng Nghymru.

Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig

Opsiwn 1: Gwneud dim - parhau â'r ddeddfwriaeth bresennol

Costau

321. Nid yw'r broses bresennol yn arwain at gostau sylweddol, ond mae'n golygu oedi diangen yn y broses o leoli dysgwr sydd ag AAA mewn ysgol annibynnol sydd heb ei chymeradwyo o dan adran 347 Deddf Addysg 1996 i dderbyn y disgybl hwnnw. Mae swyddogion awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn cyfnewid gwaith papur am gyfnod llai na 30 awr, yn ôl amcangyfrif, am gost sy'n llai na £500. Mae profiad blaenorol yn dangos bod hyn yn cymryd 6-8 wythnos.
322. O dan yr opsiwn hwn ni fyddai ysgolion annibynnol na Estyn yn wynebu costau ychwanegol.

Manteision

323. Manteision dibynnu ar y broses bresennol yw bod yr awdurdodau lleol ac ysgolion annibynnol yn gyfarwydd â'r broses sefydledig hon. Mae gan yr awdurdod lleol sicrwydd gan Lywodraeth Cymru drwy Estyn fod y system yn ddiogel. Ni fyddai'n rhaid i ysgolion annibynnol wneud cais i newid eu cofrestriad presennol gyda Llywodraeth Cymru.

Risgiau

324. O dan yr opsiwn hwn byddai awdurdodau lleol sy'n ceisio lleoli disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion annibynnol yn parhau i orfod defnyddio system or-fiwrocrataidd sy'n arwain at oedi diangen o 6-8 wythnos. Hefyd, byddai'r cyfrifoldeb am sicrhau darpariaeth addysgol briodol ar gyfer plant sydd â datganiad AAA yn parhau i gael ei rannu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn hytrach na disgyn ar yr awdurdodau lleol yn unig, sydd â dyletswydd

statudol i sicrhau darpariaeth addysgol briodol.

Costau Pontio (untro): dim

Costau Blynyddol ar Gyfartaledd (ac eithrio costau untro): dim

Opsiwn 2: Diwygio trefn cofrestru a chymeradwyo ysgolion annibynnol mewn perthynas ag anghenion addysgol arbennig - yr opsiwn a ffefrir

Costau

325. Mae Opsiwn 2 yn dibynnu ar gofrestru ysgolion annibynnol i dderbyn dysgwyr sydd â datganiadau AAA gan ddefnyddio'r broses gofrestru ddiwygiedig o dan a160 Deddf Addysg 2002. Bydd y cynnig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol nodi pa fath o AAA y maent yn darparu ar eu cyfer pan yn cofrestru. Byddai'r gofyniad i gofrestru yn golygu y byddai cost untro i Lywodraeth Cymru i weinyddu'r ceisiadau am newid defnydd sylweddol ar gyfer ysgolion annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd i dderbyn disgyblion o dan a347, cost yr amcangyfrifir sy'n llai na £500.
326. Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar gyfer y rhai hynny sy'n rhan o'r broses newydd, a'r amcangyfrif o'r gost fydd 20% o 1 Band D cyfwerth ag amser llawn am 4 mis = £2,600. Ni fyddai costau ychwanegol i awdurdodau lleol.
327. O dan yr opsiwn hwn bydd pob ysgol sy'n darparu ar gyfer plant sydd â datganiad AAA o fewn y cytundeb gydag Estyn am ymweliadau monitro. Byddai'r drefn fonitro fwy eang yn golygu y byddai Estyn yn gorfod talu costau cynnal mwy o ymweliadau monitro ag ysgolion yr amcangyfrifir sy'n 5 wythnos ychwanegol i arolygwr EM amser llawn sy'n ennill cyflog o £61,880 gan ychwanegu 20% ar gyfer costau, sy'n golygu amcangyfrif o £7,100 o gost ychwanegol. Bydd Estyn yn gorfod talu'r costau cyfieithu a sicrhau bod crynodeb o'r ymweliadau monitro blynyddol ar gael ar eu gwefan, yr amcangyfrifir fydd yn £5,000.
328. Mae ysgolion annibynnol yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn derbyn unigolion sydd â datganiad AAA o dan drefn bresennol a347 yn destun arolwg cyfnodol. O dan opsiwn 2 bydd angen i'r ysgolion hyn wneud cais am newid sylweddol o dan a162 Deddf Addysg 2002 a chael eu monitro yn flynyddol. Byddai'n berthnasol i ryw 12 o ysgolion Annibynnol yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd y gost o wneud cais am newid sylweddol i'w cofrestriad yn 2 awr yr ysgol, ac amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost, o gyfrif pob ysgol, yn llai na £500. O ran y cynnydd mewn monitro, amcangyfrifir na fydd costau ychwanegol gan fod ysgolion yn cael eu paratoi ar gyfer ymweliadau monitro ar unrhyw adeg.

Costau Pontio (untro):	
Y gost i Lywodraeth Cymru o lunio canllawiau a gweinyddu ceisiadau	£3,100
Y gost i ysgolion annibynnol o gofrestru o dan a160 o Ddeddf Addysg 2002	£500

Costau Blynyddol ar Gyfartaledd (ac eithrio costau untro):	
Y gost i Estyn o fwy o ymweliadau monitro blynyddol	£7,100
Y gost i Estyn o gyhoeddi adroddiadau monitro blynyddol	£5,000

Manteision

329. Bydd opsiwn 2 yn golygu arbed amser sylweddol yn y broses o leoli plentyn sydd â datganiad AAA mewn ysgol annibynnol.

330. O dan Opsiwn 2 bydd yn ofynnol i ysgol annibynnol gofrestru gyda Gweinidogion Cymru os ydynt yn bwriadu derbyn disgyblion sydd â datganiad AAA ac i ddarparu gwybodaeth am y math o ddarpariaeth fydd yn cael ei gynnig. Bydd y newid hwn i'r broses gofrestru yn golygu y bydd gwybodaeth fwy diweddar ar gael i'r cyhoedd am y ddarpariaeth AAA sydd gan ysgol i'w chynnig. Bydd hyn yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn y broses o leoli plentyn sydd â datganiad AAA mewn ysgol annibynnol.

331. Bydd y drefn fonitro ehangach o dan yr opsiwn hwn yn golygu y bydd mwy o wybodaeth am allu'r ysgol i ddarparu ar gyfer disgyblion AAA a safon yr addysg a ddarperir ar gael i ddisgyblion, rhieni ac awdurdodau lleol. Bydd hefyd yn cyfrannu tuag at gynyddu tryloywder a diogelwch disgyblion.

Risgiau

332. Mae perygl i ysgolion annibynnol fethu â chofrestru o dan drefn a160 a thrwy hynny gyfyngu ar allu awdurdodau lleol i sicrhau yr addysg fwyaf addas i blant sydd ag AAA yn yr amser byrraf posibl. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio lliniaru'r risg hon drwy gysylltu â phob ysgol annibynnol yng Nghymru a chyhoeddi'r canllawiau perthnasol ar eu gwefan. Mae risg hefyd nad oes gan Estyn ddigon o gapasiti i gynnal mwy o ymweliadau monitro blynyddol.

Yr opsiwn a ffefrir

333. O ystyried manteision mwy o dryloywder i ddysgwyr a rhieni, a phroses gyflymach o sicrhau lleoliadau mewn ysgolion annibynnol i ddysgwyr sydd ag AAA, **Opsiwn 2** yw'r opsiwn a ffefrir. Ar y cyfan, bydd y

cynnydd mewn costau monitro a'r costau pontio untro a amcangyfrifir yn werth am arian gan roi mwy o dryloywder, cymryd llai o amser i sicrhau lleoliadau a lleihau biwrocratiaeth o dan yr opsiwn hwn.

Rhoi'r cyfrifoldeb am asesu yr angen am addysg ôl-16 i ddysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu, a threfnu'r ddarpariaeth honno, i awdurdodau lleol

Opsiwn 1: Gwneud dim - parhau â'r ddeddfwriaeth bresennol

334. O dan yr opsiwn hwn, bydd y broses bresennol o sicrhau addysg ôl-16 ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn cael ei chadw. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol felly yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae'r paragraffau canlynol yn sefydlu cost y broses bresennol o drefnu addysg ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu a'u bwriad yw llywio'r broses o ddadansoddi yr opsiynau eraill.

Costau

Y gost i Lywodraeth Cymru

335. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflogi 6 aelod staff ar hyn o bryd i brosesu ceisiadau ac i drafod gydag awdurdodau lleol, colegau a Gyrfa Cymru. Yn 2012, derbyniwyd 85 cais am gyllid arbenigol, 70 ohonynt yn galw am ragor o wybodaeth gan wasanaethau eraill cyn i benderfyniad gael ei wneud. Mae'r ceisiadau hyn yn arwain at Adolygiadau Barnwrol ar brydiau, a'r tîm hwn fydd yn delio â hwy. Yn 2012, cyfanswm cost delio â'r Adolygiadau oedd £9,600.

336. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i alluogi dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu i gael mynediad i addysg bellach/hyfforddiant drwy Grantiau Arbenigol, Atodol ac Eithriadol. Cyfanswm y grantiau hyn oedd £16,556,000 yn 2012/13. Cafodd y gwerth hwn ei nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn at ddibenion dangosol yn unig. Mae'r union gyllideb sydd ar gael ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd ag anawsterau dysgu, yn y dyfodol, yn destun trafodaethau cyllidebol.

Y gost i Gyrfa Cymru

337. Mae Gweinidogion Cymru yn trefnu o dan adran 140 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 i Gyrfa Cymru gynnal yr holl asesiadau ar gyfer dysgwyr sydd â datganiadau AAA wrth ddechrau addysg bellach. Yn 2012 cynhaliwyd 1,307 asesiad ar gyfer dysgwyr â datganiadau a 91 ar gyfer y rhai heb ddatganiadau oedd ag anghenion cyfatebol. Amcangyfrif o gost cynnal yr asesiadau hyn yw £130 y dysgwr. Mae hyn yn cyfateb â chyfanswm cost o oddeutu £182,000 y flwyddyn. Nid yw'r gost hon yn cynnwys costau cyfarfod â dysgwyr a thrafod opsiynau gyrfaoedd gan y

darperir hyn ar gyfer pob myfyriwr, y rhai sydd â datganiad AAA neu beidio. Mae'r ffigur isod yn amcangyfrif o gost prosesu cais am gymorth ariannol i alluogi dysgwr sydd ag anawsterau dysgu i gael mynediad i addysg bellach/hyfforddiant.

Y gost i awdurdodau lleol

338. O'r 85 o geisiadau am gyllid arbenigol a dderbyniwyd yn 2012, roedd 70 yn galw am ragor o wybodaeth gan y gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol cyn bod modd gwneud penderfyniad. Yn 2012, cafodd 77% o leoliadau arbenigol eu hariannu ar y cyd gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, roedd hyn yn golygu trafodaeth am lefelau cyfraniadau. Nid oes disgwyl i amcangyfrif y gost o ddelio â cheisiadau am wybodaeth /trafodaethau o anghenion dysgwyr newid o dan yr opsiynau gwahanol a amcangyfrifir. Nid yw'r angen i gyfnewid gwybodaeth wedi'i gyfrifo felly gan nad yw'n cael llai neu fwy o effaith o dan y gwahanol opsiynau.

Y gost i fyrddau iechyd lleol, sefydliadau'r trydydd sector ac ati

339. O dan y system bresennol mae'n bosib y bydd angen gofyn i sefydliadau eraill megis byrddau iechyd lleol a sefydliadau'r trydydd sector am yr wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad am gais am leoliad/cymorth arbenigol i gael mynediad i addysg bellach. O ran Opsiynau 1, 2 a 4, nid yw hyn yn debygol o newid. Er enghraifft, o dan Opsiwn 4 byddai BILL yn ymateb i alwad am wybodaeth gan yr awdurdod lleol yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Nid yw'r costau hyn wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan nad ydynt yn gwahaniaethu o dan bob gwerthusiad effaith.

Y gost i'r sector addysg bellach yng Nghymru

340. O dan y trefniadau cyllido presennol, mae sefydliadau addysg bellach yn llenwi ceisiadau am gyllid ar gyfer cyllido eithriadol ac yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Yn 2012, cafodd 166 o ddysgwyr eu cynorthwyo yn y ffordd hon, gan eu galluogi i gael mynediad i gyllid addysg bellach brif ffrwd. Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg bellach hefyd gadw gwaith papur sy'n gysylltiedig â gweithgarwch cyllido atodol. Mae'r amcangyfrif o gost y broses weinyddol hon wedi'i gyfrifo yn £32 y dysgwr.

Tabl 1 - Cost flynyddol yr opsiwn Gwneud Dim

Costau Blynyddol**Llywodraeth Cymru**

Prosesu ceisiadau £179,000

Trefnu dysgwyr ag anawsterau a/neu
anableddau dysgu £16,556,000

Cyfanswm £16,735,000

Gyrfa Cymru

Asesu anghenion £182,000

Sector Addysg Bellach

Prosesu ceisiadau £5,300

Cyfanswm £16,922,300

341. Cyfanswm cost blynyddol yr opsiwn Gwneud Dim yw £16,922,300.

Manteision

342. Mae rhan fwyaf y dysgwyr yn cael mynediad i addysg a hyfforddiant sy'n addas at eu hanghenion drwy'r sector addysg bellach yng Nghymru. Mae'r sector addysg bellach yn darparu cymhorthion ac addasiadau ar gyfer dysgwyr sydd â lefel anghenion isel i gael mynediad i gyrsiau addysg bellach brif ffrwd. Ble y mae ganddynt fwy o anghenion fel cymorth 1:1 ac offer arbenigol mae'r coleg addysg bellach yn prynu hwn ac yn hawlio'r gost o Grant Cyllido Eithriadol Llywodraeth Cymru. Mae cannoedd o ddysgwyr bob blwyddyn yn derbyn cymorth drwy'r Grant Atodol. Y llynedd derbyniodd 166 o ddysgwyr gymorth drwy'r Grant Cyllido Eithriadol.

Risgiau

343. O dan y system bresennol byddai pobl ifanc yng Nghymru sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn parhau i ddioddef yn sgil cynllunio pontio gwael pan yn gadael yr ysgol ac yn dechrau addysg bellach.

344. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i dderbyn ceisiadau hwyr, heb eu cwblhau, am addysg bellach arbenigol ac yn cael eu cyfyngu yn eu gallu i ddelio â hwy yn gyflym ac yn effeithiol.

345. Nid oes cymhelliad i awdurdodau lleol gynllunio'n gynnar gyda sefydliadau addysg bellach i sicrhau bod addysg/hyfforddiant addas ar gael i ddysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

Opsiwn 2: Rhoi'r cyfrifoldeb am asesu yr angen am yr holl ddarpariaeth ôl-16 i ddysgwyr sydd ag Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu, trefnu'r ddarpariaeth honno a'i chyllido, i awdurdodau lleol.

346. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r cyfrifoldeb am gyllido a sicrhau addysg/hyfforddiant yn trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. O ganlyniad, byddai nifer o gostau yn trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol

Y gost i Lywodraeth Cymru

347. Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau i egluro'r trefniadau newydd ac i egluro'r newidiadau mewn cyfrifoldebau. Amcangyfrifir bod cost cynhyrchu'r canllaw hwn yn £19,100 (hyn yn seiliedig ar 0.5 x Band E ac 20% o Radd 7 am 6 mis).

348. Bydd cost i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â hyfforddi aelodau TAAAC ar y system newydd. Amcangyfrifir y bydd cost yr hyfforddiant hwn tua £5,800, yn seiliedig ar y raddfa ddyddiol ar gyfer 10 aelod lleyg, 4 Cadeirydd, un Llywydd ac yn cynnwys dyraniad ar gyfer teithio a chynhaliaeth. Amcangyfrifir bod cost y cyngor arbenigol ar gyfer yr hyfforddiant hwn yn £7,000, yn seiliedig ar gyfraddau proffesiynol gwasanaethau cyfreithiol. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost ar gyfer hyfforddi aelodau TAAAC felly yn £12,800.

349. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant hefyd i awdurdodau lleol i egluro'r system newydd. Disgwylir i'r hyfforddiant gael ei ddarparu ar lefel consortia addysg lleol. Amcangyfrifir y bydd cost datblygu a darparu'r hyfforddiant yn £2,500 (yn seiliedig ar 5% o 1 x SEO).

350. Yn y blynyddoedd cyntaf, mae disgwyl i'r newidiadau arwain at gynnydd yn nifer yr apeliadau sy'n cael eu hanfon at TAAAC. Ar hyn o bryd mae 0.6% o ddysgwyr sydd â datganiad AAA yn cyflwyno apêl i TAAAC. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr ôl-16 sy'n dwyn apêl ymlaen yn debygol o fod yn fwy gan nad yw'r system newydd wedi'i phrofi a gallai godi problemau. Mae amcangyfrif o'r cynnydd mewn costau i ddelio â'r apeliadau ychwanegol i TAAAC yn seiliedig ar gynnydd o 1% yn y dysgwyr fydd yn dwyn apêl ymlaen (sef 14) ar gost a amcangyfrifir sy'n £1,766 yr un. Amcangyfrifir y bydd cost yr apeliadau ychwanegol hyn yn £24,724.

Y gost i Gyrfa Cymru

351. Dim

Y gost i awdurdodau lleol yng Nghymru

352. Byddai Awdurdodau Lleol dan ddyletswydd i sicrhau bod gwybodaeth am y broses newydd ar gael i'r cyhoedd. Gellir cyflawni'r gofyniad drwy

erthygl ar y wefan, a phe byddai digon o amser i newid gwybodaeth wedi'i hargraffu, amcangyfrifir y byddai'r gost o dan £500 i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost untro felly yn £11,000.

353. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol fynychu sesiwn hyfforddi untro ar y system newydd. Amcangyfrifir y bydd cost un diwrnod o hyfforddiant i un aelod staff ar y lefel briodol yn £300 fesul awdurdod. Cyfanswm cost o £6,600.
354. O dan Opsiwn 2 bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am asesu anghenion dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn eu blwyddyn olaf o addysg. Fel y nodwyd uchod, Gyrfa Cymru sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth hon ar hyn o bryd, wedi'i drefnu gan Lywodraeth Cymru. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, amcangyfrifir na fydd y gost i awdurdodau lleol o asesu anghenion pobl ifanc sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu sy'n gadael yr ysgol ac yn dechrau addysg bellach ddim mwy na'r broses sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd gan Gyrfa Cymru. Cymerir y bydd y gost felly yn £182,000 y flwyddyn. Mae posibilrwydd o arbed costau gan y byddai'n bosib i awdurdodau lleol gymryd rhan mewn cynllunio pontio yn gynt a byddai'n hawdd iddynt gael gafael ar wybodaeth am ofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru wneud cais i'r awdurdod lleol am yr wybodaeth. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'n ansicr a oes modd arbed y costau hynny.
355. O dan yr opsiwn hwn, bydd y cyfrifoldeb am brosesu ceisiadau am ddarpariaeth addysg neu hyfforddiant arbenigol yn cael ei drosglwyddo o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae gan Lywodraeth Cymru dîm o 6 o bobl ar hyn o bryd i brosesu'r ceisiadau hyn ac i drafod gyda cholegau addysg bellach ac awdurdodau lleol. Caiff y gwaith hwn ei rannu rhwng y 22 awdurdod lleol, fodd bynnag, cymerir bod y gost yn cyfateb yn gyffredinol â'r gost sy'n cael ei thalu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru - oddeutu £179,000 y flwyddyn.
356. Byddai'r gost o fodloni anghenion dysgwyr sy'n dymuno cael mynediad i ddarpariaeth addysg bellach arbenigol a phrif ffrwd (gan gynnwys llety preswyl) yn trosglwyddo o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn mae disgwyl i'r gost hon ymdebygu i'r gost y mae Llywodraeth Cymru yn ei thalu ar hyn o bryd, oddeutu £16,556,000 y flwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar wariant yn 2012/13 ac nid yw'n dangos beth fydd y lefelau cyllido yn y dyfodol, a fyddai'n destun trafodaeth.
357. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r awdurdod lleol yn gorfod talu'r costau mwy o ddelio gydag apeliadau i TAAAC ar gyfer 14 o ddysgwyr. Amcangyfrifir nad yw cost yr apeliadau hyn yn fwy na'r gost i Lywodraeth Cymru, yr amcangyfrifir sy'n £24,724.

358. Byddai'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael. Ar hyn o bryd, mae SNAP yn darparu gwasanaethau eiriolaeth i bron bob Awdurdod Lleol ar gyfer apeliadau i TAAAC. Maent wedi amcangyfrif bod cost darparu cymorth ar gyfer apêl i TAAAC yn £1,500 y dysgwr. Ar gyfer yr 14 o apeliadau ychwanegol y flwyddyn a ragwelir, mae hyn yn cyfateb â chost ychwanegol o £21,000.

Y gost i'r sector addysg bellach yng Nghymru

359. Mae darparwyr addysg bellach yn cael mynediad i gyllid ar gyfer dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol drwy'r grantiau cyllido Atodol ac Eithriadol ar hyn o bryd. Mae'r darparwyr addysg bellach yn rheoli'r gronfa atodol eu hunain ac nid ydynt ar hyn o bryd yn gwneud cais am gyllid ar gyfer pob unigolyn. Maent hefyd yn ychwanegu at y grant o'u hadnoddau eu hunain, ac mae'n annhebygol y byddant yn gwneud hyn unwaith y bydd dull o hawlio holl gostau cynorthwyo dysgwr drwy'r awdurdod lleol.

360. O dan Opsiwn 2, byddai'n rhaid i'r coleg wneud cais am gyllid ar gyfer pob dysgwr sydd angen cymorth, sef pob dysgwr sy'n mynychu addysg bellach gyda chymorth ariannol ychwanegol sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd drwy'r cronfeydd eithriadol ac atodol. Bydd y newid hwn yn golygu costau gweinyddol ychwanegol. Amcangyfrifir y bydd pob cais yn golygu cost o ychydig dros £32 i'r darparwr addysg bellach. Y llynedd, cafodd cyfanswm o 582 o ddysgwyr eu cynorthwyo fel hyn. A chymryd nad yw nifer y dysgwyr yn newid, amcangyfrifir y bydd y gost ychwanegol i'r sector addysg bellach oddeutu £18,600.

Tabl 2 - Costau pontio a blynyddol yn Opsiwn 2

<u>Costau Pontio</u>	
Llywodraeth Cymru	
Canllawiau	£19,100
Hyfforddiant ar gyfer aelodau TAAAC	£12,800
Hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol	£2,500
Cyfanswm	£34,400
Awdurdodau Lleol	
Hyfforddiant ar system newydd	£6,600
Darparu gwybodaeth ar system newydd	£11,000
Cyfanswm	£17,600
Cyfanswm y Costau Pontio	£52,000
<u>Costau Blynyddol</u>	
Llywodraeth Cymru	
TAAAC – apeliadau ychwanegol	£24,700
Awdurdodau Lleol	

Prosesu Ceisiadau	£179,000
Asesu anghenion	£182,000
Cyllido dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu	£16,556,000
Gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer apeliadau ychwanegol	£21,000
Delio gydag apeliadau gwahanol i TAAAC	£24,700
Cyfanswm	£16,962,700
Sector Addysg Bellach	
Cais am gyllid ar gyfer dysgwyr unigol	£18,600
Cyfanswm Costau Blynyddol	£17,006,000

361. Mae cymharu Tabl 1 a Thabl 2 yn dangos bod gan Opsiwn 2 gostau blynyddol ychwanegol o oddeutu £83,700 o gymharu â'r opsiwn 'Gwneud dim'. Cyfanswm y costau pontio ar gyfer yr opsiwn hwn yw £52,000.

Manteision

362. Mae awdurdodau lleol yn dechrau cynllunio pontio yn gynt ac yn dechrau edrych ar y costau a'r cyfraniad tebygol gan y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion gofal yn gynt. Mae gan awdurdodau lleol gymhelliad mwy i edrych ar bob opsiwn ar gyfer bodloni anghenion myfyrwyr, gan gynnwys edrych ar sefydlu consortia rhanbarthol i ddarparu ar gyfer dysgwyr sydd â llawer o anghenion gan gynnwys llety preswyl. Mae'r dystiolaeth o anghenion addysg a hyfforddi dysgwyr i gyd o fewn un sefydliad, felly nid oes angen cwblhau cais a gweithdrefn asesu ar wahân.

Risgiau

363. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd risg yn gysylltiedig ag opsiwn 2. Mae'r rhain yn cynnwys y risg o danbrizio anghenion dysgwr yn ystod asesiad, a'r angen i awdurdodau lleol brosesu ceisiadau ar gyfer pob dysgwr sydd ag anghenion ychwanegol, sy'n arwain at fiwrocratiaeth ddiangen. Ni fyddai gan addysg bellach unrhyw gymhelliad, os o gwbl, i gynorthwyo dysgwyr sydd â lefelau isel o anghenion a fyddai'n cynyddu'r pwysau ar gyllidebau awdurdodau lleol. Mae perygl o gynnydd mewn apeliadau i TAAAC a fyddai'n arwain at oedi, a'r cymhelliad posib i awdurdod lleol roi dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu ar gyrsiau ar wahân yn hytrach na thalu costau cymorth ychwanegol i'w galluogi i gael mynediad i gyrsiau addysg bellach brif ffrwd.

Opsiwn 3: Rhoi'r cyfrifoldeb am asesu yr angen am ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anabledau dysgu, a threfnu'r ddarpariaeth honno, i awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am dalu costau a bennir mewn perthynas â throthwy penodol (£x)

364. Gan fod yr opsiwn hwn yn ymddangos yn anhylaw ac yn wrthgynhyrchiol, fe'i diystyrwyd fel opsiwn realistig. Oherwydd hyn, nid yw'r asesiad o gostau a manteision yr opsiwn hwn, yn Adran 8 isod, wedi'i gwblhau.

Opsiwn 4: Rhoi'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol am drefnu asesiad o anghenion addysgol a sicrhau darpariaeth ôl-16 arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Rhoi'r cyfrifoldeb i awdurdodau lleol am sicrhau darpariaeth arbenigol, gan gynnwys llety preswyl, gan unrhyw ddarparwr ar wahân i'r sector addysg bellach. Llywodraeth Cymru i sicrhau darpariaeth ar gyfer addysg a hyfforddi a chyllido sefydliadau addysg bellach i'w galluogi i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â sicrhau mynediad ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu - yr opsiwn a ffeirir

365. Fel gydag Opsiwn 2, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at roi rhagor o gyfrifoldebau i awdurdodau lleol a bydd yn arwain at drosglwyddo nifer o gostau o Lywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol.

Y gost i Lywodraeth Cymru

366. O dan yr opsiwn hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn cadw'r ddyletswydd gyffredinol i ddarparu addysg a hyfforddiant pellach. Bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i roi arian ar gyfer cymorth ychwanegol i alluogi dysgwyr ag anawsterau a/neu anableddau dysgu i gael mynediad i gyrsiau addysg bellach brif ffrwd drwy'r grantiau cyllido atodol ac eithriadol presennol. Byddai pob cyfrifoldeb arall yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau lleol. Roedd y cyllid ar gyfer addysg atodol ac eithriadol mewn addysg bellach brif ffrwd yn 2012/13 oddeutu £7,484,000.

367. Fel gydag Opsiwn 2, bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu canllawiau ac yn hyfforddi awdurdodau lleol i egluro'r broses newydd a'u cyfrifoldebau newydd. Cymerir mai yr un fydd y gost â'r gost o dan Opsiwn 2, sef £19,100 ar gyfer y canllawiau a £2,500 ar gyfer yr hyfforddiant.

368. Bydd cost i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â hyfforddi aelodau TAAAC ar y system newydd. Amcangyfrifir y bydd cost yr hyfforddiant hwn tua £5,800, yn seiliedig ar y raddfa ddyddiol ar gyfer 10 aelod lleyg, 4 Cadeirydd, un Llywydd ac yn cynnwys dyraniad ar gyfer teithio a chynhaliadau. Amcangyfrifir bod cost y cyngor arbenigol ar gyfer yr hyfforddiant hwn yn £7,000, yn seiliedig ar gyfraddau proffesiynol gwasanaethau cyfreithiol. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost ar gyfer hyfforddi aelodau TAAAC felly yn £12,800. Fel gydag Opsiwn 2, disgwylir i'r newidiadau arwain at gynnydd yn nifer yr apeliadau i TAAAC. Mae'r cynnydd a amcangyfrifir yn y gost i ddelio â'r apeliadau ychwanegol i TAAAC yn seiliedig ar gynnydd o 1% (hy 14 o ddysgwyr) ar amcangyfrif o £1,766 yr un. Amcangyfrifir mai cost yr apeliadau ychwanegol hyn fydd £24,724.

369. Byddai trosglwyddo rhai swyddogaethau i awdurdodau lleol yn golygu y bydd yn bosibl i Lywodraeth Cymru gyflawni ei dyletswyddau gyda gweithlu llai (o gymharu â'r opsiwn 'Gwneud Dim'). Ni fydd yr awdurdod lleol bellach yn cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllido arbenigol. Bydd hyn yn golygu arbedion cost i Lywodraeth Cymru o beidio â gorfod delio â'r ceisiadau hynny.
370. Amcangyfrifir y bydd y gost weinyddol a delir gan Lywodraeth Cymru oddeutu £76,000 y flwyddyn (yn seiliedig ar 0.25 x SEO, 1 x HEO ac 1 x TSO).

Y gost i Gyrfa Cymru

371. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol i Gyrfa Cymru. Eu rôl nhw fydd rhoi cyngor a chanllawiau ar yrfaeodd, ac efallai y bydd gofyn iddynt gynnig arbenigedd ar brydiau, ond ni fyddant bellach dan gontract i gynnal asesiadau 'adran 140' fel y gwnânt ar hyn o bryd.

Y gost i awdurdodau lleol

372. Bydd angen un diwrnod o hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr awdurdodau lleol. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio oddeutu £6,600.
373. Bydd cost pontio i awdurdodau lleol ar gyfer sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar y system. Amcangyfrifir y bydd hyn yn costio oddeutu £500 fesul awdurdod lleol neu gyfanswm o £11,000.
374. Fel gydag Opsiwn 2, mae'r opsiwn hwn yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i asesu anghenion dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau dysgu ar gyfer addysg bellach. Caiff yr asesiad hwn ei gynnal ar ran Llywodraeth Cymru gan Gyrfa Cymru. Amcangyfrif y gost o gynnal oddeutu 1,400 asesiad y flwyddyn yw £182,000. Fel a nodir o dan Opsiwn 2, efallai bod posibilrwydd o arbed costau gan y byddai awdurdodau lleol yn gallu cyfrannu at gynllunio pontio yn gynt, a bydd yn hawdd iddynt gael gafael ar wybodaeth am ofal cymdeithasol y mae'n rhaid i Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd wneud cais i awdurdodau lleol amdani. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r arbedion costau hyn yn ansicr a chymerir bod amcangyfrif y gost o gynnal yr asesiadau hyn at ddibenion y gwerthusiad opsiynau hwn yr un fath i awdurdodau lleol ac i Gyrfa Cymru.
375. Pan nad yw'n bosib bodloni anghenion dysgwr yn y sector addysg bellach, yna byddai'r awdurdod lleol yn gyfrifol am drefnu'r ddarpariaeth, gan gynnwys llety preswyl ble y bo angen. Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r cyllid hwn ar hyn o bryd o dan y grant cyllido arbenigol, sef cyfanswm o £9.072 miliwn yn 2012/13. Nid yw hyn yn dangos beth fydd y dyraniad cyllid yn y dyfodol sy'n destun trafodaeth.

376. Ar hyn o bryd mae'r system yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer lleoliadau arbenigol. O dan yr opsiwn hwn ni fydd yn rhaid i awdurdodau lleol bellach fynd drwy'r broses gais honno, gan arwain at arbedion cost cyffredinol.
377. O ystyried yr hawl newydd i apelio i TAAAC mae'n bosib y bydd yr awdurdod lleol yn rhan o nifer cynyddol o apeliadau i TAAAC. Fel yn Opsiwn 2, amcangyfrifwyd mai lefel yr apeliadau fydd 1%, neu 14 apêl, gyda chost ychwanegol o £24,700.
378. Fel yn Opsiwn 2, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i rieni a dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu. Amcangyfrifir y bydd cost ychwanegol yr eiriolaeth hon sy'n gysylltiedig â'r cynnydd a ragwelir mewn apeliadau yn £21,000.

Y gost i'r sector addysg bellach yng Nghymru

379. Bydd y gost o fodloni anghenion dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn parhau i gael ei thalu drwy fformiwla gyllido flynyddol. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i'r sector addysg bellach ar wahân i'r gost o brosesu ceisiadau am gyllid eithriadol a nodir o dan Opsiwn 1 – Gwneud Dim, sef tua £5,300. Fel ar hyn o bryd, mae sefydliadau addysg bellach yn debygol o barhau i fodloni anghenion dysgwyr sydd angen lefel isel o ymyrraeth i gael mynediad i gyrsiau prif ffrwd, heb gwblhau cais am gyllid ar gyfer pob dysgwr, sydd ddim yn gost effeithiol.

Tabl 3 - Costau pontio a chostau blynyddol yn Opsiwn 4

<u>Costau Pontio</u>	
Llywodraeth Cymru	
Canllawiau	£19,100
Hyfforddiant ar gyfer aelodau TAAAC	£12,800
Hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol	£2,500
Cyfanswm	£34,400
Awdurdodau Lleol	
Hyfforddiant ar system newydd	£6,600
Darparu gwybodaeth ar system newydd	£11,000
Cyfanswm	£17,600
Cyfanswm y Costau Pontio	£52,000
<u>Costau Blynyddol</u>	
Llywodraeth Cymru	
Prosesu ceisiadau ar gyfer y rhai hynny sy'n gallu mynychu addysg bellach brif ffrwd	£76,000
Cyllido ar gyfer addysg bellach brif ffrwd	£7,484,000
TAAAC – apeliadau ychwanegol	£24,700
Cyfanswm	£7,584,700
Awdurdodau Lleol	
Asesu anghenion	£182,000
Darparu addysg/hyfforddiant arbenigol	£9,072,000
Gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer apeliadau ychwanegol	£21,000
Delio gydag apeliadau i TAAAC	£24,700
Cyfanswm	£9,299,700
Sector Addysg Bellach	
Prosesu ceisiadau	£5,300
Cyfanswm Costau Blynyddol	£16,889,700

380. Fel gydag Opsiwn 2, y costau pontio sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yw £52,000. Mae cymharu Tabl 3 gyda Thabl 1 yn dangos bod costau blynyddol Opsiwn 4 oddeutu £32,600 yn is na'r opsiwn 'Gwneud Dim'. Mae hyn o ganlyniad i'r costau is ar gyfer prosesu ceisiadau (ar gyfer y rhai sydd angen addysg arbenigol) yn yr opsiwn hwn.

Manteision

381. Fel nawr, gall rhan fwyaf y dysgwyr sy'n dymuno cael mynediad i addysg bellach wneud hynny heb i'r sector addysg bellach neu'r awdurdod lleol

orfod llenwi ffurflenni cais am gyllid i dalu costau y cymorth ar gyfer ymyriadau lefel isel.

382. Bydd y cynllunio pontio (gan gynnwys casglu tystiolaeth) i ddysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu yn dechrau'n gynt a byddai gan awdurdodau lleol gymhelliad i edrych am ystod ehangach o opsiynau i fodloni anghenion dysgwyr.
383. Byddai'n arbed costau gan na fyddai'n rhaid i awdurdodau lleol bellach wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer lleoliadau arbenigol. O dan yr opsiwn hwn, byddai asesu angen dysgwr yn rhan o'r broses o gynllunio pontio yn hytrach na bod yn broses gais ar wahân, a byddai'n rhan o'r adolygiad blynyddol o'r datganiad AAA fel a amlinellir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Cymru. Byddai hyn yn arwain at arbedion costau yr amcangyfrifir fyddai'n £32,600 y flwyddyn.
384. Byddai'r angen am gynllunio pontio cynt rhwng awdurdod lleol a sefydliadau addysg bellach yn debygol o arwain at fwy o wybodaeth ar anghenion dysgwyr ar gael i addysg bellach i'w galluogi i gynllunio ar gyfer y galw.
385. Bydd sefydliadau addysg bellach yn parhau i dderbyn cyllid ychwanegol i alluogi dysgwyr i gael mynediad i gyrsiau prif ffrwd y mae Llywodraeth Cymru yn delio ag ef ar hyn o bryd o dan Gyllido Atodol ac Eithriadol. Ni fyddai'n rhaid iddynt lenwi ffurflen gais i gyllido pob unigolyn sydd ag anawsterau dysgu fel yn Opsiwn 1.

Risgiau

386. Mae perygl y bydd asesiadau amhriodol o angen yn golygu bod mwy o achosion yn mynd yn destun apelio drwy TAAAC. Mae risg hefyd bod awdurdodau lleol a'r sector addysg bellach yn cytuno y gall mwy o ddysgwyr gael mynediad i addysg bellach gyda chyllid ar gyfer cymorth ychwanegol, ac nad oes modd cynnal y pwysau sy'n cael ei roi ar y grant cyllido.
387. O ystyried y dystiolaeth uchod, Opsiwn 4 yw'r opsiwn a ffefrir. Y prif resymau yw ei fod yn galluogi cynllunio pontio cynt, gwell ar gyfer dysgwyr a darparwyr addysg bellach, gan y bydd gan awdurdodau lleol fynediad i wybodaeth am anghenion dysgwyr drwy gydol eu haddysg, nid dim ond asesiad sy'n cael ei gynnal yn ystod eu blwyddyn olaf yn yr ysgol. Mae arbedion cost posib i awdurdodau lleol gan y byddant yn arbed yr amser sy'n cael ei dreulio ar hyn o bryd yn trafod gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n rhoi mynediad haws, cynt i addysg bellach i ran fwyaf y dysgwyr sydd angen ymyrraeth lefel isel i gael mynediad i gwrs prif ffrwd mewn colegau addysg bellach. Bydd dysgwyr sydd ag anghenion uwch yn destun cynllunio pontio cynt fydd yn galw am lai o drafod rhwng asiantaethau gan fod y gwasanaethau addysg a chymdeithasol yn yr un sefydliad. Mae ymestyn yr hawl i

apelio i TAAAC ar gyfer dysgwyr sy'n cael mynediad i addysg a hyfforddiant ôl-16 yn gwneud awdurdodau lleol yn fwy atebol ac yn cymell cynllunio pontio cynt. Bydd y cod ymarfer a gaiff ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn pennu swyddogaethau a chyfrifoldebau pawb sy'n rhan o'r broses hon.

Dyddiadau tymhorau ysgolion

Opsiwn 1: Gwneud dim

Costau

388. Os bydd y trefniadau presennol yn parhau heb eu newid, bydd yr awdurdodau lleol yn parhau i bennu dyddiadau tymhorau ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion meithrin, a bydd cyrff llywodraethu'n gwneud hynny ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig. Ni fyddai dyletswydd ar awdurdodau lleol nac ar y cyrff llywodraethu perthnasol i gydweithredu a chydgysylltu i bennu dyddiadau tymhorau, ac ni fyddai Gweinidogion Cymru yn cael ymyrryd yn y broses o bennu'r dyddiadau hynny. O ganlyniad, mae'n debygol y byddai rhieni a'r rheini sy'n gofalu am blant yn parhau i orfod wynebu'r un anawsterau wrth iddynt geisio dod o hyd i ofal plant priodol a thalu amdano, bob tro y byddai anghysondeb rhwng dyddiadau tymhorau ysgolion plant o'r un teulu. Felly, nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.
389. O ystyried sut y gallai hyd yn oed un diwrnod o wahaniaeth mewn dyddiadau tymhorau effeithio ar deuluoedd sy'n gweithio, yn ddelfrydol byddai wedi bod yn well gan Lywodraeth Cymru pe gallai fod wedi cael edrych ar y posibilrwydd o gysoni diwrnodau HMS ledled Cymru hefyd. Fodd bynnag, gan Ysgrifennydd Gwladol y DU yn Whitehall y mae'r pŵer i ddarparu ar gyfer pwy sy'n pennu diwrnodau HMS. Felly nid oedd yn bosibl ymchwilio i'r posibilrwydd o ganiatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd yn y broses o bennu diwrnodau HMS yn y Bil hwn, sef Bil Addysg (Cymru).

Manteision

390. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn 'Gwneud Dim'.

Risgiau

391. Os na chymerir camau i sicrhau bod dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu cysoni ledled Cymru, mae'n debygol y bydd llawer o deuluoedd yn parhau i'w chael yn anodd dod o hyd i ofal plant priodol a thalu amdano. Yn ei dro, gallai hynny achosi caledi gwirioneddol i rai teuluoedd, yn enwedig y rheini sydd ag incwm isel.

392. Canlyniad hynny yw nad oes dewis gan rai teuluoedd o ran cael gofal i'w plant. Gallai hynny arwain at sefyllfa lle byddai rhai rhieni'n cymryd y risg o adael plant hŷn yn enwedig heb oruchwyliaeth, er gwaetha'r ffaith bod y plant hynny'n aml yn rhy ifanc i gael eu gadael ar eu pennau eu hunain am gyfnodau hir. Hefyd, gallai sefyllfa godi lle byddai plant hŷn yn gorfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ofalu am frodyr a chwiorydd iau.
393. Mae'n bosibl y byddai rhai rhieni'n defnyddio absenoldeb salwch o'u gwaith, gyda thâl, yn hytrach na defnyddio diwrnod o wyliau neu dalu am ofal plant.

Opsiwn 2: Gwneud cyn lleied â phosibl – Y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad nad yw'n rhwymo

Costau

394. Byddai costau'r opsiwn hwn yn dibynnu ar beth fyddai effaith y datganiad, hy a fyddai'n cael yr effaith a ddymunir o sicrhau bod dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu cysoni ledled Cymru.
395. Pe byddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad nad yw'n rhwymo, a'r datganiad hwnnw'n gweithio, yr un fyddai'r costau â'r costau a nodir yn *Opsiwn 3 – Cyflwyno Deddfwriaeth* isod, ar wahân i'r ffaith na fyddai costau i Lywodraeth Cymru o orfod darparu staff i gynorthwyo Gweinidogion Cymru wrth iddynt ystyried eu pwerau a'u defnyddio i ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau ysgolion.
396. Pe bai'r Gweinidog yn gwneud datganiad nad yw'n rhwymo, ond nad oedd y datganiad hwnnw'n gweithio, byddai'r costau yr un fath ag yn *Opsiwn 1 – Gwneud Dim* uchod.
397. O gofio ymdrechion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y gorffennol, dylai awdurdodau lleol eisoes fod yn gweithio gyda'i gilydd (yn ogystal ag yn gweithio gyda chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn eu hardaloedd) mewn ymgais i gyrraedd consensws ar ddyddiadau tymhorau. Felly, ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol i Awdurdodau Lleol yn sgil y ffaith eu bod yn cydweithio â'i gilydd ac â'r cyrff llywodraethu ysgolion perthnasol mewn ymgais i gyrraedd consensws ar ddyddiadau tymhorau.
398. Yn yr un modd, credir y dylai cyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig fod yn cydweithio eisoes â'u hawdurdodau lleol mewn ymgais i sicrhau consensws ar ddyddiadau tymhorau, ac yn trafod y dyddiadau hynny gyda chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig eraill o fewn ardal eu hawdurdod lleol. Felly ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol i'r cyrff llywodraethu hyn yn sgil y ffaith eu bod yn cydweithio â'u hawdurdod lleol a chyrff llywodraethu ysgolion perthnasol eraill o fewn ardal eu hawdurdod lleol mewn ymgais i gyrraedd consensws ar ddyddiadau tymhorau.

Manteision

399. Prif fantais yr opsiwn hwn, pe bai'n gweithio, yw y byddai'n bosibl sicrhau'r holl fanteision a nodir yn *Opsiwn 3 – Cyflwyno Deddfwriaeth* isod, a hynny heb yr angen i wneud deddfwriaeth newydd. Byddai hynny'n arbed amser a'r costau cysylltiedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru gan na fyddai'n rhaid iddynt ddwyn ymlaen ddeddfwriaeth sylfaenol newydd, na chraffu arni na'i gwneud.
400. Pe na bai'r opsiwn hwn yn gweithio ac mai methiant oedd yr ymgais i gyrraedd consensws ar ddyddiadau tymhorau ysgolion, wedyn yr un fyddai'r manteision â'r rhai a nodir yn *Opsiwn 1- Gwneud Dim* uchod.

Risgiau

401. Fel yr eglurwyd eisoes, er y gallai datganiad nad yw'n rhwymo fod yn ddefnyddiol o ran perswadio awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydweithio i bennu dyddiadau tymhorau, nid oes unrhyw sicrwydd y byddai hynny'n llwyddiannus. O gofio bod CLILC wedi bod yn ymdrechu ers sawl blwyddyn heb unrhyw lwyddiant i gael y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau cysondeb o ran pennu dyddiadau, mae'n ddigon posibl na fyddai datganiad gan y Gweinidog yn cael yr effaith a ddymunir.
402. Yn ogystal â'r 22 awdurdod lleol, byddai angen i gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig hefyd gytuno ar y dyddiadau a bennir. Mae'n bosibilrwydd gwirioneddol na fyddai cynifer o gyrff yn gallu dod i gytundeb er gwaethaf y ffaith bod y Gweinidog wedi cyhoeddi datganiad, a hwnnw'n ddatganiad nad yw'n rhwymo.

Opsiwn 3: Cyflwyno deddfwriaeth – rhoi rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i gydweithio, gan roi pŵer disgresiwn i Weinidogion Cymru, i ganiatáu iddynt ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau – yr opsiwn a ffefir

Costau

403. Byddai cyflwyno a gwneud y ddeddfwriaeth arfaethedig yn golygu y gellid sicrhau bod cysondeb o ran dyddiadau tymhorau ysgolion ar gyfer pob ysgol a gynhelir ledled Cymru, p'un a fyddai hynny trwy fod awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol yn cyrraedd consensws ymhlith ei gilydd, neu fod Gweinidogion Cymru yn defnyddio eu pwerau cyfarwyddo yn yr achosion lle nad oedd yn bosibl cael consensws.

Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac Ysgolion Sefydledig

404. Fel y nodwyd eisoes, ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol oherwydd eu bod yn cydweithio â'i gilydd ac â'r cyrff llywodraethu ysgolion perthnasol i geisio cael consensws ar ddyddiadau tymhorau. Dylai awdurdodau lleol fod yn gweithio gyda'i gilydd eisoes (ac felly hefyd yn gweithio gyda chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig yn eu hardaloedd) i geisio cyrraedd consensws ynghylch y dyddiadau hynny. Mae'n arbennig o wir o ystyried ymdrechion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau cytundeb o ran pennu dyddiadau tymhorau yn y gorffennol.
405. Yn yr un modd, ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol i gyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig wrth iddynt geisio cael consensws ynghylch dyddiadau tymhorau. Y rheswm am hynny yw y dylai cyrff llywodraethu fod yn cydweithio eisoes â'u hawdurdod lleol mewn ymgais i gytuno ar ddyddiadau, a hefyd yn trafod dyddiadau tymhorau gyda chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig eraill o fewn ardal eu hawdurdod lleol.
406. Mae awdurdodau lleol eisoes yn dangos y dyddiadau tymhorau, y maent wedi eu pennu ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn ysgol, ar eu gwefannau. Felly, mae'n annhebygol iawn y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r ffaith bod angen rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y dyddiadau hyn, yn enwedig o ystyried y byddai disgwyl i'r wybodaeth gael ei hanfon drwy e-bost.
407. Yn rhai o'r ymatebion a anfonwyd gan awdurdodau lleol, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig, soniwyd am y broses y byddai'n rhaid i'r awdurdodau lleol ei defnyddio i ddangos bod y cyrff llywodraethu perthnasol o fewn eu hardaloedd yn cytuno ar ddyddiadau tymhorau, gan ddweud y gallai honno droi'n faich gweinyddol. Fodd bynnag, roedd 81% o'r rheini a ymatebodd i'r cwestiwn yn yr ymgynghoriad a oedd yn gofyn a fyddai'r broses hysbysu arfaethedig yn gweithio ai peidio, naill ai'n cytuno y byddai'n gweithio neu heb fynegi barn bendant un ffordd na'r llall.
408. Mae'r Bil yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol roi gwybod i Weinidogion Cymru am y dyddiadau sydd wedi eu pennu ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir o fewn eu hardaloedd; rhaid iddynt wneud hynny p'un a oes consensws ar y dyddiadau ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai'r broses hysbysu fod yn feichus ac na ddylai olygu bod awdurdodau lleol yn gorfod talu unrhyw gostau ychwanegol. Gan y dylai awdurdodau lleol fod yn cydgysylltu eisoes â'r cyrff llywodraethu ysgolion perthnasol o fewn eu hardaloedd, ni ddylai'r rheidrwydd i ddangos bod corff llywodraethu'n cymeradwyo'r dyddiadau tymhorau a nodwyd ar gyfer ei ysgol, a hynny trwy gynnwys llofnod y cadeirydd ar y llythyr sy'n hysbysu Llywodraeth Cymru, olygu bod unrhyw gostau pellach. Hefyd, gan y disgwylir i'r llythyr hysbysu gael ei anfon yn electronig, gyda llofnodion wedi eu cynnwys yn electronig, ni ddylai fod unrhyw gostau

ychwanegol ynghlwm â'r gwaith o anfon yr wybodaeth angenrheidiol at Lywodraeth Cymru.

409. Fodd bynnag, bydd yr union broses y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ei defnyddio i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y dyddiadau y cytunwyd arnynt a/neu a bennwyd ganddynt, yn cael ei darparu gan Reoliadau. Cynhelir ymgynghoriad ar y polisi a fydd yn sail i'r Rheoliadau hyn, a bydd hwnnw'n rhoi'r cyfle i awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu ysgolion perthnasol ddylanwadu ar fanylion y broses hysbysu am ddyddiadau tymhorau.

Llywodraeth Cymru

410. Bydd cost i Lywodraeth Cymru gan y bydd yn rhaid iddi dalu am swyddog i ymgymryd â'r gwaith sy'n gysylltiedig â chyflawni gorchwylion megis cydgysylltu â rhanddeiliaid wrth gasglu'r wybodaeth y bydd ei hangen ar Weinidogion Cymru, monitro barn rhanddeiliaid ac ymgynghori ar unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â phwerau Gweinidogion Cymru i bennu dyddiadau tymhorau. Y disgwyl yw y bydd swyddog gweithredol uwch yn cael ei gyflogi am ddau ddiwrnod gwaith yr wythnos am ddwy flynedd gyntaf y trefniadau newydd hyn. Bydd y gost i Lywodraeth Cymru o gwmpas £15,320 y flwyddyn ar gyfartaledd,¹¹ a fydd yn golygu mai £30,640 fydd cyfanswm y gost.
411. Mae'r gost hon i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd y newidiadau deddfwriaethol arfaethedig yn cymryd effaith, ac y bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu hunain mewn sefyllfa lle y bydd yn rhaid iddynt ddefnyddio eu pwerau ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau, a hynny am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth arfaethedig ddod i rym. Os bydd angen i Weinidogion Cymru barhau i ddefnyddio eu pwerau - a'r rheswm mwyaf tebygol am hynny fyddai bod yr awdurdodau lleol a'r cyrff llywodraethu perthnasol yn dal i fethu â chyrraedd consensws ynghylch dyddiadau tymhorau wedi dwy flynedd ar ôl i'r newidiadau deddfwriaethol ddod i rym - wedyn bydd y gost hon yn codi bob blwyddyn cyhyd ag y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau i bennu dyddiadau tymhorau.
412. Os na fydd angen i Weinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau i ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau ar ôl i'r ddeddfwriaeth arfaethedig ddod i rym, ni fydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru dalu'r gost ychwanegol hon. Bydd y gost o fonitro'r llythyron hysbysu sy'n dod i law oddi wrth y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael ei chynnwys yng nghostau'r gwaith cyffredinol a wneir gan yr Adran Addysg a Sgiliau.

Teuluoedd

¹¹ yn seiliedig ar gyflogi swyddog gweithredol uwch ar ganol y band cyflog, a chan gymryd i ystyriaeth y costau Yswiriant Gwladol a phensiwn y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru eu talu

413. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynigion i gysoni dyddiadau tymhorau ysgolion yn tynnu sylw at y ffaith y gallai peidio â chael cysondeb o ran dyddiadau tymhorau ysgolion fod o fantais i rai teuluoedd gan fod hynny weithiau'n golygu ei bod yn bosibl iddynt gael gwyliau teuluol rhatach. Er enghraifft, os bydd awdurdod lleol yn dewis torri ar gyfer y Pasg wythnos yn hwyrach na'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill, gallai gwyliau teuluol yn wythnos olaf y toriad hwyr hwnnw gostio llai, oherwydd bod y gwyliau'n cael eu cymryd y tu allan i'r adeg brysura. Byddai cysoni dyddiadau tymhorau ysgolion yn golygu nad yw cyfleoedd felly yn codi.
414. Mae'r canlynol yn enghraifft o'r math hwn o gyfle, sef bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi torri am y Pasg rhwng dydd Sadwrn 23 Mawrth 2013 a dydd Sul 7 Ebrill 2013. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol a gynhelir wedi torri am eu gwyliau Pasg rhwng dydd Gwener 29 Mawrth 2013 a dydd Sul 14 Ebrill 2013.
415. Mae hynny'n golygu y byddai wedi bod yn bosibl i deuluoedd, sydd â phlant mewn ysgol nad yw ei gwyliau Pasg yn dod i ben tan 14 Ebrill, fanteisio ar brisiau gwyliau teuluol is. Er enghraifft, byddai carafán yn Saundersfoot, ar gyfer teulu o 2 oedolyn a 2 blentyn, o 30 Mawrth 2013 am 7 noson yn costio £345. Byddai'r un garafán ar gyfer yr un teulu wythnos yn ddiweddarach yn costio £275, gan arbed £70.¹² Yn yr un modd, byddai caban ar gyfer 2 oedolyn a 2 blentyn ym Mharc Cenedlaethol Bluestone am 7 noson o 29 Mawrth 2013 yn costio £1,079, a byddai'r un caban ar gyfer yr un teulu o 5 Ebrill 2013 yn costio £898. Byddai hynny'n arbed swm sylweddol o £181.¹³
416. Ni fyddai'r arbedion gymaint i deulu sy'n mynd ar wyliau tramor yn ystod toriad y Pasg. Er enghraifft, gallai teulu o 2 oedolyn a 2 blentyn, sy'n hedfan o Gaerdydd i gael llety llawn mewn gwesty 3 seren ar y Costa Del Sol, dalu £2,141 am yr wythnos 31 Mawrth - 7 Ebrill 2013. Byddai'r un teulu ar yr un gwyliau teuluol wythnos yn ddiweddarach, sef 7- 14 Ebrill 2013, yn talu £2,121. Byddai hynny'n arbed £20.¹⁴ Mae'n bosibl y gallai arbedion o fynd ar wyliau tramor y tu allan i'r tymor ysgol fod yn fwy sylweddol yn nes ymlaen yn y flwyddyn.
417. Yn ddiweddar gwnaed gwaith academiaidd yn tynnu sylw at bwysigrwydd cymryd gwyliau, a'r manteision posibl i deuluoedd.¹⁵ Dywedir bod y manteision o gymryd gwyliau teuluol yn cynnwys cryfhau cysylltiadau o fewn y teulu ac ehangu profiad, yn ogystal â manteision cyffredinol i ieuchyd meddwl.

¹² Parc Gwyliau Sunnyvale, Saundersfoot; carafan Glen Silver Birch. Prisiau 05/03/2013

¹³ Parc Cenedlaethol Bluestone; Caban "Caldey". Prisiau 05/03/2013

¹⁴ Gwesty Polynesia, Benalmadena, Costa Del Sol (Gwyliau Thomson). Prisiau 05/03/2013

¹⁵ Family Holidays During School Term Time: Does Education Really Inhibit Family Access To Tourism? Emily Rayner, Prifysgol Lincoln
<http://www.tsvc.lincoln.ac.uk/papers/submission.php?paper=102>

418. Fodd bynnag, gellir dweud bod yr anawsterau a wynebir gan rai teuluoedd sy'n gweithio, o ran gorfod dod o hyd i ofal plant ychwanegol a thalu amdano, pan nad yw dyddiadau tymhorau ysgolion wedi eu cysoni, yn drech na'r problemau posibl a allai godi o dalu mwy am wyliau teuluol yn ystod yr adegau prysuraf.

Darparwyr Gofal Plant

419. Yn ei dro, byddai sicrhau cysondeb o ran dyddiadau tymhorau ysgolion yn golygu na fyddai'r teuluoedd sydd ar hyn o bryd yn gorfod dod o hyd i ofal plant, ac yn aml yn talu amdano, yn gorfod gwneud hynny bellach.
420. Byddai hynny'n achosi colledion i warchodwyr plant a darparwyr gofal plant eraill, gan na fyddai angen bellach i deuluoedd sy'n gweithio ddod o hyd i ofal plant ychwanegol a thalu amdano fel sy'n digwydd weithiau ar hyn o bryd pan na fydd dyddiadau tymhorau'n gyson.
421. Nid yw'n bosibl cyfrifo'r union golled i unigolion a sefydliadau. Efallai bod union niferoedd y plant, y mae angen gofal arnynt, yn amrywio'n fawr: mae'n bosibl y byddai'n well gan rieni ofyn i gyfaill y maent yn ymddiried ynddo, neu aelod o'r teulu, ofalu am eu plant am ddim, neu fel arall gymryd gwyliau eu hunain. Fodd bynnag, nid yw'r dewis hwn yn ymarferol bob tro y bydd angen gofal plant ychwanegol, ac mae hynny'n golygu bod niferoedd y plant sy'n cael eu rhoi yng ngofal darparwyr gofal plant "proffesiynol" yn amrywio'n fawr.
422. Byddai mantais gyfatebol i deuluoedd gan na fyddent yn gorfod talu am y gofal plant ychwanegol (gweler isod).

Manteision

423. Y brif fantais a fyddai'n deillio o gyflwyno'r ddeddfwriaeth arfaethedig yw y byddai mecanwaith statudol yn ei le i sicrhau bod dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu cysoni ledled Cymru, gydag amrywiadau mewn dyddiadau tymhorau ond yn digwydd yn anaml iawn, a dim ond pan fyddent yn angenrheidiol. (Er enghraifft, pan fydd digwyddiad tebyg i Gwpan Ryder yn cael ei gynnal, gallai fod o fantais pennu dyddiadau gwahanol ar gyfer yr ysgolion sydd o fewn radiws o 10 milltir i'r digwyddiad hwnnw).
424. Pe bai dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu cysoni, ni fyddai rhieni sy'n gweithio, yn enwedig rhieni sydd ag incwm isel neu rieni sengl, yn gorfod ceisio ymdopi â'r angen i ddod o hyd i ofal plant priodol a thalu amdano.
425. Mae costau gofal plant yn amrywio ledled Cymru yn ôl y lleoliad a'r math o ofal plant a gynigir. Er enghraifft, gallai'r ffi a godir am ddiwrnod o ofal yn ystod gwyliau ysgol gan gynllun preifat yn ardal Caerdydd a Phenarth fod oddeutu £20/30 y diwrnod ar gyfer pob plentyn, a gallai gwarchodwyr plant yn yr un ardal godi oddeutu £4/5 yr awr ar gyfer pob

plentyn. Weithiau cynigir gostyngiad yn y pris ar gyfer plant o'r un teulu, ac mae rhai darparwyr gofal plant a gwarchodwyr plant yn cynnwys prydau bwyd a thripiâu diwrnod yn y prisiau hyn.

426. Yn ardal y Fflint yn y Gogledd, mae prisiau gofal plant hefyd yn gymharol uchel. Gallai'r ffi am ddiwrnod o ofal yn ystod gwyliau ysgol gan gynllun preifat yn y Fflint fod cymaint ag £20 neu £30 y diwrnod ar gyfer un plentyn, a gallai gwarchodwyr plant yn yr un ardal godi rhwng ychydig dros £2 i oddeutu £4 yr awr ar gyfer pob plentyn. Unwaith eto, weithiau cynigir gostyngiad yn y pris ar gyfer plant o'r un teulu, ac mae rhai darparwyr yn cynnwys prydau bwyd a thripiâu diwrnod yn y pris.
427. Mae casgliadau arolwg diweddar gan yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd a'r Family and Parenting Institute¹⁶ yn tynnu sylw at y prinder mewn darpariaeth gofal i blant hŷn yng Nghymru. Nid oedd unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru wedi nodi bod digon o ofal plant ar gael ar gyfer plant 12-14 oed, a dim ond 13% a oedd wedi dweud bod digon o ofal plant ar gyfer plant 5-11 oed. Felly, gallai fod yn anodd iawn i rieni ddod o hyd i ofal plant priodol, hyd yn oed os ydynt yn gallu talu amdano.
428. Roedd adroddiad yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd hefyd yn nodi bod prisiau gwarchodwyr plant yng Nghymru, ar gyfer plant dros 2 oed, wedi cynyddu 3.2% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; bellach, mae rhieni yng Nghymru yn talu £48.46 yr wythnos ar gyfartaledd ar gyfer un plentyn bob wythnos a hynny am 15 awr o ofal, sef £3.23 yr awr.
429. Mewn teulu sydd â 2 blentyn y mae angen gofal arnynt, gallai hynny olygu bod angen dod o hyd i oddeutu £50-£60 y diwrnod allan o gyllideb y teulu os bydd angen gofal am ddiwrnod llawn o tua 9 awr. O gofio y gallai'r gwahaniaeth mewn dyddiadau tymhorau fod cyhyd â chyfnod o wythnos, yn enwedig os na fydd dyddiadau hanner tymor wedi eu cysoni, gallai fod angen i'r un teulu hwnnw, sydd â dau o blant y mae angen gofal arnynt, ddod o hyd i £250/300. Hyd yn oed os oes gan deulu ddim ond 1 plentyn y mae angen gofal arno, gallai wythnos ysgol lawn olygu bod angen talu oddeutu £125/130, sef arian nad yw llawer o deuluoedd sy'n gweithio yn gallu ei fforddio.
430. Heblaw am ddod o hyd i ofal plant a thalu amdano, y dewis arall yw gofyn i oedolyn o fewn y teulu, neu ffrind y gellir ymddiried ynddo, ofalu am y plentyn neu'r plant. Nid yw pawb yn ddigon ffodus i fod ag aelod o'r teulu neu ffrind nad yw'n gweithio ac sy'n fodlon gofalu am y plant, ac felly yr unig ddewis arall yw i riant sy'n gweithio gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i ofalu am y plant ei hunan.
431. Cyn belled â bod cyflogwr y rhiant yn fodlon iddo wneud hynny, bydd y rhiant fel arfer yn gorfod defnyddio ei wyliau neu gymryd amser i ffwrdd yn ddi-dâl. Waeth pa drefn a ddilynnir, bydd y rhiant yn colli'r hyn sy'n

¹⁶ Mae arolwg yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd a'r Family and Parenting Institute yn dangos bod cynnydd anferth wedi bod mewn costau gofal ar gyfer plant oedran ysgol:
<http://www.daycaretrust.org.uk/pages/childcare-costs-surveys.html>

cyfateb i gyflog diwrnod ar gyfer pob diwrnod y mae'n ei gymryd i ffwrdd i ofalu am ei blant.

432. Bydd yr union golled ariannol yn amrywio, gan ddibynnu ar faint y mae'r rhiant yn cael ei dalu, ond mae'n ddigon posibl y bydd yr effaith yn fwy dwys ar y teuluoedd sydd ar incwm isel. Mae colli cyflog diwrnod (neu ddefnyddio cyflog gwyliau cyfatebol) o £40 yn gallu bod yn anoddach os bydd unigolyn yn ennill £200 mewn wythnos arferol, nag y byddai i rywun golli cyflog diwrnod o £200 sy'n ennill £1000 yr wythnos. Gallai'r angen i ddod o hyd i £40 olygu bod yn rhaid cymryd arian o'r hyn sydd wedi ei neilltuo ar gyfer bwyd neu wres yn ystod yr wythnos honno. Gan ddefnyddio'r un enghraifft, gallai colli cyflog wythnos lawn o £200 fod yn anodd iawn i deulu sy'n byw ar gyflog isel. Mewn cyferbyniad, er y gallai colli cyflog wythnos o £1,000 fod yn anodd i deulu sydd ag incwm uchel, byddai teulu o'r fath yn fwy tebygol o feddu ar yr adnoddau ariannol i ymdopi â'r golled. Gan ddibynnu ar nifer y plant y mae angen gofal arnynt, mae'n ddigon posibl mai talu am y gofal plant ychwanegol angenrheidiol fyddai'r dewis rhatach, yn enwedig i'r teulu ag incwm uchel y cyfeirir ato yn yr enghraifft uchod.
433. Mae hefyd yn debygol bod yr angen i ddod o hyd i ofal plant a thalu amdano yn effeithio'n waeth ar deuluoedd un rhiant. Os bydd dau bartner yn gweithio, bydd yn haws ymdopi ag effeithiau colli arian o gyflog un neu ddefnyddio gwyliau un.
434. Bydd mantais ychwanegol i'r teuluoedd hyn gan na fydd angen iddynt gymryd y risg o adael plant hŷn heb oruchwyliaeth ac efallai'n gofalu am eu brodyr a'u chwiorydd iau, yn enwedig os bydd y plant hŷn yn rhy ifanc i gael eu gadael ar eu pennau eu hunain am gyfnodau hir.
435. Roedd ymateb y Comisiynydd Plant i'r ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer diwygio'r broses o bennu dyddiadau tymhorau ysgolion yn cydnabod y problemau sy'n gysylltiedig â thalu am ofal plant ychwanegol. Dywedodd y Comisiynydd y byddai'r newidiadau a nodir yn golygu na fydd rhai teuluoedd yng Nghymru yn gorfod talu costau gofal plant ychwanegol yn ystod gwyliau ysgol, a bod hynny i'w groesawu.

Risgiau

436. Os bydd dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu cysoni, ni fydd cyfle i rai rhieni, y mae eu plant mewn ysgolion sydd â dyddiadau tymhorau sy'n wahanol i ddyddiadau'r rhan fwyaf o ysgolion a gynhelir, allu manteisio ar brisiau gwyliau teuluol rhad. O ganlyniad, mae risg na fydd y teuluoedd hyn yn gallu fforddio gwyliau teuluol, ac ni fyddant yn cael y cyfle i elwa ar y manteision cymdeithasol a'r manteision i iechyd a allai ddeillio o wyliau o'r fath.
437. Yn hytrach na mynd heb wyliau teuluol, mae yna risg y bydd rhieni, a oedd wedi elwa gynt ar y ffaith nad oedd dyddiadau tymhorau ysgolion eu plant wedi eu cysoni, yn dewis cadw eu plant o'r ysgol yn ystod y

tymor er mwyn fforddio gwyliau. Gallai hynny arwain at gynnydd yn y ffigurau swyddogol ar gyfer absenoldebau, gan na fydd pob rhiant yn gwneud cais am ganiatâd i gadw plentyn o'r ysgol, neu na fydd cymeradwyaeth o'r fath wedi ei rhoi.

438. Gallai cadw plant i ffwrdd o'r ysgol er mwyn manteisio ar wyliau teuluol beri niwed i addysg y plant, a gallai eu cyrhaeddiad academiaidd fod yn is o ganlyniad.

Y casgliadau a'r opsiwn a ffefrir

439. Ni fyddai Opsiwn 1 yn newid dim ar y sefyllfa bresennol o ran pennu dyddiadau tymhorau ysgolion, ac felly, yn ôl pob tebyg, byddai dyddiadau tymhorau yn parhau i amrywio ledled Cymru. Byddai hynny'n golygu na fyddai dim yn cael ei wneud ynghylch pryderon teuluoedd sy'n gweithio o ran eu problemau wrth geisio dod o hyd i ofal plant ychwanegol a thalu amdano. Am y rheswm hwn, nid opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffefrir gennym.

440. Byddai Opsiwn 2 yn ceisio newid y sefyllfa bresennol heb ddefnyddio deddfwriaeth i wneud hynny. Fodd bynnag, o gofio'r anawsterau y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi eu cael wrth geisio sicrhau consensws ar ddyddiadau tymhorau, y gred yw pe byddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad nad yw'n rhwymo, na fyddai'r datganiad hwnnw'n gallu sicrhau consensws. Unwaith eto, byddai hynny'n golygu na fyddai dim yn cael ei wneud ynghylch pryderon teuluoedd sy'n gweithio o ran eu problemau wrth geisio dod o hyd i ofal plant ychwanegol a thalu amdano. Am y rheswm hwn, nid opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gennym.

441. Yr opsiwn a ffefrir gennym yw Opsiwn 3, sef cyflwyno deddfwriaeth i osod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig i gydweithio, gan roi pŵer disgresiwn i Weinidogion Cymru, i ganiatáu iddynt ymyrryd yn y broses o bennu dyddiadau tymhorau. Y rheswm yw mai Opsiwn 3 yw'r unig opsiwn a fyddai'n cael yr effaith a ddymunir, sef sicrhau bod dyddiadau tymhorau ysgolion yn cael eu cysoni; yn anaml iawn y byddai unrhyw amrywiadau wedyn mewn dyddiadau tymhorau, a hynny dim ond pan fyddai'n bosibl eu llwyr gyfiawnhau. Yn ei dro, byddai hynny'n golygu bod pethau'n newid i deuluoedd sy'n gweithio o ran eu problemau wrth geisio dod o hyd i ofal plant ychwanegol a thalu amdano

Penodi Prif Arolygydd EM ac Arolygwyr EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o dan adran 19 o Ddeddf Addysg 2005; ac

442. Mae'r newidiadau hyn yn rhai gweinyddol ac nid oes ganddynt unrhyw oblygiadau o ran costau, felly nid ydynt wedi bod yn destun dadansoddiad o gost a manteision.

9. Asesiad o'r gystadleuaeth

443. Ni fydd y darpariaethau o fewn y Bil yn cael effaith ar fusnes, nac elusennau a/neu y sector gwirfoddol mewn ffyrdd sy'n codi materion sy'n gysylltiedig â chystadleuaeth.

444. Nid oes felly unrhyw angen defnyddio'r hidl cystadleuaeth yn yr achos hwn.

10. Adolygu ar ôl gweithredu

445. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddeddfwriaeth, ac eithrio'r newidiadau technegol fel a ganlyn:

Cyngor y Gweithlu Addysg

446. Bydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg yn monitro'r modd y caiff y Cyngor a'i swyddogaethau eu diwygio gan y Bil hwn.
447. Bydd y Pwyllgor Archwilio dan awdurdod i graffu ar faterion ariannol y Cyngor, a'u hadolygu, ac amlygir y materion hynny yn ei adroddiadau ac argymhellion a anfonir at Weinidogion Cymru.

Addysg a hyfforddiant ôl-16

448. Bydd y ffigurau ar gyfer nifer yr apeliadau a gyflwynwyd i TAAAC yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u defnyddio i lywio trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol am eu trefniadau a'u prosesau.
449. Mae Arolygiaeth EM Estyn eisoes yn ystyried bod y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn rhan o'u harolygon rheolaidd o awdurdodau lleol. Bydd unrhyw broblemau sylweddol sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi mewn adroddiadau a chynlluniau gweithredu ar ôl yr arolwg, fydd yn cael eu monitro gan yr adran.
450. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio cynnwys fel rhan o gylch gwaith Estyn adolygiad o sut y mae awdurdodau lleol wedi cyflawni eu dyletswyddau newydd, a sut y maent wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol flwyddyn wedi iddynt ddechrau.

Dyddiadau tymhorau ysgolion

451. Rhagwelir y bydd adolygiad yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn sy'n dilyn y flwyddyn ysgol gyntaf pan fydd y polisi'n cael ei weithredu. Bydd y sawl sy'n trefnu'r adolygiad yn cysylltu'n uniongyrchol (trwy ddulliau electronig) â chyrff llywodraethu ysgolion ffydd i sicrhau bod eu barn yn cael ei hadlewyrchu'n briodol.
452. Disgwylir mai 2016-17 fydd y flwyddyn ysgol gyntaf y bydd y polisi'n effeithio arni, ac os felly, bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal rhwng mis Gorffennaf 2017 a mis Gorffennaf 2018, gyda'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2018.

BIL ADDYSG (CYMRU)

NODIADAU ESBONIADOL

Rhan 1 – Cyflwyniad

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Bil Addysg (Cymru). Fe'u lluniwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

Cefndir

Rhan 2 – Y Gweithlu Addysg

2. Sefydlwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Mae wedi bod yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio athrawon ers hynny.
3. Mae'r Bil yn ailenwi CyngACC yn Gyngor y Gweithlu Addysg (y Cyngor) ac mae'n ehangu cylch gwaith y Cyngor er mwyn cynnwys cofrestru a rheoleiddio mwy o'r bobl sy'n ymwneud ag addysgu a dysgu yng Nghymru. O ganlyniad i'r newid hwn, mae'r Bil yn diweddarau cyfansoddiad, trefniadau llywodraethu a swyddogaethau'r Cyngor. Mae'r Bil hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer ychwanegu categorïau newydd o berson at gylch gwaith rheoleiddiol y Cyngor.
4. Mae'r Bil hefyd yn manteisio ar y cyfle i ailddatgan rhai o'r darpariaethau perthnasol sy'n ymwneud ag athrawon a gweithwyr cymorth dysgu sydd i'w gweld ar hyn o bryd yn Neddf Addysg 2002.

Rhan 3 – Personau ag Anawsterau Dysgu

a347

5. Mae'r cynigion yn y Bil yn diwygio'r modd y cofrestrir ysgolion annibynnol yng Nghymru drwy ddiddymu a347 o Ddeddf Addysg 1996 ac adran 160 (a160) o Ddeddf Addysg 2002 (DA 2002) fel bod pob ysgol annibynnol sy'n ceisio darparu ar gyfer plant sydd â datganiadau AAA o dan gwmpas cytundeb presennol Llywodraeth Cymru gydag AEM Estyn i ymgymryd ag ymweliadau monitro rheolaidd.

Ôl-16

6. Mae'r Bil yn rhoi'r cyfrifoldeb i'r awdurdod lleol dros asesu anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu a/neu anabledau ynghyd â sicrhau addysg ôl-16 arbenigol ar eu cyfer. Gwneir hyn drwy fewnosod adrannau newydd (40A-O) ar ôl adran 40 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000; diwygio adran 41 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 a mewnosod adrannau newydd (41A ac 41B) yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Rhan 4 – Amrywiol

7. Mae Rhan 4 o'r Bil yn ymwneud â dau bwnc amrywiol ym maes addysg. Mae adran 49 yn ymwneud â dyddiadau tymhorau a gwyliau ac amserau sesiynau ysgol ac mae adran 50 yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer penodi Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg yng Nghymru.

Dyddiadau tymhorau a gwyliau ac amserau sesiynau ysgol

8. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer pennu dyddiadau tymhorau a gwyliau ac amserau sesiynau ysgol wedi eu nodi yn adran 32 o Ddeddf Addysg 2002.
9. Yn adran 49 mae'r Bil yn cyflwyno gofyniad newydd ar y rhai hynny sy'n gyfrifol am bennu dyddiadau tymhorau a gwyliau mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru i gydweithio er mwyn sicrhau bod y dyddiadau a bennir yr un peth (neu mor agos â phosibl at fod yr un peth).
10. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pŵer cyfarwyddo newydd i Weinidogion Cymru mewn perthynas â dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol bod dyddiadau penodol yn cael eu pennu ar gyfer ysgol. Gall y pŵer hwn gael ei ddefnyddio i sicrhau bod cysondeb ar draws ysgolion ond hefyd i roi ystyriaeth i amgylchiadau arbennig, sef ar adegau pan fo'n ddymunol i ysgol benodol drefnu dyddiad gwahanol ar gyfer gwyliau o ganlyniad i ddigwyddiad mawr yn y byd chwaraeon.
11. Mae'r Bil hefyd yn ailddatgan y darpariaethau deddfwriaethol presennol sy'n ymwneud ag amserau sesiynau ysgol mewn adran sydd bellach ond yn berthnasol i Gymru.

Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg yng Nghymru.

12. Mae'r Bil yn diddymu adran 19(6) o Ddeddf Addysg 2005 i ddileu'r ddarpariaeth bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyngori Ei Mawrhydi mewn cysylltiad â swyddogaethau Ei Mawrhydi sydd o fewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, gan gynnwys penodi Arolygwyr EM dros Addysg yng Nghymru. Prif Weinidog Cymru fydd yn cyflawni'r swyddogaeth hon.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Adran 1 – Trosolwg

13. Mae'r adran hon yn crynhoi prif ddarpariaethau'r Bil. Ei nod yw bod yn ddarpariaeth dangos y ffordd a chyflwyno cysyniadau allweddol. Mae hefyd yn cyflwyno'r mynegai o eiriau ac ymadroddion wedi eu ddiffinio sydd i'w gweld yn Atodlen 4.

Rhan 2 – Y Gweithlu Addysg

Cyngor y Gweithlu Addysg – adrannau 2-6 (gweler hefyd Atodlen 1)

14. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) yw'r corff proffesiynol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru ac fe'i sefydlwyd gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Mae gan CyngACC rôl reoleiddio (gan gynnwys cynnal y

Gofrestr o athrawon cymwysedig yng Nghymru), rôl gynghori (gan gynnwys cynghori Llywodraeth Cymru ar faterion addysgu) a rôl weithredol (gan gynnwys hybu datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a recriwtio athrawon).

15. Mae adran 2 yn newid enw CyngACC i Gyngor y Gweithlu Addysg ac yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n nodi cyfansoddiad diweddaraf y corff.
16. Mae is-adran (1)(a) yn cadarnhau mai'r un endid cyfreithiol yw CyngACC a Chyngor y Gweithlu Addysg. Golyga hyn, er enghraifft, nad yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar delerau ac amodau contractau ei gyflogaeth.
17. Mae adran 3 yn nodi prif nodau'r Cyngor, sef:
 - cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd y dysgu yng Nghymru; a
 - cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon ac eraill yn y gweithlu addysg yng Nghymru.
18. Mae adran 4 yn darparu trosolwg o brif swyddogaethau'r Cyngor, sef:
 - a. darparu cyngor sy'n ymwneud â'i swyddogaethau (gweler adran 7);
 - b. hybu gyrfaedd mewn proffesiynau cofrestradwy (gweler adran 8);
 - c. sefydlu a chynnal cofrestr (gweler adran 9);
 - d. sicrhau bod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sefydlu a gwerthuso'r gweithlu addysg (gweler adrannau 17 a 19);
 - e. adolygu a diwygio'r cod ymddygiad ac ymarfer (gweler adran 24);
 - f. ymchwilio i ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac anghymhwysedd proffesiynol a chymryd camau mewn perthynas ag ymddygiad o'r fath (gweler adran 26); ac
 - g. cadw a darparu gwybodaeth (gweler adrannau 33 a 35).
19. Mae adran 5 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i roi neu osod swyddogaethau ychwanegol ar y Cyngor, drwy orchymyn. Cyn gwneud gorchymyn o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau neu gyrff priodol (e.e. y Cyngor).
20. Mae adran 6 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau i'r Cyngor. Gellid defnyddio'r pwerau hyn o dan amgylchiadau pan oedd gan Weinidogion Cymru bryderon ynghylch llywodraethu'r Cyngor neu mewn perthynas â'r modd yr oedd yn arfer ei swyddogaethau. Rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â chyfarwyddyd o'r fath.
21. Fodd bynnag, ni chaiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd mewn perthynas â chais penodol i gofrestru, apêl sy'n ymwneud â chais o'r fath neu achos disgyblu penodol.

Darparu cyngor a hybu gyrfaedd – adrannau 7-8

22. Fel y nodir yn adran 4 o'r Bil hwn un o brif swyddogaethau'r Cyngor yw darparu cyngor ar faterion sy'n ymwneud â'r personau y mae'n eu rheoleiddio ac ar faterion addysgu a dysgu. O dan adran 7 o'r Bil caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi cyngor iddynt hwy neu i bersonau eraill ar 'faterion perthnasol' (mae'r materion perthnasol hyn wedi eu rhagnodi yn adran

7(2)).

23. Gyda chydysniad Gweinidogion Cymru caiff y Cyngor hefyd roi unrhyw gyngor i bersonau eraill sy'n briodol yn ei farn ef. Caniateir rhoi cyngor ar ystod o faterion gan gynnwys hyfforddiant, datblygu gyrfa, rheoli perfformiad ac addasrwydd i ymarfer.
24. Mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar y Cyngor i gyhoeddi unrhyw gyngor y mae'n ei roi o dan adran 7.
25. Mae adran 8 yn darparu bod y Cyngor yn gallu rhoi cyngor, trefnu cynadleddau a darlithoedd a chyhoeddi deunyddiau hybu, er mwyn hybu gyrfaedd y gweithlu addysgol cofrestredig, sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. Yn ychwanegol at ffeiriau gyrfaedd, caniateir i hyn gynnwys trefnu cynadleddau a darlithoedd a fydd yn cyfrif tuag at ddatblygiad proffesiynol parhaus personau cofrestredig.

Cofrestru'r Gweithlu Addysg – adrannau 9-13 (ac Atodlen 2)

26. Mae adrannau 9 i 13 yn ymwneud â chofrestru'r gweithlu addysg. Mae angen eu darllen ar y cyd ag Atodlen 2.
27. Yn rhinwedd adran 9, mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofrestr o bob:

athro neu athrawes mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru,
gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol, a
gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach.

28. Mae Atodlen 2 yn nodi'r union ddisgrifiadau o'r rhai y mae'n ofynnol iddynt gofrestru ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ychwanegu categorïau newydd o bersonau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gweithwyr ieuenctid neu bersonau sy'n gysylltiedig â chynlluniau dysgu seiliedig ar waith a sefydlwyd o dan adran 31 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.
29. Rhaid i berson sy'n dymuno cael ei gofrestru wneud cais i'r Cyngor a bodloni'r amodau cymhwysra yn adran 10. Os yw'r person yn bodloni'r amodau hynny, rhaid i'r Cyngor ei gofrestru.
30. Caiff person gofrestru yn llawn neu ar sail dros dro. Mae amrywiaeth o amgylchiadau pan all fod yn briodol i berson gofrestru dros dro:

yn ymgymryd â chyfnod sefydlu
yn dechrau hyfforddiant athrawon
yn gweithio tuag at ennill cymhwyster gofynnol

Fodd bynnag, dim ond unwaith y bydd cymhwysra person i gael ei gofrestru yn cael ei asesu.

31. Mae adran 10 yn nodi'r amodau y mae rhaid i berson eu bodloni er mwyn bod

yn gymwys i gael ei gofrestru. Rhaid darllen yr adran hon ar y cyd ag adran 40. Mae'r amodau yn cynnwys gofyniad bod y Cyngor wedi ei fodloni bod y ceisydd yn briodol i gael ei gofrestru. Mae adran 11 yn darparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor ar sail addasrwydd y ceisydd i gael ei gofrestru.

32. Mae adran 12 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y ffioedd y caiff y Cyngor eu codi mewn cysylltiad â chofrestru. Mae hyn yn cynnwys swm y ffioedd y caniateir iddo eu codi a hefyd y dulliau y caniateir iddynt gael eu defnyddio i gasglu'r ffioedd hynny. Er enghraifft, gallai fod yn ofynnol i gyflogwyr personau cofrestredig ddi-dynnu'r ffioedd o gyflog y person ac anfon y swm hwnnw i'r Cyngor.
33. Mae adran 13 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cofrestru yn gyffredinol. Mae is-adran (2) yn darparu rhai enghreifftiau o sut y caniateir i'r pŵer hwn gael ei arfer. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o bynciau sy'n amrywio o'r agweddau gweinyddol a gweithdrefnol ar gofrestru i'r canlyniadau ar ôl i berson roi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i'r Cyngor fel rhan o'r broses gofrestru a sut y gall y cyhoedd weld yr wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei chadw.

Y gofynion sydd i'w bodloni er mwyn darparu gwasanaethau – adrannau 14-16

34. Mae adrannau 14 i 16 yn gosod cyfyngiadau ar bwy a gaiff ddarparu gwasanaethau penodol mewn ysgolion a gynhelir (ac ysgolion arbennig) a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Ym mhob achos, bydd yn ofynnol i'r person fod wedi ei gofrestru er mwyn darparu'r gwasanaethau. Yn ychwanegol, gall fod rhaid i'r person feddu ar gymwysterau neu brofiad penodol neu fodloni amodau penodol.
35. Mae adran 14 yn ymwneud ag athrawon a gweithwyr cymorth dysgu. Caiff y rheoliadau bennu'r mathau o wasanaethau nad yw person yn gallu eu darparu heb fodloni'r gofynion amrywiol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, addysgu neu baratoi cynlluniau gwersi.
36. Mae adrannau 15 ac 16 yn ymwneud â'r ddarpariaeth o addysg a gwasanaethau eraill mewn sefydliadau addysg bellach (neu ar eu rhan). Mae'r cyfyngiad hwn ar ddarparu gwasanaethau yn cynnwys pobl sy'n darparu addysg bellach (neu sy'n cefnogi'r addysg honno) yn y gymuned.
37. Mae addysg yn y cyd-destun hwn yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden.

Sefydlu personau cofrestredig – adrannau 17-22

38. Mae adran 17 yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i berson gwblhau cyfnod sefydlu cyn y gellir cofrestru'r person hwnnw'n llawn.
39. Caiff rheoliadau a weir o dan yr adran hon nodi'r manylion o ran yr hyn y bydd ei angen o safbwynt sefydlu ym mhob un o'r categorïau cofrestru. Bydd hyn yn cynnwys pa mor hir y dylai cyfnod sefydlu bara; ei leoliad a phwy ddylai asesu a yw'r cyfnod sefydlu wedi ei gwblhau'n foddhaol. Caiff y rheoliadau hefyd ddarparu ar gyfer y canlyniadau pan na fo person yn cwblhau cyfnod sefydlu yn

foddhaol (er enghraifft, ni chaniateir i'r person gael ei gyflogi'n athro neu'n athrawes mewn ysgol a gynhelir).

40. Mae adran 18 yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r safonau y mae rhaid asesu person sy'n ymgymryd â chyfnod sefydlu yn unol â hwy. Wrth bennu'r safonau hynny mae rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Cyngor.
41. Mae adran 19 yn darparu bod gan berson y bernir nad yw wedi cwblhau'r cyfnod sefydlu yn foddhaol yr hawl i apelio i'r Cyngor yn erbyn ei benderfyniad.
42. Mae adran 20 yn ymwneud ag achosion pan fo person neu gorff sydd â swyddogaethau mewn cysylltiad â chyfnodau sefydlu yn methu â chyflawni'r swyddogaethau hynny neu'n eu cyflawni mewn modd annigonol.
43. Mae'n gwneud hynny drwy gymhwyso'r darpariaethau perthnasol o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i'r swyddogaethau hyn. Mae hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ymyrryd a dyroddi cyfarwyddiadau yn unol â'r Ddeddf honno mewn perthynas â chorff llywodraethu sefydliad addysg bellach a chyrrff priodol (ac eithrio awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir).
44. Gan fod y Bil wedi ei ddosbarthu yn un o'r "Deddfau Addysg" (gweler adran 51 o'r Bil) mae Deddf Safonau a Threftadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 eisoes yn gymwys i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig. Mae is-adran (3) yn cadarnhau nad oes bwriad i effeithio ar weithrediad y Ddeddf honno yn y cyswllt hwn.
45. Mae adran 22 yn ymwneud ag agweddau cyllido sefyllfa pan fo person wedi methu â chwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol ond ei fod yn parhau yn gyflogedig (â dyletswyddau cyfyngedig) mewn ysgol a gynhelir sydd â chyllideb ddirprwyedig. O dan yr amgylchiadau hyn, dim ond os oes rhesymau da dros wneud hynny y caiff awdurdod lleol wneud didyniadau o'r costau sy'n ymwneud â thâl y person o gyfran yr ysgol o'r gyllideb.

Gwerthuso personau cofrestredig – adran 23

46. Mae adran 23 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i berfformiad person cofrestredig gael ei werthuso. Caiff y rheoliadau osod gwahanol ofynion mewn perthynas â chategorïau cofrestru gwahanol.

Cod ymddygiad ac ymarfer ar gyfer personau cofrestredig – adrannau 24-25

47. Mae adran 24 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cod ymddygiad ac ymarfer sy'n pennu'r safonau a ddisgwylir gan bersonau cofrestredig. Caiff y Cod bennu safonau gwahanol ar gyfer categorïau gwahanol o'r gweithlu addysg.
48. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymryd drosodd y cod a pharhau i'w adolygu. Rhaid iddo adolygu'r cod cyn pen 3 blynedd ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd y cod ddiwethaf neu ba bryd bynnag yr ychwanegir categori cofrestru newydd.
49. Mae adran 25 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y

Cod. Mae hyn yn cynnwys ffurf a chynnwys y Cod ynghyd â'r canlyniadau pan nad yw person cofrestredig wedi cydymffurfio â'r Cod.

Swyddogaethau disgyblu'r Cyngor – adrannau 26-32

50. Mae adrannau 26 i 32 yn delio â swyddogaethau disgyblu'r Cyngor.
51. Yn rhinwedd adran 26, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ymchwiliadau pan honnir bod person cofrestredig:
- yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol, neu wedi ei gollfarnu o drosedd berthnasol.
52. Rhaid i'r Cyngor benderfynu, ar ôl cynnal ymchwiliad, pa gamau pellach i'w cymryd. Pan fo'r Cyngor yn penderfynu bod person yn euog mae'r Cyngor yn gallu gwneud gorchymyn disgyblu. Pan fo o'r farn nad oes achos i'w ateb, caiff y Cyngor beidio â pharhau â'r achos.
53. Mae adran 28 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch swyddogaethau disgyblu'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio, gorchmynion disgyblu a'r camau y caniateir i gyflogwr eu cymryd pan fo cyflogai yn cael gorchymyn disgyblu.
54. Ni chaiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i berson roi unrhyw dystiolaeth neu ddangos unrhyw ddogfennau na fyddai'r person hwnnw yn cael ei orfodi i'w rhoi mewn trafodion sifil mewn unrhyw lys yng Nghymru a Lloegr. Gall rheoliadau hefyd wneud darpariaeth bod unrhyw orchymyn gwahardd addysgu a wneir mewn perthynas ag athro neu athrawes yn Lloegr yn cael effaith gyfatebol yng Nghymru.
55. Mae adrannau 29, 30 ac 31 yn nodi effaith rhai o'r gorchmynion disgyblu sydd ar gael i'r Cyngor. Maent yn cynnwys:
- gosod amodau ar gyfer cofrestru person (a chymryd camau pellach os na fydd yn cydymffurfio â'r amodau hynny);
atal dros dro gofrestru person am gyfnod o hyd at 2 flynedd (ac felly atal y person rhag gweithio fel person cofrestredig). Ar ddiwedd y cyfnod atal dros dro, gall fod rhaid i'r person gydymffurfio â'r amodau a osodwyd am gyfnod pellach;
gwahardd person rhag bod yn berson cofrestredig a hynny am gyfnod amhenodol.
56. Mae adran 32 yn darparu hawl i apelio yn erbyn unrhyw orchymyn disgyblu a wneir gan y Cyngor. Rhaid gwneud apelau cyn pen 28 o ddiwrnodau. Mae'r Uchel Lys yn gallu gwneud unrhyw orchymyn sy'n briodol yn ei farn ef mewn perthynas ag apel ac mae penderfyniad yr Uchel Lys yn derfynol.

Dyletswyddau o ran gwybodaeth – adrannau 33-38

57. Mae adrannau 33 i 38 yn ymwneud â chadw a rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Cyngor neu i gofrestru a rheoleiddio personau sy'n dymuno cofrestru.
58. Mae adran 33 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal cofnodion ynghylch personau amrywiol. Er enghraifft, caiff hyn gynnwys cadw gwybodaeth am bobl sydd wedi gwneud cais i gofrestru ac sydd wedi cael eu gwrthod neu bobl sydd wedi eu tynnu oddi ar y gofrestr ar sail disgyblu.
59. Mae adran 34 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor am bersonau cofrestredig, naill ai ar gais y Cyngor neu pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i'r Cyngor gael yr wybodaeth honno. Mae adran 34 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu gwybodaeth i'r Cyngor am athrawon unigol mewn ysgolion, naill ai ar gais y Cyngor neu pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i'r Cyngor gael yr wybodaeth honno.
60. Mae adran 35 yn gosod nifer o ddyletswyddau o ran gwybodaeth ar y Cyngor. Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth iddynt (gan gynnwys gwybodaeth am bersonau cofrestredig). Mae'n caniatáu i berson y mae'r Cyngor yn cadw gwybodaeth amdano weld yr wybodaeth honno.
61. Mae adran 35 hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth i bersonau neu gyrff penodol (ac yn ddarostyngedig i amodau penodol). Er enghraifft, gellid defnyddio'r pŵer hwn i'w gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu gwybodaeth i Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban ynghylch person sy'n ddarostyngedig i orchymyn disgyblu.
62. Mae adran 36 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr personau cofrestredig sy'n gweithio yng Nghymru hysbysu'r Cyngor os caiff y person cofrestredig ei ddiswyddo o ganlyniad i ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol neu gollfarn am drosedd berthnasol a rhoi unrhyw wybodaeth bellach a bennir mewn rheoliadau. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i adolygu a oes angen iddo ymchwilio i ymddygiad y person o dan ei bwerau disgyblu.
63. Mae adran 37 yn gosod dyletswyddau tebyg i'r hyn a welir yn adran 36 ar bersonau sy'n gweithredu fel asiant i berson cofrestredig.
64. Mae adran 38 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddyd, y caniateir ei orfodi drwy waharddeb, i unrhyw gyflogwr neu asiant person cofrestredig os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflogwr perthnasol neu asiant wedi methu neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â dyletswydd o dan adran 36 ac adran 37.

Darpariaeth drosiannol a darfodol – adrannau 39-40

65. Mae adran 39 yn darparu bod yr athrawon hynny sydd eisoes wedi eu cofrestru gyda CyngACC ac sydd wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol yn cael eu

cofrestru'n awtomatig yn athro neu athrawes ysgol cyn gynted ag y bo'r gofrestr newydd yn dod i rym.

66. Mae hefyd yn darparu bod athrawon sydd wedi eu cofrestru, ond nad ydynt wedi cwblhau cyfnod sefydlu yn foddhaol hyd yn hyn, yn cael eu cofrestru'n awtomatig yn athro neu athrawes ysgol ar sail dros dro cyn gynted ag y bo'r gofrestr newydd yn dod i rym.
67. Mae adran 40 yn sicrhau bod y personau hynny sydd wedi eu gwahardd rhag addysgu drwy orchymyn disgyblu o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 neu yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002 yn parhau yn anghymwys i'w cofrestru o dan y system newydd.

Rhan 3 – Personau ag Anawsterau Dysgu

Diddymu'r gofyniad i ysgolion annibynnol gael eu cymeradwyo – adran 42

68. Mae'r adran hon yn diddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996.
69. Effaith adran 347 fel y mae ar hyn o bryd yw bod rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo ysgol annibynnol os yw'n derbyn plentyn sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig. Yr unig eithriad i hyn yw os yw Gweinidogion Cymru, mewn achos unigol, yn cydsynio i blentyn penodol gael ei dderbyn i ysgol annibynnol sydd heb ei gymeradwyo.
70. Mae diddymu adran 347 yn adlewyrchu'r ffaith bod cofrestriad ysgol annibynnol i bennu a yw plant sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig yn cael eu derbyn, ac os ydynt, ar gyfer pa fath o anghenion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer (gweler adran 43 ar gyfer y pwynt hwn).

Cofrestru ysgolion annibynnol – adran 43

71. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Addysg 2002.
72. Mae Deddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol gael eu cofrestru. Gweinidogion Cymru sy'n cadw'r gofrestr ac mae'n drosedd i redeg ysgol sydd heb ei chofrestru.
73. Effaith y diwygiadau yn is-adran (1) o adran 43 yw newid yr wybodaeth y mae angen ei rhoi a'i chynnal ar y gofrestr at ddiben cofrestru ysgol. Bellach bydd rhaid i gais ysgol i gofrestru bennu (ymhlith materion eraill) a yw'r ysgol yn derbyn disgyblion y cynhelir datganiad anghenion addysgol arbennig ar eu cyfer; ac os yw'r ysgol yn derbyn y disgyblion hynny, y math o anghenion y mae'r ysgol wedi ei threfnu i wneud darpariaeth ar eu cyfer. (Mae is-adran (2) yn gwneud diwygiadau canlyniadol.)
74. Effaith y diwygiadau yn is-adran (3) o adran 43 yw os oes newid, ar ôl i ysgol gael ei chofrestru, o ran p'un a yw'n derbyn disgyblion o'r math hwn ai peidio neu newid yn y math o anghenion y mae'r ysgol wedi ei threfnu i wneud darpariaeth ar eu cyfer, caniateir i'r ysgol gael ei thynnu oddi ar y gofrestr oni bai bod y newid wedi ei gymeradwyo.

Personau ag anawsterau dysgu: asesu anghenion addysg a hyfforddiant ôl-16 – adran 44

75. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 drwy fewnosod adrannau 40A i 40F newydd yn y Ddeddf honno.
76. Mae'r adrannau newydd hyn yn disodli'r gofyniad presennol, yn adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, i Weinidogion Cymru drefnu i bersonau gael eu hasesu. O ganlyniad i hynny, mae adran 140 wedi ei diddymu (gweler Atodlen 3).
77. Mae adran 40A newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, o dan amgylchiadau penodol, sicrhau asesiad o anghenion addysg a hyfforddiant ôl-16 person y mae'n cynnal datganiad anghenion addysgol arbennig ar ei gyfer. (Cyfeirir at asesiad o'r fath fel "asesiad AAH ôl-16") Yn y bôn, mae'r gofyniad yn gymwys pan fo person ym mlwyddyn olaf ei gyfnod gorfodol yn yr ysgol, neu'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, a bod yr awdurdod o'r farn bod y person yn dymuno ymgymryd â rhyw fath o addysg neu hyfforddiant ôl-16 ar ôl gadael yr ysgol.
78. Mae'r adran hefyd yn darparu y caiff person wneud cais i'r awdurdod i gadarnhau a yw'r awdurdod yn bwriadu cynnal asesiad AAH ôl-16 o'r person yn y flwyddyn ysgol bresennol.
79. Mae adran 40B newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn rhoi pŵer disgresiynol ar awdurdod lleol i sicrhau asesiad AAH ôl-16 o berson sy'n bodloni gofynion penodol. Mae'r rhain wedi eu nodi yn is-adran (2): rhaid i'r person breswyllo yn ardal yr awdurdod, rhaid iddo fod naill ai ym mlwyddyn olaf y cyfnod gorfodol yn yr ysgol neu'n hŷn nag oedran ysgol gorfodol ond o dan 25 oed, rhaid iddo fod ag anhawster dysgu, a'i fod yn cael addysg neu hyfforddiant ôl-16 neu'n ymddangos ei fod yn dymuno gwneud hynny.
80. Mae darpariaeth yn yr adran (is-adrannau (3) a (4)) i berson wneud cais am asesiad AAH ôl-16 o'r math hwn.
81. Mae is-adran (5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi manylion am yr amgylchiadau hynny pan gaiff neu pan na chaiff person ei drin fel petai'n "preswyllo fel arfer" mewn ardal awdurdod lleol at ddibenion yr adran hon.
82. Mae adran 40C newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn pennu'r hyn y mae rhaid ei gynnwys wrth gynnal asesiad AAH ôl-16 o berson.
83. Bydd angen cofnodi'r asesiad mewn adroddiad ysgrifenedig (is-adran (1)).
84. Rhaid i (is-adran (1)) fynd i'r afael ag anghenion addysg a hyfforddiant y person, a'r hyn y mae ei angen er mwyn eu bodloni, o ran darparu addysg a/neu hyfforddiant, a dulliau eraill o gymorth. Un enghraifft o gymorth o'r math hwn yw darparu gweithiwr cymorth er mwyn helpu person tra bo mewn sefydliad addysg bellach, neu gymorth dysgu o ryw fath. Ond nid yw cludiant i leoliad addysg neu hyfforddiant, neu oddi yno, wedi ei gynnwys (is-adran (5)).

85. Rhaid i asesiad hefyd bennu p'un a yw'r ddarpariaeth sy'n ofynnol yn cynnwys llety preswyl ai peidio, neu ddarpariaeth a wneir y tu allan i'r sector addysg bellach (is-adran (2)). Mae angen hyn er mwyn penderfynu ar natur y dyletswyddau sy'n deillio o ganfyddiadau'r asesiad, ac ai Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanynt.
86. Mae is-adran (5) yn rhoi pŵer ar Weinidogion Cymru i ymwneud, drwy reoliadau, â sut y mae asesiad i gael ei gynnal. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod ddarparu gwybodaeth am asesiadau i Weinidogion Cymru. Mae'n bosibl y byddai angen yr wybodaeth hon, er enghraifft, er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflawni eu dyletswydd o dan adran 41 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (gweler adran 47).
87. Mae adran 40D newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch ceisiadau y caniateir eu gwneud i awdurdod o dan adran 40A a 40B a'r hysbysiadau y mae rhaid eu rhoi mewn ymateb i gais. Gallai rheoliadau o dan yr adran hon, er enghraifft, bennu, unwaith y bydd asesiad ôl-16 o berson wedi ei gynnal, mai dim ond ar ôl cyfnod penodol o amser y caniateir i gais gael ei wneud am asesiad pellach.
88. Mae adran 40E newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau annibynnol i ddatrys anghydfod sy'n ymwneud ag asesiadau AAH ôl-16.
89. Mae adran 40F newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn darparu diffiniadau. Effaith is-adran (2) yw bod y pŵer disgresiynol i sicrhau asesiad ôl-16 o dan adran 40B yn gymwys mewn perthynas â pherson sy'n cael ei addysgu mewn lleoliad ac eithrio mewn ysgol.

Asesiadau o anghenion addysg a hyfforddiant ôl-16: apelau – adran 45

90. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 drwy fewnosod adrannau 40G i 40M newydd yn y Ddeddf honno.
91. Mae adran 40G newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gwneud darpariaeth am apelau mewn cysylltiad ag asesiadau ôl-16.
92. Mae apêl i gael ei chyflwyno i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC").
93. Caniateir apelio yn erbyn methiant awdurdod i sicrhau asesiad. Caniateir apelio hefyd yn erbyn cynnwys asesiad, i'r graddau y mae'n cynnwys disgrifiad o anghenion addysg neu hyfforddiant y person neu ddisgrifiad o'r hyn y mae ei angen er mwyn diwallu'r anghenion hynny.
94. Effaith is-adran (3) yr adran 40G newydd yw y caniateir apelio yn erbyn methiant i sicrhau asesiad o dan adran 40A –

pan fo awdurdod wedi methu â sicrhau asesiad yn ystod blwyddyn olaf y person yn yr ysgol, neu
 pan fo awdurdod wedi hysbysu person nad yw'n bwriadu sicrhau asesiad yn ystod y flwyddyn ysgol gyfredol, neu

pan na fo asesiad wedi ei gynnal cyn pen 6 mis ar ôl cyflwyno cais i gael asesiad.

95. Bwriad y dull hwn o weithredu yw hwyluso cynllunio ymlaen llaw drwy sicrhau na fydd rhaid i berson aros hyd nes y bydd wedi gadael yr ysgol mewn gwirionedd cyn apelio i TAAAC yn erbyn methiant i gynnal asesiad yn ystod ei flwyddyn olaf yn yr ysgol o dan adran 40A.
96. Effaith is-adran (6) yw y caniateir apelio yn erbyn methiant i sicrhau asesiad o dan adran 40B naill ai pan fo awdurdod yn gwrthod cais i sicrhau asesiad, neu phan na fo asesiad wedi ei gynnal cyn pen 6 mis ar ôl cyflwyno cais i gael asesiad.
97. Mae adran 40G newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn nodi pwerau TAAAC o ran penderfynu ar apêl.
98. Wrth apelio yn erbyn methiant i sicrhau asesiad, rhaid i TAAAC (oni bai ei fod yn gwrthod yr apêl) orchymyn i asesiad gael ei gynnal. Pan fo apêl wedi ei wneud yn erbyn cynnwys asesiad, rhaid i TAAAC (oni bai ei fod yn gwrthod yr apêl) naill ai orchymyn i'r cynnwys gael ei newid, neu orchymyn i asesiad pellach gael ei gynnal.
99. Mae adran 40G newydd yn mynd yn ei blaen i ddarparu (is-adran (4)) bod asesiadau a sicrheir o ganlyniad i orchymyn a wneir gan TAAAC ar ôl cynnal apêl i'w trin fel petaent wedi eu sicrhau o dan adran 40A neu 40B. Mae hyn yn golygu y caiff person apelio yn erbyn cynnwys asesiad a gynhelir yn rhinwedd gorchymyn a wneir gan TAAAC. Mae hefyd yn golygu y bydd y dyletswyddau o dan adrannau 41 ac 41A o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 sy'n deillio o asesiadau AAH ôl-16 o dan adrannau 40A a 40B yn gymwys mewn perthynas ag asesiad o'r math hwn hefyd.
100. Mae adran 40I newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gydymffurfio â gorchymynion a wneir gan TAAAC ar ôl cynnal apêl, ac yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio o fewn cyfnod penodol.
101. Mae adran 40J newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyn sydd i ddigwydd os bydd awdurdod yn hysbysu TAAAC na fydd yn gwrthwynebu apêl a gyflwynwyd mewn perthynas ag asesiad AAH ôl-16. Yn y bôn, ni fydd TAAAC yn gwneud unrhyw orchymyn, ond rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y person yn cael ei asesu. Bydd rhaid iddo wneud hyn o fewn cyfnod a bennir yn y rheoliadau. Unwaith eto, rhaid trin asesiad a sicrheir yn rhinwedd yr adran hon yn asesiad o dan adran 40A neu 40B at ddibenion apelau a'r dyletswyddau sy'n deillio o asesiad.
102. Mae adran 40K newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn apelio. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch gweithdrefn drwy reoliadau.
103. Mae adran 40L newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn rhoi hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys (ond dim ond ar bwynt cyfreithiol).

Personau ag anawsterau dysgu: cyfeillion achos a gwasanaethau eiriol – adran 46

104. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 drwy fewnosod adrannau 40N a 40O newydd yn y Ddeddf honno.
105. Mae adran 40N newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn rhoi pŵer, drwy reoliadau, i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cyfeillion achos. Caiff cyfeillion achos gyflwyno sylwadau ar ran person pan fo anghytundeb neu pan fo anghytundeb posibl ynghylch asesiad AAH ôl-16, a chaiff apelio ar ran person o dan adran 40G.
106. Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cyfeillion achos.
107. Mae adran 40O newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau eiriol annibynnol a chyfeirio personau penodol sy'n gofyn am wasanaethau eiriol at rywun sy'n darparu'r gwasanaethau hynny. Bydd gwasanaethau eiriol annibynnol yn cynghori ac yn helpu person sy'n apelio, sy'n bwriadu apelio, neu sy'n ystyried apelio i TAAAC o dan adran 40G, neu sy'n cymryd rhan, neu sy'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau datrys anghydfod.
108. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch y trefniadau.

Cyfrifoldeb am ddarparu addysg a hyfforddiant ôl-16 i bersonau ag anawsterau dysgu – adran 47

109. Mae'r adran hon yn diwygio adran 41 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac yn mewnosod adran 41A newydd.
110. Mae adran 41 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 fel y mae ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, drwy arfer swyddogaethau o dan adrannau 31, 32 a 34 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (dyma'r swyddogaethau mewn cysylltiad â darparu addysg a hyfforddiant i berson sydd rhwng 16 a 19 oed, ac i'r rhai sydd dros 19 oed), roi sylw i -

anghenion personau ag anawsterau dysgu, ac
asesiadau a gynhelir o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

111. Mae adran 140 wedi ei diddymu yn Atodlen 3. Felly mae'r diwygiad i adran 41(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn is-adran (2) o adran 47 yn dileu'r gofyniad presennol yn adran 41 i Weinidogion Cymru roi sylw i'r asesiadau a gynhelir o dan adran 140. Bydd Gweinidogion Cymru, fodd bynnag, yn parhau o dan ddyletswydd o dan adran 41, drwy arfer swyddogaethau o dan adrannau 31, 32 a 34 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, i roi sylw i anghenion personau ag anawsterau dysgu.
112. Mae is-adran (3) o adran 47 yn diwygio adran 41 ymhellach er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru (at ddibenion cynnal y ddyletswydd sy'n weddill ganddynt o dan adran 41 i roi sylw i anghenion personau ag anawsterau dysgu) i'w

gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi copïau iddynt o'r asesiadau o dan adrannau 40A a 40B newydd.

113. Mae is-adran (4) o adran 47 yn diddymu adran 41(2) a (3) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.
114. Mae adran 41(2) a (3) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, o dan amgylchiadau penodol, sicrhau bod llety preswyl yn cael ei ddarparu ar gyfer person ag anhawster dysgu sydd o dan 19 oed, neu sydd rhwng 19 a 25 oed.
115. Mae diddymu'r darpariaethau hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai'r awdurdod lleol perthnasol fydd â chyfrifoldeb am ddarparu'r hyn y mae ei angen ar berson pan fo asesiad AAH ôl-16 y person hwnnw yn pennu bod angen llety preswyl arno (gweler adran 41A newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000).
116. Mae adran 41A newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, fel y'i mewnosodir gan adran 47, yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfrifoldebau awdurdod lleol pan fo asesiad AAH ôl-16 wedi ei gynnal.
117. Effaith adran 41A newydd yw, os yw asesiad AAH ôl-16 person yn pennu bod angen llety preswyl arno, neu fod angen addysg neu hyfforddiant ôl-16 y tu allan i'r sector addysg bellach arno, mai'r awdurdod lleol a drefnodd i'r asesiad gael ei gynnal fydd â chyfrifoldeb am sicrhau bod yr hyn y mae ei angen yn cael ei drefnu. (Mewn achosion eraill, ddyletswydd Gweinidogion Cymru fydd y ddyletswydd gymwysadwy o dan adran 41 i roi sylw i anghenion personau ag anawsterau dysgu).
118. Mae'r ddyletswydd a osodir ar yr awdurdod yn ddyletswydd i sicrhau bod y ddarpariaeth a nodir yn yr asesiad ar gael i'r person.
119. Mae'r ddyletswydd yn parhau i fod yn gymwys hyd at ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y person yn cyrraedd 25 oed, ar yr amod bod y person yn preswyl fel arfer yn ardal yr awdurdod. (Mae blwyddyn academaidd yn rhedeg o ddechrau mis Awst hyd ddiwedd mis Gorffennaf, felly mewn achos pan fo person yn cyrraedd 25 oed ym mis Ionawr, bydd y ddyletswydd yn parhau i fod yn gymwys hyd ddiwedd y mis Gorffennaf canlynol).
120. Mae adran 41A newydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch pa bryd y mae person i gael ei drin fel un sy'n preswyl fel arfer mewn ardal awdurdod at y diben hwn, a pha bryd nad yw person i gael ei drin yn y fath fodd, ac ynghylch pa bryd y mae'r ddyletswydd o dan adran 41A yn peidio â bod yn gymwys. Mae pŵer hefyd i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch pa bryd y mae asesiadau pellach i gael eu cynnal o berson y mae'r ddyletswydd yn adran 41A yn gymwys mewn cysylltiad ag ef.
121. Gallai'r pwerau hyn, er enghraifft, gael eu defnyddio i ddarparu bod y ddyletswydd yn adran 41A yn peidio â bod yn gymwys pan fo person yn penderfynu peidio â chymryd rhan mwyach mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16. Gallent hefyd gael eu defnyddio i ddarparu bod y ddyletswydd i barhau i fod yn gymwys am gyfnod penodedig ar ôl i berson symud o ardal yr awdurdod,

a/neu fod y ddyletswydd i beidio â bod yn gymwys os yw person yn methu â chydweithredu o dan amgylchiadau penodol â darpariaeth i gynnal asesiad pellach.

Addysg a hyfforddiant ôl-16 i bersonau ag anawsterau dysgu: cod ymarfer – adran 48

122. Mae adran 48 yn diwygio Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 drwy fewnosod adran 41B newydd yn y Ddeddf honno.
123. Mae adran 41B newydd o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch swyddogaethau awdurdodau lleol o dan ac yn rhinwedd adrannau 40A i 41A. Mae'n ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i'r cod. Wrth apelio i TAAAC, caiff TAAAC roi sylw i'r cod os yw'n ystyried bod hynny'n berthnasol.

Rhan 4 – Darpariaeth amrywiol adrannau 49 a 50

Dyddiadau tymhorau a gwyliau ac amserau sesiynau ysgol – adran 49

124. Mae adran 49 yn diwygio Deddf Addysg 2002 mewn cysylltiad â Chymru drwy fewnosod adrannau 32A, 32B a 32C newydd.
125. Mae adran 32A newydd o Ddeddf Addysg 2002 yn nodi cyfrifoldebau awdurdod lleol neu gorff llywodraethu o ran pennu dyddiadau tymhorau a gwyliau'r ysgolion y maent yn gyfrifol amdanynt.
126. Drwy bennu dyddiadau rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gydweithredu a chydgyssylltu er mwyn sicrhau bod y dyddiadau a bennir yr un peth (neu mor agos â phosibl at fod yr un peth) ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
127. Unwaith y bydd y dyddiadau wedi eu pennu, rhaid hysbysu Gweinidogion Cymru am y dyddiadau hynny yn dilyn gweithdrefn i'w nodi mewn rheoliadau.
128. Mae adran 32B newydd o Ddeddf Addysg 2002 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i bennu dyddiadau tymhorau ysgol gwahanol i'r rhai a bennir o dan adran 32A. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fo digwyddiad arbennig wedi ei drefnu sy'n golygu efallai y byddai'n ddymunol i ysgol benodol neu gyfres o ysgolion fod ar wyliau ar adeg wahanol. Gellid defnyddio hyn hefyd pan na fo ardal wedi pennu dyddiadau tymhorau yn unol â gweddill Cymru.
129. Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad priodol. Caniateir i reoliadau gael eu gwneud ynghylch ymgynghoriad o'r fath.
130. Mae adran 32C newydd o Ddeddf Addysg 2002 yn ailddatgan y ddarpariaeth bresennol o ran amserau sesiynau ysgol sy'n ymwneud â Chymru yn adran 32 gyfredol o Ddeddf Addysg 2002.

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru – adran 50

131. Mae adran 50 yn diwygio adran 19 o Ddeddf Addysg 2005.
132. Fel y mae ar hyn o bryd, mae adran 19 yn darparu y caiff Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("y Prif Arolygydd"), ac Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant, eu penodi gan Ei Mawrhydi drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Caiff y Prif Arolygydd ei ddiswyddo hefyd gan Ei Mawrhydi drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor.
133. Mae adran 19(6) o Ddeddf Addysg 2005 yn darparu bod Gweinidogion Cymru i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar unrhyw argymhelliad sydd i'w wneud gan Ei Mawrhydi ar arfer y pwerau penodi a diswyddo hyn. Fodd bynnag, yn rhinwedd confensiwn cyfansoddiadol, yn y dyfodol Prif Weinidog Cymru, yn rhinwedd ei swydd fel Cyfrin-Gynghorydd, fydd yn arfer y rôl gynghori honno yn lle'r Ysgrifennydd Gwladol. Felly mae'r gofyniad statudol i Weinidogion Cymru gynghori wedi ei ddileu drwy ddiddymu adran 19(6).

Rhan 5**Darpariaeth Gyffredinol – adrannau 50-56**

134. Mae'r Rhan hon yn cynnwys nifer o adrannau sy'n gymwys i'r Bil cyfan. Mae nifer o'r adrannau yn hunanesboniadol ac felly ni ddarperir unrhyw sylwebaeth ar eu cyfer.
135. Mae adran 51 yn darparu bod y Bil i gael ei gynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996. Mae hyn yn golygu, ymhlith pethau eraill, y bydd unrhyw swyddogaeth a roddir ar awdurdod lleol o dan y Bil hwn yn swyddogaeth addysg (gweler adran 36A o Ddeddf Addysg 1996) ac yn ddarostyngedig i bwerau ymyrryd amrywiol Gweinidogion Cymru o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Darpariaeth ategol – adran 52

136. Mae'r pwerau a roddir ar Weinidogion Cymru gan yr adran hon yn caniatáu iddynt wneud unrhyw orchmynion sy'n briodol yn eu barn hwy er mwyn i'r Bil gyflawni ei ddibenion a chael ei effaith lawn.
137. Mae enghreifftiau o sut y gellid defnyddio'r pŵer hwn yn cynnwys:
- gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall o ganlyniad i'r newidiadau a wneir gan y Bil hwn (yn enwedig pan fo Senedd y DU hefyd yn diwygio'r un ddeddfwriaeth ar yr un pryd);
- rhoi mwy o eglurder o ran unrhyw un neu ragor o'r gweithdrefnau newydd;
- ymdrin â materion sydd heb eu rhag-weld ac sy'n deillio o roi'r system newydd ar waith.
138. Pan fo'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i ddiwygio testun deddfwriaeth sylfaenol rhaid iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad, a'i gymeradwyo ganddo, cyn y daw i rym.

Gorchmynion a rheoliadau – adran 53

139. Mae'r adran hon yn nodi bod rheoliadau a gorchmynion o dan y Bil i gael eu gwneud drwy offeryn statudol ac mae'n nodi gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â'r offerynnau hynny.
140. Mae hefyd yn darparu y gall Gweinidogion Cymru wneud darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, atodol, trosiannol, darfodol ac arbed mewn cysylltiad â'r gorchmynion hynny. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i'r gorchmynion a'r rheoliadau hynny. Er enghraifft, os caiff categori cofrestru newydd ei ychwanegu gellid defnyddio'r pŵer hwn i sicrhau bod y trefniadau trosiannol priodol yn eu lle tra bo'r gweithwyr newydd yn cofrestru.
141. Caiff gorchmynion a rheoliadau wneud gweithdrefnau gwahanol ar gyfer categorïau cofrestru gwahanol. Er enghraifft, mae hyn yn golygu y gellir gwneud trefniadau sefydlu a gwerthuso gwahanol ar gyfer athrawon a gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach.

Cychwyn – adran 56

142. Mae'r adran hon yn ymdrin â pha bryd y daw'r Bil i rym.
143. Er ei bod yn hunanesboniadol ar y cyfan, mae'n werth nodi bod is-adran (2) yn dwyn adran 49 (dyddiadau tymhorau a gwyliau ac amserau sesiynau ysgol) i rym ar y diwrnod y mae'r Ddeddf yn cael y Cydsyniad Brenhinol ond dim ond i'r graddau y mae ei hangen er mwyn i rheoliadau gael eu gwneud o dan adrannau 32A a 32B newydd o Ddeddf Addysg 2002. Bydd hyn yn caniatáu i'r gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori etc. fod yn eu lle cyn y daw'r dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu i rym.

Cyngor y Gweithlu Addysg – Model Ffioedd Economaidd

Wedi'i lunio gan Is-adran Ystadegau'r Economi a'r Farchnad Lafur

Papur 1 - Dulliau arfaethedig o ddosrannu cyllid cymhorthdal ar gyfer ffioedd cofrestru

Cyflwyniad a rhagdybiaethau

Mae tîm dadansoddi yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi ymchwilio i 3 dull posibl o ddosrannu cyllid cymhorthdal ar gyfer ffioedd cofrestru i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (y Cyngor), ac maent wedi cynnal trafodaethau ar y dulliau hynny.

Roedd yna nifer o ragdybiaethau wrth ystyried y dulliau, fel y nodir isod:

Mae 32,000 o bobl wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor ac yn hawlio cymhorthdal £45 yw'r ffi gofrestru £33 yw'r cymhorthdal, sy'n gadael £12 i'w dalu gan yr aelod. Mae'n bosibl lleihau'r swm hwnnw ymhellach trwy ostyngiad yn y dreth sy'n golygu mai oddeutu £6 fyddai'r swm mewn gwirionedd.

Mae unrhyw gyllideb enghreifftiol yn seiliedig ar nifer y bobl sydd wedi eu cofrestru (32,000) wedi ei luosi â'r cymhorthdal (£33), sef £1.056 miliwn

Mae'r holl gyfrifiadau'n seiliedig ar enillion wythnosol gros cyfartalog y rheini sydd mewn sefyllfa lle y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru¹⁷ gyda'r Cyngor o dan y ddeddfwriaeth a gyflwynir. Ceir rhestr o'r sefyllfaoedd hynny yn nhabl A.

Crynodeb o'r gwahanol ddulliau

Dull 1:

Roedd y dull dosrannu hwn yn seiliedig ar y bandiau cyflog a'r cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn yn: "Newidiadau yng nghyfraniadau aelodau i gynllun pensiwn terfynol athrawon ar gyfer 2012-13".

Dull 2:

Roedd y dull hwn yn defnyddio bandiau cyflog mympwyol fel na fyddai'r rheini sy'n ennill llai na swm penodol yn talu unrhyw beth tuag at y ffi gofrestru; y byddai'r rheini sy'n ennill mwy na swm penodol yn talu'r ffi lawn o £45; ac y byddai'r rheini sydd rhwng y ddau amrediad cyflog yn talu cyfraniadau ar raddfa amrywiol, yn seiliedig ar y ganradd gyflog berthnasol.

Dull 3:

Unwaith eto, roedd y dull hwn, fel dull 2, yn defnyddio bandiau cyflog mympwyol, ond cafodd mwy o fandiau mympwyol eu creu ar gyfer y cyflogau rhwng y ddau fand ar bob pegwn. Roedd hynny'n caniatáu ar gyfer defnyddio rhwng tair a chwech o lefelau o gymhorthdal, yn seiliedig ar y cyflog cyfartalog o fewn pob band. Mae'r dull hwn yn haws ei ddefnyddio na'r ail ddull.

Casgliadau

Cyfarfu cydweithwyr ystadegol ag un o benaethiaid tîm dadansoddi'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i drafod y dulliau dosrannu posibl. Dull 2 oedd y cyntaf i gael ei ddiystyru, a hynny'n rhannol oherwydd na fyddai'n ymarferol dosrannu yn ôl y nifer mawr o amrywiadau yn y lefel gyllido, a hefyd oherwydd natur oddrychol y dull. Am y rheswm hwn,

¹⁷ Bydd gofyn i weithwyr ieuentid a chymunedol gofrestru unwaith bydd Gweinidogion Cymru yn llunio rheoliadau perthnasol drwy'r pwerau a ddaw yn sgil Bil Addysg (Cymru).

